
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU
PUBLIC SERVICES OMBUDSMAN FOR WALES



# Adolygiad Digartrefedd: drws agored i newid cadarnhaol

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

# Contents


Crynodeb gweithredol ..... 3
Rhagair ..... 10
Cyflwyniad a fy awdurdodaeth ..... 13
Ymgynghori ..... 16
Cwmpas yr ymchwiliad ..... 16
Deddfwriaeth, canllawiau a pholisïau perthnasol ..... 17
Yr ymchwiliad ..... 18
Deddfwriaeth Tai perthnasol a chanllawiau ..... 19
Tystiolaeth gan yr Awdurdodau Ymchwiliol ..... 21
Tystiolaeth tyst gan yr Awdurdodau Ymchwiliol ac Asiantaethau eraill ..... 37
Adolygiad o'r achosion a samplwyd o'r Awdurdodau Ymchwiliol ..... 53
Enghreifftiau o Arferion Da a nodwyd yn ystod yr ymchwiliad ..... 60
Sylwadau ar yr adroddiad drafft ..... 63
Fy Sylwadau ar yr Ymchwiliad ..... 65
Casgliadau ..... 66
Argymhellion ..... 76
ATODIAD 1 - Adolygu data ..... 80
ATODIAD 2 - Rhesymeg dros ddewis yr Awdurdodau a Ymchwiliwyd ..... 81
ATODIAD 3 - Deddfwriaeth, canllawiau a pholisi perthnasol ..... 83
ATODIAD 4 - Methodoleg ar gyfer samplo cofnodion achos ..... 93
ATODIAD 5 - Tystiolaeth a dderbyniwyd mewn ymateb i'r Ymgynghoriad ar bwnc asesiadau ac adolygiadau digartrefedd ..... 94
ATODIAD 6 - Taflenni Feithiau ..... 101
ATODIAD 7 - Profiadau byw o 'Cymryd Sylw' ..... 107
ATODIAD 8 – Enghreifftiau o dempledi llythrau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ..... 114
ATODIAD 9 - Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf - Canllaw cam wrth gam ..... 122
ATODIAD 10 - Cynghorion Talu Sylw ..... 123

## Crynodeb gweithredol

### Cyflwyniad

Mae Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 yn rhoi pwerau i mi gynnal ymchwiliad ar fy liwt fy hun. Mae hynny'n golygu y gallaf ymchwilio i fater y tu hwnt i'w effaith ar unigolyn a heb orfod aros am gŵyn. Rwy’n falch o gyflwyno'r adroddiad hwn; fy adroddiad cyntaf ar ymchwiliad a gynhaliwyd ar fy liwt fy hun.

Mae'r heriau o ran y cynnydd mewn digartrefedd wedi cael eu cydnabod yn eang gan gyrff yng Nghymru, gan gynnwys Llywodraeth Cymru a mudiadau'r trydydd sector. Er bod Deddf Tai (Cymru) 2014 wedi cael ei chyflwyno, mae ystadegau Llywodraeth Cymru yn dangos cynnydd cyson yn y galw am lety i'r rhai a ystyrir yn ddigartref ac mewn angen blaenoriaethol. Roedd tystiolaeth ragarweiniol yn dangos bod cyfran uchel o benderfyniadau ynglŷn ag asesiadau digartrefedd yn cael eu gwyrdroi yn ystod y broses adolygu, mewn rhai awdurdodau lleol, flwyddyn ar ôl blwyddyn. Roedd hyn yn awgrymu efallai bod camweinyddu systemig a/neu fethiant i nodi a dysgu gwersi.

Mewn ymateb i bandemig COVID-19, bu'n rhaid i awdurdodau lleol wneud newidiadau sylweddol ac uniongyrchol i fodloni'r gofynion a roddwyd arnynt i sicrhau bod gan bawb gartref diogel. Felly, roedd yn berthnasol i mi ystyried sut y gallai arfer da yn ystod y pandemig sbarduno newid pellach neu ddysgu ehangach.

### Yr Ymchwiliad

Ystyriais p’un ai a oedd:

a) Asesiadau digartrefedd yn cael eu cynnal yn briodol.

b) Oedd y rhai y dywedwyd wrthynt fod dyletswydd digartrefedd yr awdurdod lleol iddynt wedi dod i ben yn cael gwybod bod modd iddynt hefyd ofyn am adolygiad o'r penderfyniad hwnnw.

c) Bod y rhesymau dros wyrdroi penderfyniadau asesu wedi eu deall a ph’un ai a oedd unrhyw wersi'n cael eu dysgu a'u rhannu.

d) Oedd y rhai y dywedwyd wrthynt nad oedd eu hadolygiadau'n llwyddiannus yn cael gwybod am y rhwymedïau a oedd ar gael iddynt.

e) Gallai'r camau a gymerwyd yn ystod pandemig COVID-19 i asesu, mynd i'r afael ag anghenion pobl ddigartref a'u hadolygu, ddarparu cyfleoedd ar gyfer gwelliannau tymor hir neu ehangach.

Canolbwyntiodd yr ymchwiliad ar 3 awdurdod lleol: Cyngor Caerdydd, Cyngor Sir Gâr a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Ystyriodd dystiolaeth a ddarparwyd gan yr 'Awdurdodau yr Ymchwiliwyd iddynt' (tystiolaeth mewn dogfennau a gan swyddogion), Llywodraeth Cymru a mudiadau'r trydydd sector.

### Canfyddiadau

Nododd adolygiad o achosion digartrefedd gan bob un o'r Awdurdodau yr Ymchwiliwyd iddynt rai pryderon, gan gynnwys:

- Ni chafodd dyletswyddau Deddf Hawliau Dynol a Chydraddoldeb 2010 eu hystyried yn benodol mewn asesiadau ac adolygiadau.
- Oedi drwy gydol y Broses Asesu ac Adolygu.
- Materion sylweddol yn cael eu methu yn ystod y broses asesu.
- Cyfathrebu aneglur ac annigonol nad oedd cleientiaid bob amser yn ei ddeall.
- Methiant i ystyried addasrwydd llety yn briodol.
- Methiant i roi cymorth i gleientiaid sy'n agored i niwed a'r rhai ag anghenion cymhleth.

Nododd yr ymchwiliad hefyd enghreifftiau o arfer da, gan gynnwys:

- Hyfforddiant 'Amgylchedd sy'n ystyriol o Gyflwr Seicolegol'[1] a 'sy'n ystyriol o drawma[2] ar gyfer swyddogion digartrefedd.

---

[1] Dylai 'amgylchedd sy'n ystyriol o gyflwr seicolegol' wella'r gwaith o ddatblygu, darparu a gwerthuso gwasanaeth drwy ystyried anghenion seicolegol ac emosiynol y cleient. Bydd hyn yn gwella profiad y cleient yn y pen draw ac yn fodd iddynt deimlo eu bod mewn amgylchedd diogel.

[2] Mae proses 'sy'n ystyriol o drawma' yn cydnabod arwyddion a symptomau trawma mewn cleientiaid. Mae'n cydnabod ac yn deall effaith eang trawma a bod llawer o ymddygiadau a symptomau yn deillio o addasu i brofiadau trawmatig.

- Cymryd rhan yn y prosiect 'Daliwch Sylw'[3] a roddodd adborth ar lythyrau templed digartrefedd.
- Paratoi taflen ffeithiau am y broses asesu a'i dyletswyddau.
- Defnyddio llythyrau 'hawl i apelio' i roi syniad o ba benderfyniad sy'n debygol o gael ei wneud, gan roi amser i gleientiaid ddarparu gwybodaeth ychwanegol neu ofyn am gyngor cyfreithiol pellach cyn i'r penderfyniad gael ei wneud.
- Gweithio mewn partneriaeth â gwasanaethau digartrefedd eraill i sicrhau ymyrraeth gynnar lle bynnag y bo'n bosibl a darparu cymorth a chyngor yn y fan a'r lle ar faterion sy'n ymwneud â thai, digartrefedd a dyled.
- Creu Gwasanaeth Cymorth Lles Meddwl, a luniwyd i gefnogi unigolion nad oedd eu hanghenion yn ddigon sylweddol i fod yn gymwys i gael gofal/cymorth yn dilyn asesiad o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, ond sydd â phroblemau lles meddyliol y mae angen eu datrys.

### Casgliadau

Canfu'r ymchwiliad fod pob un o'r Awdurdodau yr Ymchwiliwyd iddynt yn cael trafferth casglu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani.  Roedd ansawdd y cofnodion a ddarparwyd yn amrywio.  Roedd yn destun pryder nad oedd gwybodaeth hanfodol ar gael yn hawdd i swyddogion ac, o bosibl, eiriolwyr a chleientiaid, yn enwedig o ystyried bod rhai ceisiadau ac adolygiadau digartrefedd yn sensitif o ran cyfnod amser.

Canfu'r ymchwiliad hefyd fod pob un o'r Awdurdodau yr Ymchwiliwyd iddynt wedi defnyddio dull gwahanol o ymdrin â'r Broses Adolygu Digartrefedd. Mae hyn wedi fy ysgogi i ystyried a fyddai rôl Rheoleiddiwr Tai yng Nghymru yn ychwanegu gwerth at y prosesau digartrefedd, drwy weithredu i gefnogi awdurdodau lleol, gan ddarparu canllawiau i sicrhau cysondeb ac i fynd i'r afael â phryderon.

[3] Prosiect cynnwys defnyddwyr gwasanaethau ledled Cymru a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

Daeth yr ymchwiliad i'r casgliad bod yr Awdurdodau yr Ymchwiliwyd iddynt, yn gyffredinol, wedi cyflawni eu dyletswyddau statudol o dan Ddeddf Tai (Cymru) a'r canllawiau cysylltiedig, er mwyn sicrhau bod asesiadau digartrefedd yn cael eu cynnal yn briodol. Er bod y rhai oedd â hawl i herio canlyniad asesiad, neu'r penderfyniad bod dyletswydd awdurdod lleol wedi dod i ben, yn cael gwybod drwy lythyr a thrwy daflenni ffeithiau, canfu'r ymchwiliad nad oedd yn amlwg eu bod bob amser yn ymwybodol o'u hawl i ofyn am adolygiad, na'u bod yn deall hynny.

Gellid gwneud gwelliannau wrth weinyddu adolygiadau y gofynnwyd amdanynt o dan adran 85 o Ddeddf Tai (Cymru), o ran annibyniaeth yr adolygiad a phrydlondeb adolygiadau. Yn fy marn i, y prif resymau dros wyrdroi penderfyniadau asesu wrth adolygu yw:

- Methiant i gynnal ymholiadau ychwanegol.
- Methiant i ystyried gwybodaeth berthnasol.
- Methiant i ystyried yn ddigonol addasrwydd llety.

Byddai mynd i'r afael â'r pwyntiau hyn yn lleihau nifer y penderfyniadau gwael a wnaed ac yn lleihau nifer yr adolygiadau ac, yn benodol, nifer y penderfyniadau a wyrdrowyd yn y broses adolygu.

Er bod cleientiaid yn cael gwybod am y rhwymedïau ychwanegol sydd ar gael iddynt, mae'r ymchwiliad wedi dangos fod y cam ychwanegol yn y broses yn anhygyrch ac yn aneffeithiol, sy'n golygu nad oes llawer o werth iddo i'r rhai yr effeithir arnynt.

Yr hyn sydd wedi dod i'r amlwg yn ystod fy ymchwiliad yw bod y gwaith a wnaed gan y Timau Digartrefedd yng Nghymru yn ystod pandemig COVID-19 wedi bod yn rhagorol. Maent wedi gweithio'n ddiflino i sicrhau bod y bobl hynny sy'n ddigartref wedi cael llety fel y gallant gadw eu hunain yn ddiogel. Gwnaed newidiadau sylweddol i brosesau pan ddaeth cyfweliadau wyneb yn wyneb i ben, anfonwyd pobl i weithio gartref gan ddibynnu mwy ar dechnoleg. Mae'n amlwg bod llawer o'r rhwystrau a wynebwyd gan yr Awdurdodau yr Ymchwiliwyd iddynt ar ddechrau'r pandemig wedi'u datrys yn gyflym, oherwydd hyblygrwydd a gwydnwch eu swyddogion, fel bod gwasanaethau'n parhau - ddisgrifiwyd hyn yn aml fel "normal newydd".

### Argymhellion

O ganlyniad i'r ymchwiliad, mae'r Awdurdodau yr Ymchwiliwyd iddynt wedi cytuno i nifer o fesurau, gan gynnwys:

- Creu fersiynau Hawdd eu Darllen[4] o daflenni ffeithiau digartrefedd a gohebiaeth safonol i'r rhai sy'n ddigartref, ar gyfer cleientiaid ag anawsterau dysgu neu nad yw'r Gymraeg na'r Saesneg yn famiaith iddynt.

- Adolygu'r defnydd o ddulliau cyfathrebu eraill, megis 'WhatsApp' a negeseuon testun, i gyfleu penderfyniadau y gellid eu dilyn wedyn gyda llythyr.

- Gweithredu dull Amgylchedd sy'n Ystyriol o Gyflwr Seicolegol o safbwynt gohebiaeth.

- Atgoffa swyddogion o'u dyletswydd i wirio ac ymchwilio'n briodol i wybodaeth a dderbynnir, drwy ofyn am wybodaeth gan drydydd partïon ac ystyried yr holl wybodaeth berthnasol.
- Sicrhau bod cynllun i ddarparu hyfforddiant rheolaidd ar gydraddoldeb a hawliau dynol i bob un sy'n gwneud penderfyniadau ac i swyddogion adolygu.

- Cynnwys y swyddogion adolygu wrth ddatblygu hyfforddiant digartrefedd yn y dyfodol.

O ystyried y potensial ar gyfer dysgu ehangach, rwy'n gwahodd y 19 awdurdod lleol arall yng Nghymru i:

- Wneud trefniadau ar lefel Cymru gyfan i drafod a gwella cysondeb y Broses Adolygu.

- Creu perthynas waith gydag asiantaethau partner/rhanddeiliaid, megis 'Daliwch Sylw', i helpu i wella gwasanaethau.

[4]Mae 'Hawdd ei Ddarllen' yn cyfeirio at gyflwyno testun mewn fformat hygyrch, hawdd ei ddeall. Mae'n aml yn ddefnyddiol helpu pobl ag anableddau dysgu a gall hefyd fod o fudd i bobl â chyflyrau eraill sy'n effeithio ar sut y maent yn prosesu gwybodaeth.

- Llunio fframwaith, ar y cyd â grwpiau eiriolaeth, a fydd yn grymuso swyddogion i wneud penderfyniadau/gweithredu, yn enwedig mewn perthynas â hawliau dynol a chydraddoldeb a lleihau adolygiadau diangen, heb effeithio ar hawl statudol y cleient i adolygu’r penderfyniad.

- Ystyried yr argymhellion a wnaed i'r 3 Awdurdod yr Ymchwiliwyd iddynt ac i fwrw ymlaen ag unrhyw bwyntiau dysgu a fyddai'n gwella eu darpariaeth gwasanaeth.

Rwyf hefyd yn gwahodd Llywodraeth Cymru i:

- Adolygu Deddf Tai (Cymru) a'r Cod Canllawiau cysylltiedig i sicrhau dull mwy cyson o ymdrin â digartrefedd – yn enwedig ar ôl COVID-19.

- Adolygu'r Cod Canllawiau i sicrhau ei bod yn amlwg bod yn rhaid ystyried hawliau dynol a chydraddoldeb wrth asesu ceisiadau digartrefedd, adolygu penderfyniadau ac wrth ddyrannu tai.

- Safoni dogfennau adolygu ledled Cymru.

- Adolygu effeithiolrwydd y broses apelio ar ôl adolygu, o ystyried yr anawsterau y mae cleientiaid yn eu cael i gael Cymorth Cyfreithiol.
- Gwella a safoni'r gwasanaeth digartrefedd ledled Cymru drwy ystyried creu rôl Rheoleiddiwr Tai/Digartrefedd i gefnogi a darparu gwybodaeth ac arweiniad i awdurdodau lleol.

## Nodi

Nid yw'r gwahoddiadau a wnaed i'r 19 awdurdod lleol arall a Llywodraeth Cymru yn argymhellion ffurfiol a wnaed yn unol â'r Ddeddf gan nad oeddwn yn ymchwilio'n ffurfiol i'r cyrff hynny. Maent wedi eu cynnwys i helpu i ysgogi a gwella’r gwasanaethau cyhoeddus a ddarperir ledled Cymru. Dyma oedd diben a bwriad y Senedd pan basiwyd y pwerau newydd i ymchwilio ar fy liwt fy hun a hyderaf y bydd pob awdurdod lleol yn manteisio ar y cyfle i ddysgu o'r ymchwiliad hwn. Byddaf yn cysylltu â'r awdurdodau lleol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Llywodraeth Cymru ynglŷn â’r gwelliannau a wnaed yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad hwn.

## Diolch

Rwy’n ddiolchgar am gydweithrediad pawb sy'n gysylltiedig â'r ymchwiliad hwn.  Rwy’n hyderus y bydd rhannu'r pwyntiau dysgu a nodwyd yn gwella gwasanaethau digartrefedd ledled Cymru.



Nick Bennett
Ombwdsmon

## Rhagair

Roedd Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 (“y Ddeddf”) yn rhoi pwerau i mi gynnal ymchwiliadau[5] ‘ar ei liwt ei hun’ lle mae tystiolaeth yn awgrymu y gallai methiant neu gamweinyddu systemig ddigwydd mewn gwasanaeth.  Mae’r adroddiad hwn yn amlinellu fy ymchwiliad cyntaf o’r fath.

Er mai blaenoriaeth gyntaf rhywun sy’n ddigartref, wrth gwrs, fydd dod o hyd i rywle i gysgu neu aros, yn hytrach na llywio drwy’r broses gwyno, efallai nad yw’n syndod a’i fod yn achosi pryder mai ychydig iawn o gwynion am ddigartrefedd sy’n cael eu derbyn gan OGCC.

Roedd yr ymchwiliad hwn yn ystyried y defnydd o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 (“HWA”) gan awdurdodau lleol yng Nghymru; yn benodol, i archwilio a oedd awdurdodau lleol yn gweinyddu’r Broses Adolygu Digartrefedd[6] yn briodol, yn deg ac yn agored, ac a oeddent yn gwneud pobl yn ymwybodol o’u hawl i gael adolygiad o’r penderfyniadau a wnaed.  Roedd yr ymchwiliad hefyd yn edrych ar sut roedd unrhyw wersi a ddysgwyd o’r adolygiadau hyn yn cael eu rhannu a, lle roedd hynny’n briodol, sut roeddent wedi’u gwreiddio yn y broses asesu.

Mae digartrefedd yn effeithio ar bob aelod o gymdeithas, o’r unigolyn sydd wedi colli ei gartref i’r rhai sydd â busnesau, neu sy’n gweithio neu’n byw mewn ardaloedd lle mae digartrefedd yn amlwg.  Ceir effaith ehangach hefyd ar argraffiadau pobl o ddiogelwch y cyhoedd, oherwydd dywedir bod digartrefedd yn effeithio ar dwristiaeth, gan olygu bod ein trefi a’n dinasoedd yng Nghymru yn llai deniadol i ymwelwyr.

Ond, mae’r effaith fwyaf ar y bobl sy’n wynebu digartrefedd eu hunain.  Mae llawer o bobl ddigartref yn agored i niwed oherwydd eu hoed, eu hil, eu rhywioldeb neu eu trafferthion iechyd corfforol neu feddyliol.  Gallai digartrefedd waethygu’r gwendidau hyn gan y gall gyfyngu ar eu gallu i gael gafael ar y gefnogaeth a’r cymorth sydd eu hangen arnynt.

Mae heriau digartrefedd cynyddol wedi’u cydnabod yn helaeth gan gyrff yng Nghymru, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, a luniodd y Grŵp Gweithredu Gweinidogion, a sefydliadau trydydd sector, llawer ohonynt wedi cynhyrchu adroddiadau ar y mater.

[5]Adran 4 y Ddeddf
[6]Adran 85 HWA

Er gwaethaf cyflwyno deddfwriaeth newydd, mae Ystadegau Llywodraeth Cymru yn dangos fel y mae nifer yr aelwydydd a helpwyd gan Awdurdodau Lleol gyda materion digartrefedd yng Nghymru am y cyfnod 2018-2019, wedi cynyddu 7% o'r flwyddyn flaenorol i dros 31,000. O'r rhain, roedd dros 2,600 yn cael eu hystyried yn ddigartref ac mewn angen blaenoriaethol[7]; mae hynny'n gynnydd o 15% ers y flwyddyn flaenorol. Er bod cyfanswm yr aelwydydd a gafodd gymorth gan Awdurdodau Lleol gyda materion Digartrefedd yng Nghymru wedi aros yn gyson yn 2019-20, roedd y rheini a oedd yn cael eu hystyried yn ddigartref ac mewn angen blaenoriaethol wedi cynyddu eto i 3060, cynnydd pellach o 15% o ddata 2018-2019. Mae hyn yn dangos cynnydd cyson yn y galw am lety i'r rhai sy'n cael eu hystyried yn ddigartref ac mewn angen blaenoriaethol.

Mae gan awdurdodau lleol rôl allweddol o ran atal digartrefedd yn ogystal â chefnogi pobl sydd wedi canfod eu hunain yn ddigartref. Yn 2020, newidiodd COVID-19 y byd a thynnodd sylw at nifer yr achosion o ddigartrefedd a pha mor agored i niwed yw pobl ddigartref yn ein cymunedau.

Mewn ymateb i'r pandemig, roedd yn rhaid i awdurdodau lleol wneud newidiadau sylweddol ac effeithiol i fodloni'r gofynion a roddwyd arnynt i sicrhau bod gan bawb sicrwydd bod ganddynt drws ffrynt a mynediad at gyfleusterau glanweithdra preifat. Mae'r gwaith a wnaed gan Dimau Digartrefedd yng Nghymru yn ystod y pandemig wedi bod yn glodwiw. Maent wedi gweithio'n ddiflino i sicrhau bod y bobl hynny a gyflwynodd eu hunain yn ddigartref wedi cael llety er mwyn iddynt allu cadw eu hunain yn ddiogel.

Mae'n bwysig, cyn ac yn ystod y pandemig, bod y rheini a aseswyd nad ydynt yn ddigartref neu nad ydynt â hawl i gael cymorth yn ymwybodol o'r hawl i ofyn am adolygiad o'r penderfyniad asesu. Mae hefyd yn bwysig sicrhau, pan gaiff penderfyniadau eu gwrthdroi adeg adolygu, bod gwersi'n cael eu dysgu a'u rhannu ar draws yr awdurdod er mwyn gwella gwasanaethau.

[7]Mae Adran 70 HWA yn datgan y tybir bod gan y bobl ganlynol 'angen blaenoriaethol' – menywod beichiog, pobl sy'n gyfrifol am blant dibynnol, pobl sy'n cael eu gwneud yn ddigartref oherwydd tân, llifogydd neu drychineb arall, pobl ifanc 16 neu 17 oed, pobl 18-20 oed sydd mewn perygl penodol, dioddefwyr cam-drin domestig, gweithwyr y lluoedd arfog, y rhai sy'n agored i niwed o ganlyniad i amser yn y carchar, pobl 18 oed a 20 oed sydd wedi treulio amser mewn gofal a'r rhai sy'n agored i niwed o ganlyniad i ryw reswm arbennig e.e. henaint/anabledd corfforol.

Rwy'n cydnabod bod ymateb i'r pandemig wedi bod yn heriol i'r Awdurdodau Ymchwiliol; mae eu hymateb clodwiw wedi ein galluogi i adnabod cyfleoedd ar gyfer gwelliannau yn y tymor hirach ac yn ehangach. Mae'n hanfodol bod yr arferion da a nodwyd yn ymateb yr Awdurdodau Ymchwiliol i'r pandemig yn cael eu cynnal a'u rhannu er mwyn gwella'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu i bobl ddigartref – nawr ac yn y dyfodol ar ôl y pandemig.

Er fy mod wedi nodi meysydd i'w gwella yn ystod fy ymchwiliad, hoffwn hefyd gydnabod yr arferion da a nodwyd.  Rhaid i'r arferion da hyn gael eu rhannu a'u hystyried gan bob awdurdod lleol yng Nghymru i gefnogi ymrwymiad ar y cyd i ddysgu a gwella.

## Cyflwyniad a fy awdurdodaeth

1. Mae adran 4 Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 ("y Ddeddf") yn rhoi'r pŵer i mi gynnal ymchwiliad i fater o fewn fy awdurdodaeth pa un a yw cwyn wedi cael ei gwneud yn briodol i mi ai peidio. Cyhoeddir yr adroddiad ymchwiliad hwn ar weinyddu'r Broses Adolygu Digartrefedd dan adran 23 y Ddeddf.

2. Cyn dechrau ymchwiliad o'r fath, rhaid i mi ystyried a yw'r mater yn rhywbeth y gellir ymchwilio iddo, neu a oes ateb cyfreithiol arall priodol. Ni allaf ymchwilio i gŵyn os oes gan y person a dramgwyddwyd yr hawl i apelio i dribiwnlys statudol, i Lywodraeth Cymru neu i lys barn, neu os oes rhwymedi drwy achos mewn llys barn, oni bai fy mod yn fodlon na ellid disgwyl yn rhesymol i'r achwynydd wneud hynny. Yng ngoleuni'r bregusrwydd a'r caledi ariannol a brofir gan y rhai sy'n ddigartref, yn ogystal â'r anawsterau o ran cael gafael ar gymorth cyfreithiol ar gyfer hawliadau sifil ers rhoi Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012, ar waith, fy marn i yw nad yw camau cyfreithiol yn gam rhesymol i bobl ddigartref.

3. Rhaid i mi sicrhau bod y sawl sy'n destun ymchwiliad ar ei liwt ei hun yn bodloni meini prawf penodol.[8] Ar ôl cynnal asesiad rhagarweiniol, fy marn i oedd bod ymchwiliad i weinyddu'r Broses Adolygu digartrefedd yn bodloni'r meini prawf ar gyfer ymchwilio am y rhesymau canlynol:

**Lles y Cyhoedd**

4. At ddibenion fy ymchwiliad, diffinnir lles y cyhoedd fel rhywbeth sy'n effeithio ar y cyhoedd, yn hytrach na mater sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd. Gall y cyhoedd, yn y cyd-destun hwn, gyfeirio at adran benodol o'r cyhoedd neu boblogaeth Cymru gyfan.

5. Mae digartrefedd yn gallu effeithio ar grŵp eang o unigolion ledled Cymru ac mae ganddo'r potensial i effeithio ar gymunedau a gwasanaethau cyhoeddus ehangach. Mae'r pandemig wedi ein hatgoffa bod digartrefedd yn ymestyn y tu hwnt i'r rheini sy'n cysgu ar y stryd; mae hefyd yn cynnwys y rheini sy'n aros gyda ffrindiau a pherthnasau ar sail ad hoc ("syrffio soffas") neu mewn llety annigonol neu beryglus.

[8] Adran 5 Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019

6. Mae nifer y bobl ddigartref yng Nghymru wedi bod yn cynyddu ac mae effaith blynyddoedd o gyni, a'r argyfwng iechyd byd-eang diweddar, yn golygu bod llawer o bobl yng Nghymru mewn perygl o golli eu cartrefi. Felly, mae'n rhesymol dod i'r casgliad bod y pwnc hwn yn bellgyrhaeddol ac yn effeithio ar lawer o bobl.

**Amheuaeth resymol o gamweinyddu systemig**

7. Roedd tystiolaeth ragarweiniol yn dangos bod cyfran uchel o benderfyniadau asesu digartrefedd yn cael eu gwrthdroi ar adolygiad mewn rhai awdurdodau lleol o un flwyddyn i'r llall (gweler Atodiad 1). I mi, awgrymodd hyn y posibilrwydd o gamweinyddu systemig yn y broses a/neu fethiant i adnabod a dysgu gwersi.

8. Hefyd, roedd amrywiant y canlyniadau yn y data digartrefedd a gasglwyd gan rai awdurdodau lleol yn dangos nad oedd cyfleoedd i wella gwasanaethau'n cael eu nodi na'u gweithredu.

9. At hynny, awgrymodd y lefel isel o adolygiadau mewn rhai awdurdodau lleol y gallai'r ffaith bod yr awdurdodau lleol hyn yn hyrwyddo'r hawl i gael adolygiad fod yn annigonol a/neu fod ymwybyddiaeth cleientiaid o'u hawliau yn isel.

**Mae'r mater yn effeithio ar grŵp eang o ddinasyddion, i'r fath raddau ei bod yn ymddangos eu bod yn debygol o ddioddef anghyfiawnder neu galedi o ganlyniad i'r mater sy'n cael ei ystyried ar gyfer ymchwiliad**

10. Yn 2018/2019, cafodd dros 31,000 o aelwydydd yng Nghymru[9] eu hasesu fel rhai digartref, a chafodd llawer mwy gymorth gyda materion digartrefedd. Mae'r ffigur hwn wedi parhau i godi. Mae absenoldeb cwynion i fy swyddfa am y mater hwn yn awgrymu ei bod yn bosibl bod yr unigolion yr effeithir arnynt ddim yn ymwybodol, ddim yn deall, neu ddim yn gallu arfer eu hawl i esgoli eu cwyn i mi.

---

[9] Ystadegau Llywodraeth Cymru

**Y dystiolaeth**

11. Ystyriais dystiolaeth o nifer o ffynonellau, [10]gan gynnwys:

- Polisi, canllawiau statudol a deddfwriaeth Llywodraeth Cymru
- Strategaethau, cynlluniau gweithredu a pholisïau digartrefedd pob Awdurdod Lleol yng Nghymru
- Dogfennau ymchwil a chanllawiau perthnasol eraill gan Archwilio Cymru a sefydliadau'r trydydd sector
- Gwybodaeth a gyhoeddir gan StatsCymru a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol
- Adroddiadau'r Cyfryngau

12. Roedd tystiolaeth a gafwyd o'r ffynonellau hyn yn awgrymu anghysondeb o ran ymarfer yn y Broses Adolygu.

**Pa mor argyhoeddiadol yw'r dystiolaeth**

13. Roedd yr wybodaeth a ystyriwyd, yn fy marn i, yn gredadwy, yn ddibynadwy ac yn awgrymu bod camweinyddu systemig o ran sut mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn gweinyddu'r Broses Adolygu digartrefedd.

**Pandemig COVID-19**

14. Mae sylw helaeth wedi cael ei roi i'r camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol mewn ymateb i'r pandemig, sy'n golygu ei bod yn berthnasol i mi ystyried sut gellid defnyddio'r camau gweithredu a'r hyn a ddysgwyd o arferion gweinyddol da yn ystod y pandemig i sbarduno newid neu ddysgu ehangach.

[10]Atodiad 2

## Ymgynghori

15. Cyn dechrau fy ymchwiliad, cynhaliais ymarfer ymgynghori[11] i geisio sylwadau, gan sefydliadau yr ystyrir bod ganddynt fuddiant yn y mater, ynghylch y diben, y pwnc a'r dull yr oeddwn yn bwriadu ymchwilio iddo. Roedd yr ymateb i'r ymgynghoriad yn gadarnhaol ar y cyfan. Fodd bynnag, mynegwyd pryderon ynghylch amseriad yr ymchwiliad o ystyried yr argyfwng iechyd cyhoeddus parhaus[12]. Wrth ymateb, rhoddais sicrwydd i'r ymgyngoreion fy mod yn ymwybodol o'r heriau a wynebir gan lawer sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus, gan gynnwys y rheini sy'n gweithio i fynd i'r afael â digartrefedd. Eglurais, fodd bynnag, fy mod yn ymwybodol o'm dyletswydd i gyfrannu at wella gwasanaethau cyhoeddus, yn enwedig mewn cyfnodau o'r fath, ac fy mod yn gobeithio nodi, nid yn unig y gwersi i'w dysgu, ond hefyd yr arferion da i'w rhannu ledled Cymru, gan adeiladu ar y llwyddiannau a gyflawnwyd gan Dimau Digartrefedd ledled Cymru yn ystod y cyfnod anodd hwn. Rwyf hefyd wedi sicrhau'r ymgyngoreion y byddai fy Swyddogion Ymchwilio yn ymwybodol o'r pwysau amser ac adnoddau yr oedd swyddogion awdurdodau lleol yn eu hwynebu o ganlyniad i'r pandemig ac y byddai pob ymholiad yn gymesur ac yn rhesymol.

## Cwmpas yr ymchwiliad

16. Ar 20 Tachwedd 2020, cyhoeddais fy nghynllun ymchwilio. Gwahoddais sylwadau gan gyrff perthnasol ac ymgyngoreion. Ni chefais unrhyw ymatebion.

17. Roedd y ddogfen cynllun yn amlinellu cwmpas yr ymchwiliad:

a) A yw Awdurdodau Lleol yng Nghymru yn cyflawni eu dyletswyddau statudol o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ("HWA") a'r canllawiau cysylltiedig i sicrhau bod asesiadau digartrefedd yn cael eu cyflawni'n briodol?

b) A yw'r rheini sydd â hawl i geisio herio canlyniad asesiad, neu'r penderfyniad bod dyletswydd Awdurdod Lleol wedi dod i ben, yn deall ac yn ymwybodol o'u hawl i ofyn am adolygiad dan adran 85 HWA?

[11] 23 Medi 2020
[12] Ymatebodd Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad yn hyn o beth, gan adlewyrchu sylwadau gan rai awdurdodau lleol, gan gynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

c) A yw adolygiadau a gynhelir yn unol ag adran 85 HWA yn cael eu gweinyddu'n briodol?

d) Beth yw'r rhesymau dros wrthdroi penderfyniadau asesu ac a yw gwersi'n cael eu dysgu a'u rhannu?

e) Mewn achosion lle nad yw'r penderfyniadau wedi cael eu gwrthdroi, a yw'r rheini yr effeithiwyd arnynt yn ymwybodol o'r atebion eraill sydd ar gael iddynt?

f) Yr amrywiaeth o gamau gweithredu a dulliau gweinyddol a gyflawnwyd gan Awdurdodau Lleol yn ystod y pandemig COVID-19 i asesu, adolygu a mynd i'r afael ag anghenion pobl ddigartref, neu'r rheini sy'n datgan eu bod yn ddigartref, er mwyn nodi cyfleoedd i wneud gwelliannau ehangach neu dymor hwy.

18. At ddibenion yr ymchwiliad hwn, mae'r term 'digartref' yn cynnwys pob math o ddigartrefedd, gan gynnwys digartrefedd ar y stryd, y rhai sy'n cael eu hystyried yn 'ddigartref yn eu cartref' (lle mae'r llety'n anaddas i'r person) a'r rhai sydd dan fygythiad o ddigartrefedd. Cyfeirir at y bobl sy'n cysylltu ag awdurdodau lleol i gael cymorth a chefnogaeth gyda gwasanaethau digartrefedd fel 'cleientiaid'.

19. Er bod digartrefedd yn fater sy'n effeithio ar bob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru, o ystyried yr argyfwng iechyd presennol a'i effaith ar adnoddau, ni fyddai wedi bod yn ymarferol ymchwilio i bob un o'r 22 ar hyn o bryd. Oherwydd hyn, penderfynais ganolbwyntio fy ymchwiliad ar 3 awdurdod lleol. Y 3 awdurdod a gynhwyswyd yn yr ymchwiliad oedd Cyngor Caerdydd, Cyngor Sir Gâr a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ("yr Awdurdodau Ymchwilio"). Amlinellir y rhesymau dros ymchwilio i'r 3 awdurdod lleol hyn yn Atodiad 2.

## Deddfwriaeth, canllawiau a pholisïau perthnasol

20. Mae manylion y ddeddfwriaeth, y canllawiau a'r polisi perthnasol y cyfeiriais atynt yn ystod fy ymchwiliad ar gael yn Atodiad 3.

## Yr ymchwiliad

21. Cefais sylwadau a chopïau o ddogfennau perthnasol gan yr Awdurdodau Ymchwiliol gan gynnwys sampl o gofnodion achos. Darperir y fethodoleg ar gyfer samplo cofnodion yr achos yn Atodiad 4. Ystyriais y dogfennau a gafwyd gan yr Awdurdodau Ymchwiliol ar y cyd â thystiolaeth o ffynonellau eraill. Nid wyf wedi cynnwys pob manylyn yr ymchwiliwyd iddo yn yr adroddiad hwn, ond rwyf yn fodlon na chafodd unrhyw beth arwyddocaol ei esgeuluso.

22. Nid swyddogaeth yr Ombwdsmon yw gwneud canfyddiadau pendant ynghylch a dorrwyd hawliau dynol person neu a wahaniaethwyd, erlidiwyd neu a aflonyddwyd ar rywun o ganlyniad i nodwedd warchodedig. Fodd bynnag, byddaf yn rhoi sylwadau, lle y bo'n briodol, ar farn corff cyhoeddus am y dyletswyddau cyfreithiol a'r hawliau a'r amddiffyniad y mae'r ddeddfwriaeth yn eu rhoi i unigolion. Yn ystod yr ymchwiliad, ystyriais Ddeddf Hawliau Dynol 1998. Gelwir yr hawliau yr wyf yn cyfeirio atynt yn 'hawliau Confensiwn', gan fod y Ddeddf yn rhoi'r hawliau dynol a nodir yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ar waith. O'r 18 hawl sydd wedi'u hymgorffori yng nghyfraith y DU, ystyriais yr hawliau canlynol sy'n berthnasol i'r prosesau tai, digartrefedd ac asesu ac Adolygu:

- Erthygl 3 – Yr hawl i beidio â chael eich trin mewn ffordd annynol neu ddiraddiol.
- Erthygl 6 – Yr hawl i wrandawiad teg.
- Erthygl 8 - Yr hawl i barchu bywyd preifat a theuluol, cartref a gohebiaeth.
- Erthygl 14 – Gwahardd camwahaniaethu wrth ddiogelu pob hawl arall a roddir gan y Ddeddf Hawliau Dynol.

23. Mae Adran 6 y Ddeddf Hawliau Dynol yn ei gwneud yn anghyfreithlon i gorff cyhoeddus weithredu mewn ffordd sy'n anghydnaws ag un o hawliau'r Confensiwn.

24. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ystyried sut mae eu penderfyniadau a'u polisïau yn effeithio ar bobl â nodweddion

gwarchodedig[13] (Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus). Mae digon o dystiolaeth o gysylltiadau rhwng digartrefedd ac oed, rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth drawsryweddol, a salwch corfforol neu feddyliol, sydd i gyd yn nodweddion gwarchodedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb. Gall pobl â'r nodweddion hyn ddioddef pan fyddant yn ddigartref, gan y gall digartrefedd gyfyngu ar eu gallu i gael gafael ar ac i ymgysylltu â'r gefnogaeth a'r cymorth sydd eu hangen arnynt. Mae tystiolaeth gynyddol hefyd yn cysylltu canlyniadau iechyd COVID-19 ac ethnigrwydd, sy'n rhoi pobl ddigartref o gefndiroedd Du, Asiaidd neu Leiafrifoedd Ethnig mewn perygl os nad ydynt yn cael tai digonol. Yn yr un modd, rhaid rhoi ystyriaeth hefyd i sicrhau mynediad cyfartal at wasanaethau yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac i gefnogaeth briodol i'r rheini sy'n dymuno cael mynediad at wasanaethau mewn ieithoedd eraill.

25. Mae pwnc yr ymchwiliad hefyd yn berthnasol i'r rhai sydd dan anfantais oherwydd eu statws economaidd-gymdeithasol. Digartrefedd yw un o'r prif anfanteision y gall pobl eu dioddef oherwydd anghydraddoldeb mewn ffactorau economaidd-gymdeithasol, fel amddifadedd materol, mynediad at dai digonol a mynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

## Deddfwriaeth Tai perthnasol a chanllawiau

26. Roedd Deddf Tai (Cymru) 2014 (HWA) yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol yng Nghymru i asesu unrhyw berson sy'n ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref.[14] Pwrpas yr asesiad yw penderfynu a yw'r cleient yn gymwys i gael cymorth.

27. Mae HWA yn gofyn i'r asesiad ystyried y canlynol:

- Yr amgylchiadau sydd wedi achosi i'r cleient fod yn ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd.
- Anghenion tai'r cleient ac unrhyw berson y mae'r cleient yn byw gydag ef neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddo fyw gydag ef/hi.

---

[13] Mae yna 9 nodwedd warchodedig: oedran; anabledd; ailbennu rhywedd; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.
[14] Rhan 62 Deddf Tai (Cymru) 2014

- Y gefnogaeth sydd ei hangen ar y cleient ac unrhyw berson y mae'r cleient yn byw gydag ef neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddo fyw gydag ef i gadw llety sydd ar gael neu a allai ddod ar gael.
- A oes gan yr awdurdod unrhyw ddyletswydd tuag at y cleient ai peidio.
- Y canlyniadau y mae'r cleient yn dymuno eu cyflawni, a sut y gellir cyflawni'r canlyniadau hynny.

28. Yn ogystal â'r uchod, dylid hefyd ystyried a oes gan y cleient angen blaenoriaethol am lety.[15]

29. Ymhellach, mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i ystyried y Ddeddf Hawliau Dynol a'r Ddeddf Cydraddoldeb yn ystod asesiadau ac wrth wneud penderfyniadau adolygu (gweler Atodiad 3).

30. Rhaid i'r awdurdod lleol hysbysu'r cleient o ganlyniad yr asesiad. Os yw'r penderfyniad yn anffafriol i'r cleient, mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd i egluro'r rhesymau dros y penderfyniad a rhoi gwybod i'r cleient am yr hawl i ofyn am adolygiad o'r penderfyniad.[16]

31. Gall cleientiaid ofyn am adolygiad o unrhyw benderfyniad a wneir o dan adrannau canlynol HWA:

- Adran 62 – Yr asesiad i bennu cymhwystra.
- Adran 66 – Dyletswydd i helpu i atal digartrefedd.
- Adran 68 – Dyletswydd i ddarparu llety dros dro.
- Adran 73 – Dyletswydd i helpu i sicrhau llety addas.
- Adran 75 – Dyletswydd i ddarparu llety sefydlog.

Mae'r weithdrefn ar gyfer gwneud cais am adolygiad wedi'i nodi yn Rheoliadau Digartrefedd (Gweithdrefn Adolygu)(Cymru) 2015 (Atodiad 3).

32. Mewn ymateb i bandemig COVID-19, diwygiodd Llywodraeth Cymru ei chanllawiau digartrefedd i awdurdodau lleol a gohirio'r statws 'angen blaenoriaethol'. Dywedwyd wrth awdurdodau lleol, er mwyn sicrhau bod

[15]Adran 70 Deddf Tai (Cymru) 2014 – gweler troednodyn 3, uchod
[16]Rhan 85 Deddf Tai (Cymru) 2014

gan bawb fynediad at y glanweithdra angenrheidiol a'r amddiffyniad hollbwysig ar ffurf 'ddrws ffrynt' rhag y feirws, y dylid darparu llety dros dro i bob cleient, ni waeth a oedd dyletswydd yn bodoli a beth bynnag yw hanes blaenorol y cleient. Dywedodd awdurdodau lleol fod y newid wedi arwain at alw sylweddol am lety dros dro ac am wasanaethau digartrefedd o ran nifer y cyflwyniadau digartrefedd, cymhlethdod cynyddol yr achosion a mynediad at lety dros dro digonol.

## Tystiolaeth gan yr Awdurdodau Ymchwiliol

**Cyngor Caerdydd – Tystiolaeth ddogfennol**

33. Dywedodd y Cyngor bod swyddogion yn derbyn hyfforddiant o safon uchel i sicrhau bod ganddynt y sgiliau i ymgymryd ag asesiad digartrefedd trylwyr sy'n canolbwyntio ar y person er mwyn dod i benderfyniadau. Rhoddwyd hyfforddiant helaeth a chyfnod o gysgodi swydd i staff newydd cyn ymgymryd ag asesiadau digartrefedd. Nodwyd bod yr hyfforddiant digartrefedd wedi cael ei ddiwygio i gynnwys y newidiadau sy'n deillio o bandemig COVID-19.

34. Dywedodd y Cyngor bod unrhyw benderfyniadau a wnaed ynghylch cymhwysedd i gael cymorth, angen blaenoriaethol a'r ddyletswydd berthnasol sy'n ddyledus i gleient o dan HWA, yn cael eu gwneud yn ysgrifenedig a'u cyflwyno â llaw, eu cadw yn swyddfeydd y Cyngor i'w casglu, eu postio neu eu hanfon ar e-bost at y cleient. Roedd y llythyrau'n cynnwys hawliau adolygu'r cleient:

> *"Os nad ydych yn cytuno â phenderfyniad y Cyngor, mae gennych hawl i ofyn am adolygiad dan A85 Deddf Tai (Cymru) 2014. Os ydych chi'n dymuno gwneud cais am adolygiad, gallwch wneud hynny ar lafar neu'n ysgrifenedig i'r Rheolwr Proses Gyfreithiol Digartref o fewn 21 diwrnod i'r hysbysiad o'r penderfyniad hwn. Uwch swyddog yw hwn nad yw'n rhan o'r broses o wneud y penderfyniad. Bydd gofyn i chi roi rhesymau dros eich cais yn ysgrifenedig, gan nodi'n glir pam eich bod yn teimlo bod angen adolygiad. Ar ôl derbyn eich cais, bydd y Tîm Proses Gyfreithiol yn ysgrifennu atoch, i gydnabod eich cais am adolygiad ac i roi rhagor o gyngor ar y drefn adolygu."*

35. Dywedodd y Cyngor ei fod yn mynd ati yn weithredol i wella llythyrau penderfyniadau digartrefedd a'u hadolygu'n gyson er mwyn sicrhau eu bod yn gywir ac yn hawdd i gleientiaid eu deall. Yn ogystal, darparodd swyddogion i gleientiaid, yn enwedig y rheini a oedd ag anawsterau llythrennedd a'r rheini nad Cymraeg na Saesneg oedd eu hiaith gyntaf, esboniad llafar o'u hawliau adolygu a thaflen ffeithiau[17] a oedd yn amlinellu'r gwahanol ddyletswyddau cyfreithiol o dan HWA yn ogystal â'r hawl i gael adolygiad.

36. Dywedodd y Cyngor bod y daflen ffeithiau'n cael ei hystyried fel rhan o brosiect "Cymryd Sylw" Shelter[18], lle'r oedd defnyddwyr gwasanaeth yn rhoi adborth ac yn gwneud y sylwadau canlynol:

- *"mae'r [taflenni ffeithiau] hyn yn wych...byddwn yn sicr yn eu cadw ar gyfer cyfeirio yn y dyfodol a hefyd ar gyfer unrhyw un rwy'n gwybod a allai fod angen help yn y dyfodol".*
- *"Rwy'n meddwl bod y taflenni ffeithiau wedi'u gosod yn dda iawn, yn edrych yn well ac wedi'u hysgrifennu mewn iaith hawdd ei deall. Byddwn yn rhoi 10 allan o 10 i'r person a'u cynlluniodd".*
- *"Rwy'n meddwl pe bai'r taflenni ffeithiau hyn wedi'u hamgáu gyda'r llythyrau, byddai naws llawer mwy cadarnhaol, yn fwy cydnaws â bwriadau'r Ddeddf Tai, yn cael ei gyfleu".*
- *"mae naws [y daflen ffeithiau] yn gyfeillgar ac yn fwy cadarnhaol o ran cymorth na'r llythyrau ac maent yn cyfleu ymdeimlad o optimistiaeth".*

Cyn y pandemig, roedd copïau o'r taflenni gwybodaeth hefyd ar gael yn rhwydd yn y ganolfan Opsiynau Tai.

37. Dywedodd y Cyngor mai'r 3 prif reswm dros herio penderfyniadau digartrefedd ar gyfer 2020/21 oedd:

- Addasrwydd – teimlai'r cleient fod y llety a gynigiwyd yn anaddas.
- Nid oedd unrhyw ddyletswydd yn ddyledus o dan adran 68 HWA – credai'r cleient fod ganddynt angen blaenoriaethol a bod dyletswydd ar yr awdurdod lleol i'w gosod mewn llety dros dro.

[17]Gweler Atodiad 4
[18]Gweler paragraffau 165-174

- Nid oedd unrhyw ddyletswydd yn ddyledus o dan adrannau 62/66 o HWA – roedd y cleient yn anghytuno â'r penderfyniad nad oeddent yn ddigartref nac yn cael eu bygwth â digartrefedd.

38. Dywedodd y Cyngor y gellid gwneud ceisiadau am adolygiad mewn unrhyw fodd a bod y rhai a wnaed o fewn yr amserlen gyfreithiol yn cael eu cydnabod o fewn 5 diwrnod gwaith. Roedd y llythyr cydnabod[19] yn cynnwys gwahoddiad i'r cleient gyflwyno sylwadau pellach yn ysgrifenedig, neu mewn cyfarfod, o fewn y 14 diwrnod nesaf. Dywedwyd wrth y cleient hefyd y gallai gysylltu â thwrnai neu sefydliad trydydd parti i'w helpu gyda'r broses ac y gallai ofyn am estyniad pe bai angen mwy o amser i ymateb. Yn olaf, roedd y llythyrau'n nodi'r dyddiad erbyn pryd y dylai'r cleient ddisgwyl penderfyniad.

39. Dywedodd y Cyngor bod adolygiadau'n cael eu cwblhau yn unol ag Adran 85 HWA, a'r canllawiau cysylltiedig. Roedd hyn yn cynnwys ystyried ceisiadau adolygu 'y tu allan i amser' a cheisiadau am lety hyd nes y ceir canlyniad adolygiad.

40. Wrth gynnal adolygiad, ystyriodd y swyddog adolygu'r asesiad, gan ystyried a oedd y penderfynwr gwreiddiol wedi methu unrhyw beth, yn ogystal ag unrhyw dystiolaeth neu wybodaeth newydd a ddarparwyd gan y cleient. Wrth ailystyried yr achos, gallai'r swyddog adolygu gysylltu â'r cleientiaid, gweithwyr cymorth neu gynrychiolwyr eraill i gael gwybodaeth ychwanegol.

41. Dywedodd y Cyngor fod y swyddogion adolygu'n gwbl annibynnol ar y rhai sy'n gwneud y penderfyniadau ac nad ydynt wedi'u lleoli yn y Gwasanaeth Opsiynau Tai. Cafodd penderfyniadau adolygu eu gwneud yn ysgrifenedig o fewn 56 diwrnod. Fodd bynnag, pe bai'r broses yn cymryd mwy o amser, rhoddwyd gwybod i'r cleient.

42. Mae llythyrau penderfyniad yr adolygiad yn rhoi rheswm dros y penderfyniad, yn ogystal â hawl y cleientiaid i apelio yn erbyn y penderfyniad i'r Llys Sirol o fewn 21 diwrnod, ar bwynt cyfreithiol.

[19]Mae'r llythyr cydnabod adolygiad hefyd yn egluro faint o amser y bydd yn ei gymryd i gwblhau'r adolygiad, pwy fydd yn cwblhau'r adolygiad, beth fydd yn cael ei ystyried, yn gofyn i'r cleient sicrhau bod yr holl dystiolaeth ategol yn cael ei chyflwyno, ac yn cynghori y gellir ceisio cyngor gan Shelter.

43. Dywedodd y Cyngor ei fod, yn 2019, wedi cynnal adolygiad o'r Gwasanaeth Opsiynau Tai gyda'r bwriad o sicrhau ei fod nid yn unig yn glynu wrth ysbryd HWA, ond ei fod hefyd yn darparu gwasanaeth mewn Amgylchedd sy'n Wybodus o Safbwynt Seicolegol ("PIE").[20] Y bwriad oedd dylunio'r prosesau a'r gweithdrefnau o fewn yr asesiad digartrefedd, fel eu bod nid yn unig yn briodol ac yn cydymffurfio â'r gofynion statudol, ond hefyd "wedi eu hysbysu gan drawma".[21] Mae'r adolygiad hefyd yn:

- Ystyried hygyrchedd y gwasanaeth.
- Ystyried atal digartrefedd.
- Sicrhau bod taith y cleient yn diwallu ei anghenion.
- Gweithio mewn partneriaeth yn well.

44. Dywedodd y Cyngor fod y penderfyniadau a wnaed o fewn y Gwasanaeth Opsiynau Tai yn amodol ar archwiliadau sicrhau ansawdd. Pe bai gwallau'n cael eu canfod dro ar ôl tro, byddai'r Rheolwr Asesu yn cynnal archwiliadau unigol o'r swyddogion dan sylw. Ar ben hynny, cafodd yr holl achosion a gaewyd eu monitro gan y Rheolwr Asesu i sicrhau bod y wybodaeth angenrheidiol i wneud y penderfyniad yn gywir. Dywedodd y Cyngor, pe bai tueddiad cyffredinol yn cael ei ganfod, y byddai'n cael ei godi gyda'r unigolyn neu'r tîm a, lle bo'n briodol, y byddai unrhyw faterion penodol yn cael eu trafod gyda'r Swyddog Hyfforddi a'u hychwanegu at y cynllun hyfforddi, fel y bo'n briodol.

45. Dywedodd y Cyngor bod staff yn cael cyfarfodydd rheolaidd gyda'u rheolwyr llinell i drafod gwaith achos a sicrhau bod cefnogaeth briodol ar gael. Roedd hyn yn unol â'r ethos 'PIE' yr oedd y Cyngor yn gweithio tuag ato.

46. Ychwanegodd bod y Cyngor, yn dilyn adolygiad o weithdrefnau Ansawdd a Sicrwydd, wedi creu rôl 'Asesydd a Mentor Digartrefedd'. Mae'r rôl hon wedi'i lleoli yn y Gwasanaeth Opsiynau Tai a'i bwrpas yw gwneud yn siŵr bod y gweithdrefnau a'r prosesau wedi cael eu dilyn, sicrhau bod yr holl benderfyniadau cyfreithiol ynghylch digartrefedd yn cael eu harchwilio a'u dilysu'n effeithiol, a chefnogi asesiadau o anghenion.

---

[20]Dylai 'amgylchedd a hysbyswyd yn seicolegol' wella'r gwaith o ddatblygu, cyflwyno a gwerthuso gwasanaeth drwy ystyried anghenion seicolegol ac emosiynol y cleient. Yn y pen draw, bydd hyn yn gwella profiad y cleient ac yn caniatáu iddo deimlo ei fod mewn amgylchedd diogel.

[21]Mae proses 'sy'n seiliedig ar drawma' yn cydnabod arwyddion a symptomau trawma mewn cleientiaid. Mae'n cydnabod ac yn deall effaith eang trawma a bod llawer o ymddygiadau a symptomau yn deillio o addasu i brofiadau trawmatig.

47. Dywedodd y Cyngor fod y Rheolwr Proses Gyfreithiol Ddigartref yn rhannu'r adolygiad a'r penderfyniadau ynghylch apeliadau ac unrhyw bryderon neu dueddiadau, yng Nghyfarfod Gwella a Pherfformiad Digartrefedd Tai a Chymunedau, a gynhaliwyd bob chwarter.

**Cyngor Caerdydd – ymateb i COVID-19**

48. O ran effaith pandemig COVID-19, dywedodd y Cyngor fod staff y Gwasanaethau Opsiynau Tai wedi symud yn gyflym i weithio gartref a bod mesurau wedi cael eu rhoi ar waith i barhau i ddarparu gwasanaeth o ansawdd da i gleientiaid a oedd naill ai'n ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref. Dywedodd y Cyngor fod unrhyw rwystrau a oedd yn bodoli ar ddechrau'r pandemig, yn ei farn ef, wedi cael eu goresgyn yn llwyddiannus.

49. Dywedodd y Cyngor, yn ogystal â'i wasanaeth cyngor dros y ffôn, ei fod wedi newid ei drefn er mwyn caniatáu i asesiadau gael eu cynnal dros y ffôn ac e-bost. Dywedodd y Cyngor fod defnyddio asesiadau dros y ffôn yn ei gwneud yn haws i gwsmeriaid gysylltu â'r gwasanaeth am gymorth a chael cymorth ar unwaith os oeddent yn ddigartref ar ddiwrnod y cyswllt. Ychwanegodd y Cyngor bod cleientiaid wedi nodi y byddai'n well ganddynt gael asesiadau dros y ffôn, gan fod ganddynt apwyntiad wedi'i drefnu ymlaen llaw ac y gallent gael mynediad at y gwasanaeth heb orfod teithio ac aros yn y Ganolfan Opsiynau Tai. Dywedodd y Cyngor y gallai'r cleientiaid hynny nad oedd ganddynt ffôn, neu nad oedd eisiau eu cyflwyno i'r Ganolfan Opsiynau Tai, gysylltu â'r gwasanaeth yn uniongyrchol drwy'r hybiau cymunedol a'r hostelau, gan ganiatáu iddynt gael mynediad at wasanaethau mewn amgylchedd lle'r oeddent yn teimlo'n gyfforddus.

50. Dywedodd y Cyngor ei fod wedi dod ar draws rhai mân broblemau gyda'r asesiadau newydd, ond canfuwyd atebion. Un enghraifft o hyn oedd gofyn i'r cleient dynnu llun o'u caniatâd ysgrifenedig ac anfon y ddelwedd at y Cyngor, pan fo angen.

51. Dywedodd y Cyngor nad oedd y Rheolwr Prosesau Cyfreithiol wedi cael unrhyw anawsterau sylweddol wrth ymchwilio i neu gwblhau adolygiadau yn ystod y pandemig.

52. Dywedodd y Cyngor ei fod wedi cynnal archwiliadau a sesiynau gweld cartref yn rhithiol yn ystod pandemig COVID-19, er mwyn caniatáu i'r gwasanaeth barhau, o ystyried y cyfyngiadau a osodwyd gan reoliadau COVID-19. Dywedodd y Cyngor ei fod yn bwriadu parhau i ddefnyddio ymweliadau rhithiol ar gyfer cleientiaid nad oeddent yn gallu bod yn bresennol; er enghraifft, cleientiaid a oedd yn yr ysbyty neu yn y carchar.

53. Dywedodd y Cyngor ei fod, fel canolfan wasgaru ar gyfer ceiswyr lloches, yn cadw ffoaduriaid a oedd yn cael 'caniatâd i aros' yn y DU gan y Swyddfa Gartref. Roedd nifer uchel o gleientiaid Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn cael cymorth gan y gwasanaeth. Dywedodd y Cyngor fod gweithio'n well mewn partneriaeth â rhanddeiliaid perthnasol yn ystod y pandemig wedi galluogi i'r llwybr at gael tai ar gyfer y cleientiaid hyn i gael ei gynllunio a'i drefnu'n well. Dywedodd y Cyngor, ers i'r Swyddfa Gartref ddechrau anfon adroddiadau rheolaidd, gan dynnu sylw at yr holl achosion cadarnhaol (y rhai sy'n gwneud ceisiadau llwyddiannus am loches ac sy'n cael 'caniatâd i aros' yn y DU) sy'n dal i fyw mewn llety'r Gwasanaeth Cymorth Lloches Cenedlaethol (NASS) yng Nghaerdydd, roedd wedi bod yn fwy rhagweithiol wrth gysylltu â chleientiaid, a gweithio'n llwyddiannus gyda hwy, i sefydlu eu hanghenion tai a'u 'llwybr symud ymlaen'. O ganlyniad, cynigiwyd llety preifat i bobl cyn iddynt gael eu troi allan o lety'r Gwasanaeth Cefnogi Lloches Cenedlaethol, gan osgoi'r angen i ddibynnu ar lety dros dro mewn argyfwng.

54. Dywedodd y Cyngor, cyn pandemig COVID-19, fod rhyddhau cleifion o ysbytai, ar gyfer y cleientiaid hynny sy'n cael eu rhyddhau o gyfleusterau Iechyd Meddwl, yn gweithio'n dda, gyda Swyddog Atal a ariennir gan y GIG yn cefnogi cleientiaid o'r ysbyty i lety sefydlog â chymorth. Ers y pandemig, mae'r Swyddog Atal hefyd yn helpu cleifion dros 55 oed, gyda chymorth Gwasanaethau Byw'n Annibynnol. Dywedodd y Cyngor bod cyfarfodydd wythnosol a chynadleddau achos yn cael eu cynnal i reoli rhyddhau cleifion. Yn ogystal, datblygwyd gwaith partneriaeth gyda'r timau damweiniau ac achosion brys lleol, a oedd yn arbennig o ddefnyddiol wrth gynorthwyo cleientiaid a oedd mewn perygl o gysgu ar y stryd.

55. Dywedodd y Cyngor, cyn pandemig COVID-19, bod Caerdydd, fel llawer o ddinasoedd mawr, wedi gweld cynnydd mewn cysgu ar y stryd. Cynhaliwyd ymchwil i adolygu gwasanaethau ar gyfer pobl sengl ddigartref, llawer ohonynt yn cyflwyno anghenion cymhleth. Sefydlwyd tîm amlddisgyblaethol, a oedd yn

cynnwys ystod eang o weithwyr iechyd, gofal cymdeithasol a therapiwtig, ac roedd hyn wedi cael effaith ar y niferoedd a oedd yn cysgu ar y stryd. Gwnaed ymchwil hefyd i'r math gorau o lety i fynd i'r afael ag anghenion cymhleth. Roedd cyllid ychwanegol a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru, a'r angen i gartrefu pob cleient ar ddechrau'r pandemig, wedi arwain at y gwaith hwn. Sefydlwyd 182 uned o lety â chymorth ychwanegol yn ystod dyddiau cynnar y pandemig, gyda gwasanaethau iechyd a therapiwtig yn cael eu darparu ar y safle, gan arwain at nifer o gleientiaid yn gallu mynd i'r afael â'u problemau sylfaenol am y tro cyntaf.

**Cyngor Sir Gâr - Tystiolaeth ddogfennol**

56. Dywedodd y Cyngor ei fod yn ymfalchïo yn ei waith partneriaeth llwyddiannus a'i agwedd drws agored at weinyddu gwasanaethau digartrefedd. Dywedodd y Cyngor fod partneriaid allweddol, fel The Wallich, [22]Shelter Cymru[23], Cymdeithasau Tai, y Gwasanaeth Prawf, ceginau cawl, Byddin yr Iachawdwriaeth a'r gwasanaeth Gofal a Thrwsio, yn ymgysylltu â'u cleientiaid i'w galluogi i gael mynediad at wasanaethau'r Cyngor. Roedd hyn yn gwella Fforwm Digartrefedd sefydledig y Cyngor sy'n monitro Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Ddigartrefedd Ranbarthol a'r Cynllun Gweithredu Cyllid Trosiannol (Atodiad 1 y Cynllun Digartrefedd Trosiannol 2020/2021). Dywedodd y Cyngor ei fod wedi datblygu ei bartneriaeth gyda landlordiaid preifat, a'i gysylltiadau gwell, dros nifer o flynyddoedd drwy ddatblygu ei asiantaeth gosod tai ei hun[24]. Dywedodd ei fod bellach yn rheoli 160 o gartrefi preifat ar ran landlordiaid sydd wedi cael effaith sylweddol ar ailgartrefu aelwydydd digartref.

57. Dywedodd y Cyngor ei fod, yn 2015, wedi newid ei ddull o ddarparu gwasanaeth Atebion Tai ac wedi ymgorffori'r 'Camau Gwerth' ar draws ei holl swyddogaethau opsiynau tai. Dywedodd y Cyngor ei fod yn mabwysiadu athroniaeth o roi'r cwsmer yn gyntaf wrth ddatrys anghenion tai a ddangoswyd drwy ei ddull 'meddwl am systemau'.[25]

---

[22]Elusen ddigartrefedd a chysgu ar y stryd sy'n rhoi cymorth a chyngor i bobl ddigartref ac agored i niwed.
[23]Mae Shelter Cymru yn elusen tai a digartrefedd sy'n darparu cyngor cyfrinachol ac annibynnol am ddim i gleientiaid, yn ogystal â gwasanaethau eiriolaeth a chymorth cyfreithiol.
[24]Mae asiantaeth gosod tai cymdeithasol yn gweithio mewn ffordd debyg i asiantaeth gosod tai ar y stryd fawr, ac eithrio mai'r prif bwrpas yw un cymdeithasol, yn hytrach nag un ariannol, sy'n canolbwyntio ar ddiwallu anghenion tai mewn ardal ac sy'n chwarae rhan lawn yn y gwaith o atal digartrefedd.
[25]Ffordd o archwilio a datblygu gweithredu effeithiol drwy edrych ar rannau cysylltiedig yn hytrach na rhannau ar wahân.

58. Dywedodd y Cyngor ei fod yn croesawu ysbryd HWA ac yn sicrhau ei fod yn cyflawni ei ddyletswydd gyfreithiol i gynorthwyo pob aelwyd sy'n wynebu digartrefedd, ni waeth a ydynt yn 'cydweddu' â'r categorïau angen blaenoriaethol. Datblygodd y Cyngor wasanaeth 'craidd' a oedd yn darparu cyngor a gwybodaeth am ddim ar amrywiaeth o faterion tai, o ymholiadau am addasiadau i orlenwi, cyflwr eiddo a digartrefedd. Ar gyfartaledd, derbyniodd y gwasanaeth 2,800 o alwadau tai bob mis, gyda'r rhan fwyaf o'r galwadau'n ymwneud â gwybodaeth am ddigartrefedd ac atal digartrefedd. Dywedodd y Cyngor fod y gwasanaeth ar gael i bawb a'i fod wedi cael ei ehangu i gynnwys gwaith dros y penwythnos a gyda'r nos yn ystod y pandemig.

59. Dywedodd y Cyngor fod y Strategaeth Ddigartrefedd Ranbarthol gyda Chyngor Sir Penfro, Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Powys wedi symud y galw o ymatebion brys a sbarduno dyletswyddau digartrefedd, i atal digartrefedd cyn iddo ddod yn argyfwng a datblygu opsiynau cymorth a llety, yn enwedig ar gyfer y rhai ag anghenion cymhleth a gofynion uwch o ran gwasanaethau.

60. Dywedodd y Cyngor fod y Gymraeg a hyrwyddo dwyieithrwydd yn chwarae rhan allweddol yn ei waith a bod cymunedau'n newid, oherwydd diffyg tai fforddiadwy a chyflogaeth yn yr ardal, a oedd yn effeithio'n uniongyrchol ar y Gymraeg a'i diwylliant.

61. Dywedodd y Cyngor, er ei fod wedi gwneud llawer o waith i symud ei ffocws tuag at atal digartrefedd, bod mwy o waith i'w wneud. Yn ogystal â'r newid parhaus i ddiwylliant o atal digartrefedd, roedd mwy o waith ar draws adrannau a gwaith aml-asiantaeth.

62. Dywedodd y Cyngor ei fod yn bwriadu sicrhau bod pobl yn gallu cael gafael ar wasanaethau atal a bod ganddynt amrywiaeth o opsiynau llety a chymorth fforddiadwy. Hefyd, byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i sut byddai'r opsiynau hynny'n cael eu cysylltu â'r defnydd o'i stoc dai.

63. Dywedodd y Cyngor fod y galw am lety un person yn llawer mwy na'r stoc dai sydd ar gael a bod y sector rhentu preifat, mewn ymateb, yn cael ei nodi fel partner allweddol i ddiwallu'r anghenion hynny. Fodd bynnag, yr oedd tystiolaeth o amharodrwydd hyd yn oed mwy cynyddol gan landlordiaid preifat i ymgysylltu, nid yn unig oherwydd mwy o reoleiddio, ond hefyd oherwydd diwygio lles, a oedd yn cael ei weld fel risg uwch wrth osod eiddo.

64. Dywedodd y Cyngor ei fod, drwy ddefnyddio'r gwasanaethau ariannol presennol, wedi ceisio mynd i'r afael â'r hyn a oedd, yn ei farn ef, yn brif resymau dros ddigartrefedd: fforddiadwyedd, chwalu perthynas ac addasrwydd eiddo. Roedd hyn yn cynnwys creu "hwb", a oedd yn cynnwys cynghorwyr a phartneriaid arbenigol, megis therapyddion galwedigaethol, swyddogion iechyd yr amgylchedd a swyddogion gwella'r cartref.

65. Dywedodd y Cyngor hefyd fod ei Dîm Cyngor a Chymorth i Denantiaid wedi cael ei gyd-leoli gyda'i bartneriaid allweddol i ddarparu cefnogaeth ac arbenigedd ar faterion allweddol.

66. Dywedodd y Cyngor fod ei ddull o weithio gyda chleientiaid a phartneriaid ar y cyd ar y safle yn ei alluogi i wneud ei benderfyniadau "yn gywir y tro cyntaf", a dyna pam roedd nifer y ceisiadau am adolygiadau ffurfiol yn isel. Dywedodd y Cyngor y bu adegau pan ddatgelodd y cleientiaid wybodaeth ychwanegol i asiantaethau cefnogi nad oedd yn ymwybodol ohoni ac, yn yr achosion hynny, bu'n gweithio gyda'r asiantaethau partner i adolygu'r achos er mwyn sicrhau bod yr holl wybodaeth yn cael ei hystyried.

67. Dywedodd y Cyngor ei fod, ym mis Tachwedd 2017, wedi cyflwyno proses 'Gosod ar sail Dewis', a oedd yn gwneud y broses ymgeisio am dai yn fwy agored a thryloyw. Yr oedd yn gobeithio y byddai'r broses yn arwain at fwy o denantiaethau llwyddiannus, wrth i gleientiaid fidio am eiddo yr oedd ganddynt wir ddiddordeb ynddynt, yn hytrach na derbyn eiddo rhag ofn iddynt gael eu cosbi.

68. Dywedodd y Cyngor ei fod wedi cynhyrchu adroddiad wythnosol ar y llety sydd ar gael i sicrhau bod cyflenwad digonol a bod ymgeiswyr yn symud ymlaen i lety mwy priodol cyn gynted â phosibl.

69. Dywedodd y Cyngor bod yr holl staff perthnasol yn derbyn rhaglen gynefino a hyfforddiant helaeth a manwl. Cawsant hefyd gopi o'r Cod Canllawiau fel llawlyfr safonol, y byddent yn ei ddilyn fel rhan o'u hyfforddiant cychwynnol ond byddent hefyd ar gael i gyfeirio ato yn ddyddiol.

70. Dywedodd y Cyngor y byddai cleient yn cael gwybod yn ysgrifenedig am ganlyniad asesiad digartrefedd. Roedd y llythyr yn amlinellu'r penderfyniad a wnaed yn ogystal ag esboniad o'r hyn yr oedd hynny'n ei olygu, yn ymarferol, i'r cleient. Dywedodd y Cyngor y byddai'n rhoi gwybod i'r cleient am yr hawl i ofyn am adolygiad a sut i wneud hynny.

71. Unwaith y bydd adolygiad wedi ei gwblhau, dywedodd y Cyngor ei fod wedi ysgrifennu at y cleient yn amlinellu'r canlynol:

- Pwy wnaeth y penderfyniad
- Y rheswm dros yr adolygiad
- Y penderfyniad
- Hawl y cleient i apelio yn erbyn y penderfyniad i'r Llys Sirol.

72. Dywedodd y Cyngor fod nifer yr adolygiadau wedi gostwng yn ystod cyfnod y pandemig, oherwydd y newid yn statws yr angen blaenoriaethol.

73. Dywedodd y Cyngor bod unrhyw adborth ar benderfyniadau adolygu yn cael ei gyfleu'n uniongyrchol i'r penderfynwr a bod trafodaeth hefyd yn cael ei chynnal yn y cyfarfod goruchwylio nesaf. Lle bo'n briodol, byddai trafodaeth ehangach hefyd yn cael ei chynnal yn ystod cyfarfodydd tîm misol. Fodd bynnag, gan fod y ceisiadau am adolygiad mor isel, nid oedd yn eitem sefydlog ar yr agenda.

**Cyngor Sir Gâr – ymateb i COVID-19**

74. Dywedodd y Cyngor fod pandemig COVID-19 wedi achosi nifer o anawsterau iddo. Roedd y cynnydd yn y galw am asesiadau a gwaith achosion mwy cymhleth yn cyfyngu ar y cohort o staff, wrth i weithwyr achos ganfod bod angen mwy o amser gyda phob cleient i gynnal yr asesiad digartrefedd. Roedd cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn gyfyngedig ac, er gwaethaf y stoc dai dros dro cyn COVID-19, roedd cynnydd yn y galw, gan fod yn rhaid iddynt ddarparu ar gyfer pawb.

75. Hefyd, dywedodd y Cyngor, pan oeddent mewn llety dros dro, fod rhai cleientiaid yn gwrthod ymgysylltu â gwasanaethau a'i bod yn anodd cysylltu â nhw. Cafodd hyn ei waethygu gan yr amodau 'cyfnod clo'.

76. Dywedodd y Cyngor ei fod wedi rhoi nifer o fesurau ar waith mewn ymateb i bandemig COVID-19. Cyflwynwyd y mesurau rhwng mis Mawrth a mis Awst 2020. Dywedodd y Cyngor fod y mesurau hynny'n dangos ei allu i weithio'n gyflym, i fod yn hyblyg a gweithredu ar gynigion yn brydlon. Roedd y mesurau'n cynnwys:

- Ail-ddynodi rhywfaint o lety.
- Dod o hyd i opsiynau llety amgen i gwrdd â’r diffyg yn y stoc dai dros dro.
- Cafodd Swyddogion Tai a Chynghorwyr eu hadleoli o rannau eraill o’r gwasanaeth i ateb y galw newydd.
- Cynnydd o 8 i 11 gweithiwr achos digartrefedd dynodedig i gyfrif am y cynnydd yn y galw. Byddai pob gweithiwr achos yn dod ag achos i ben a byddent yn bwynt cyswllt drwy gydol y broses.
- Roedd gweithwyr achos digartrefedd yn darparu gwasanaethau brys 24 awr drwy’r Ganolfan Cyswllt Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth.
- Creu tîm o swyddogion i ganolbwyntio ar symud cleientiaid o lety dros dro, drwy gefnogi pobl i ganfod cartrefi newydd, symud i mewn a darparu nwyddau gwyn a charpedi.
- Rhagor o gefnogaeth Tai yn Gyntaf[26]. Cynyddodd nifer y cleientiaid a gefnogir gan y cynllun hwn o 12 i 40 gyda darpariaeth bellach ar gael, yn ôl yr angen.
- Llwyddwyd i barhau i ddarparu mwy o gefnogaeth, er mwyn sicrhau cyswllt â’r rhai mewn llety dros dro.
- Ymgysylltu â gwirfoddolwyr i ganfod pobl ddigartref a gweithio gyda rhanddeiliaid i sicrhau bod pobl wedi cael eu cyfeirio at wasanaethau priodol.
- Agor Canolfan, gyda sgriniau, sy’n ymroddedig i ymgysylltu â chleientiaid digartref a chyfarfod â nhw.
- Agorodd y swyddfa ar lawr gwaelod adeilad a oedd yn cael ei ddefnyddio i gartrefu cleientiaid digartref dros dro. Roedd y lle’n gyfle i wneud apwyntiadau wyneb yn wyneb yn ddiogel.
- Agorwyd y Gwasanaeth Cyngor ar Dai fore Sadwrn i roi mwy o amser i gleientiaid gysylltu wyneb yn wyneb ac roedd y systemau ar-lein yn galluogi cleientiaid i e-bostio/gwneud ceisiadau unrhyw bryd.
- Darparu ffonau symudol i gleientiaid digartref a defnyddio ‘WhatsApp’ i gyfnewid gwybodaeth a chysylltu.

[26]Gwasanaeth cymorth cofleidiol dwys a roddir i gleientiaid sydd angen y cymorth mwyaf i godi yn ôl ar eu traed a mynd i’r afael ag unrhyw broblemau, er mwyn atal digartrefedd rhag digwydd eto.

- Trefnu cyfarfodydd rheolaidd gyda phartneriaid allweddol a rhanddeiliaid eraill i sicrhau bod ei strategaethau a'i gamau ymateb yn cael eu cydlynu'n effeithiol.
- Cynhyrchu 'Ymateb i COVID-19 – Tai'.
- Cynhyrchu Cynllun Digartrefedd Trosiannol Cyngor Sir Gâr 2020/2021 ar gyfer cefnogi pobl sy'n cysgu ar y stryd yn yr ardal.

77. Dywedodd y Cyngor fod newid Llywodraeth Cymru i ddiystyru statws angen blaenoriaethol mewn ymateb i COVID-19, wedi arwain at alw sylweddol am lety dros dro ac ar wasanaethau digartrefedd. Yn benodol, bu cynnydd yn nifer y cyflwyniadau digartrefedd, o oddeutu 70 i bron i 150 (gan gynnwys dros 100 o bobl sengl), yn ogystal â chymhlethdod cynyddol yr achosion.

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam - Tystiolaeth ddogfennol**

78. Dywedodd y Cyngor fod asesiadau ac adolygiadau digartrefedd yn cael eu cynnal yn unol â Chanllawiau Llywodraeth Cymru.

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam – ymateb i COVID-19**

79. Dywedodd y Cyngor, ers y cyfyngiadau symud cyntaf, fod gostyngiad sylweddol wedi bod yn nifer yr asesiadau wyneb yn wyneb a'r cyfweliadau sy'n cael eu cynnal. Roedd hyn yn creu'r rhwystrau canlynol i swyddogion:

- Gan nad yw cyswllt wyneb yn wyneb yn cael ei ganiatáu, roedd cleientiaid heb ffôn, neu a oedd yn byw mewn ardal â signal gwael, yn cael trafferth cysylltu â'r tîm.
- O ystyried natur anhrefnus rhai cleientiaid, roedd hi'n anodd cadw mewn cysylltiad â phobl, gan fod ffonau symudol yn cael eu colli a bod rhifau ffôn yn cael eu newid yn aml.
- Anodd oedd gwirio dogfennau wrth gynnal ymchwiliadau. Er y gallai'r bobl hynny sydd â ffôn clyfar anfon lluniau o ddogfennau dilysu ymlaen yn lle'r hen rai, ni allai'r rheini sydd heb fynediad at y dechnoleg honno wneud hynny.

- Nid oedd swyddogion yn gallu darllen iaith y corff yn ystod sgwrs dros y ffôn, gan ei gwneud yn fwy anodd meithrin perthynas â chleientiaid ac annog ymgysylltu gwell.
- Roedd adolygiadau addasrwydd yn cynyddu oherwydd, heb gyswllt wyneb yn wyneb, nid oedd bob amser yn bosibl cael y wybodaeth angenrheidiol gan gleientiaid.
- Roedd nifer fawr o asesiadau wedi'u tynnu'n ôl, gan fod cleientiaid yn cysylltu â'r gwasanaeth am gyngor a chymorth yn unig, ond roedd y system yn mynnu bod asesiad llawn yn cael ei gynnal.
- Yr oedd yn anodd perswadio pobl i gymryd rhan mewn gwasanaethau.
- Roedd mwy o dwyll. Heb weld person wyneb yn wyneb neu allu ymweld â'r eiddo'n rheolaidd, roedd yn anodd gwybod pwy oedd y person a oedd yn byw mewn eiddo.

80. Dywedodd y Cyngor bod disgwyliad gan asiantaethau eraill, beth bynnag fo sefyllfa tai cleient, fod yn rhaid iddo letya pob person a bod hyn wedi arwain at gynnydd yn nifer y cleientiaid sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Dywedodd y Cyngor fod rhai asiantaethau wedi methu â deall, hyd yn oed os cafodd y cleient lety dros dro mewn ymateb i'r pandemig, bod ganddo ddyletswydd statudol o hyd i asesu a oedd dyletswydd digartrefedd yn ddyledus i'r cleient hwnnw. Dywedodd y Cyngor fod hyn wedi effeithio'n andwyol ar y berthynas waith gydag asiantaethau eraill ac wedi rhoi pwysau ychwanegol ar y gwasanaeth a'r staff.

81. Dywedodd y Cyngor ei fod wedi cael peth trafferth cael ymatebion gan rai asiantaethau gan nad oeddent bob amser yn gallu cael gafael ar y wybodaeth angenrheidiol ar gyfer yr asesiad. Ar ben hynny, roedd anawsterau wrth geisio caniatâd ysgrifenedig i rannu gwybodaeth yn golygu mai dim ond i swyddogion yr oedd asiantaethau'n gallu darparu gwybodaeth anecdotaidd yn aml. Roedd eiriolwyr hefyd yn rhannu'r anawsterau hyn. Dywedodd y Cyngor fod gwasanaethau Meddygon Teulu, yn benodol, dan gymaint o bwysau fel bod llawer wedi methu ag ymateb i geisiadau am wybodaeth, gan greu rhwystr i'r Broses Adolygu fynd rhagddi yn ddidrafferth.

82. O ran adolygiadau, dywedodd y Cyngor bod rhai penderfyniadau'n cael eu gwrthdroi yn ystod y cam adolygu gan fod oedi o ran cyfathrebu'n golygu nad oedd y swyddogion achos yn ymwybodol o newid mewn amgylchiadau cleient. Dywedodd y Cyngor, os oedd cais cleient am adolygiad yn aflwyddiannus, eu bod yn cael gwybod am eu hawl i esgoli'r mater i'r Llys am adolygiad barnwrol.

83. Dywedodd y Cyngor fod y rhesymau dros wrthdroi penderfyniadau mewn adolygiad yn cael eu trafod gyda'r penderfynwr a, lle bo'n briodol, gyda'r tîm, i sicrhau bod y gwersi a ddysgir yn cael eu rhannu. Rhannwyd unrhyw arfer da a nodwyd mewn cyfarfodydd tîm wythnosol ynghyd ag unrhyw newidiadau i gyfraith achosion ac unrhyw faterion achos, gyda'r bwriad o'u goresgyn drwy gydweithio i ddatblygu atebion. Dywedodd y Cyngor ei fod yn cynnal sesiynau gloywi rheolaidd ar gyfer swyddogion perthnasol.

84. Dywedodd y Cyngor, yn ystod y cyfyngiadau symud cyntaf, ei bod yn arbennig o anodd cysylltu ag ymgeiswyr yn yr ystâd sefydliadau diogel (er enghraifft, pobl yn y carchar). Gan fod cydweithwyr mewn timau adsefydlu yn gweithio gartref, roedd swyddogion yn dibynnu ar bobl yn ateb eu ffonau neu'n ateb eu galwadau ffôn. Mewn rhai carchardai, cafodd cyfleusterau ffôn eu rhannu, felly petai achos COVID-19 yn digwydd mewn un adain, cafodd yr adain gyfan ei rhoi dan gyfyngiadau symud, sy'n golygu na allai unrhyw staff fynd i mewn ac na chafodd defnyddio'r ffôn ei ganiatáu.

85. Dywedodd y Cyngor, mewn ymateb i'r cyfyngiadau symud, fod nifer o wasanaethau allgymorth allweddol a ddarperir gan sefydliadau'r trydydd sector, fel llochesi nos a darpariaethau bwyd poeth, wedi cau i ddefnyddwyr gwasanaeth. Dywedodd y Cyngor fod hyn wedi arwain at gynnydd yn y galw ar y Gwasanaeth Opsiynau Tai i lenwi'r bylchau yn y gefnogaeth.

86. Dywedodd y Cyngor, oherwydd bod canllawiau Llywodraeth Cymru yn nodi bod y lloches nos yn anaddas a bod angen trefniadau amgen i ddiogelu unigolion agored i niwed rhag y posibilrwydd o ddod i gysylltiad â Covid-19, ei fod wedi cymryd camau i symud y bobl hynny a oedd yn cysgu allan oddi ar y stryd ac i lety dros dro. Fodd bynnag, gan fod nifer o westai a sefydliadau gwely a brecwast naill ai wedi cau, neu wedi cael eu bwcio mewn bloc gan gyrff cyhoeddus eraill, nid oedd llawer o lety arall addas ar gael yn yr ardal. Dywedodd y Cyngor, drwy weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru ac asiantaethau lleol eraill, fod llety'n cael ei ategu drwy ddefnyddio llety gwely a

brecwast ‘y tu allan i’r sir’, llety dros dro ac eiddo asiantaethau gosod tai lleol. Ar ben hynny, bu’r Cyngor yn negodi prydles tymor byr gyda Phrifysgol Glyndŵr Wrecsam ar gyfer defnyddio llety hunangynhwysol i fyfyrwyr ar gampws y brifysgol a defnyddio coridor yng nghanolfan dai Foyer Wrecsam, ar gyfer y rheini nad oes ganddynt fynediad at arian cyhoeddus.

87. Dywedodd y Cyngor bod trefniadau wedi eu gwneud i ddisodli hen wasanaethau allgymorth a oedd yn darparu cefnogaeth a chymorth materol i bobl ddigartref, a bod y gwasanaethau hynny ar gael ar safle Prifysgol Glyndŵr. Dywedodd y Cyngor bod cleientiaid yn derbyn llety, bwyd, mwynderau, nwyddau ymolchi a, phan oedd hynny’n briodol, talebau cludiant. Dywedodd y Cyngor fod darparu gwasanaethau mewn un lleoliad yn hytrach nag mewn amrywiaeth o wahanol ganolfannau allgymorth ledled y dref, wedi bod yn llwyddiannus a bod mwy o ymgysylltu ymysg y rhai a oedd yn draddodiadol wedi bod y rhai anoddaf eu cyrraedd. Hefyd, roedd yn caniatáu iddynt ddarparu gwasanaethau wedi’u teilwra i unigolion, gan gynnwys cymorth gan wasanaethau allweddol fel meddygon teulu, timau iechyd meddwl a gwasanaethau lleihau niwed. Dywedodd y Cyngor fod cytundebau rhannu gwybodaeth ar waith rhwng asiantaethau partner, yn ei gwneud yn haws i deilwra cefnogaeth i unigolion, gan fod gan ddarparwyr gwasanaeth ddarlun llawnach o anghenion pob unigolyn.

88. Dywedodd y Cyngor fod trefniadau eraill wedi’u cynllunio i atal cyswllt cymdeithasol diangen a lleihau lledaeniad y feirws ymysg pobl, llawer ohonynt yn agored i niwed. Dywedodd y Cyngor ei fod hefyd yn bwriadu dylunio gwasanaethau a oedd yn galluogi pobl ddigartref i ymgysylltu a datblygu’r sgiliau angenrheidiol i gynnal tenantiaeth yn llwyddiannus. Dywedodd y Cyngor fod llwyddiant y model hwn o ddarparu gwasanaethau wedi cael ei ailadrodd yn y ‘hyb brysbennu’ newydd, a ddatblygwyd yn ddiweddar yn dilyn cais llwyddiannus am gyllid i Lywodraeth Cymru.

89. Dywedodd y Cyngor, er bod cyllid ychwanegol ar gael, ei fod ar gyfer darparu gwasanaethau cefnogi, nid y gwasanaeth statudol, lle cafwyd y rhan fwyaf o’r pwysau ychwanegol.

90. Dywedodd y Cyngor fod lefelau straen staff wedi cynyddu oherwydd y pwysau ychwanegol a’r llwyth gwaith cynyddol a achoswyd gan y pandemig. Dywedodd y Cyngor fod llai o swyddogion ar gael oherwydd cynnydd mewn absenoldeb oherwydd salwch ac roedd un swyddog wedi ymddiswyddo.

O ganlyniad, roedd hyn yn effeithio ar gadernid yr hyfforddiant a dderbyniodd swyddogion newydd, gan fod yn rhaid iddo gael ei ddarparu gan staff profiadol gyda llwyth achosion trwm.  Dywedodd y Cyngor fod y pandemig hefyd wedi effeithio ar recriwtio, yn enwedig gan fod disgwyl i swyddogion weithio yn y swyddfa a bod llawer o bobl yn teimlo eu bod yn poeni am hynny.

91. Dywedodd y Cyngor fod canllawiau digartrefedd Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd mewn ymateb i COVID-19, yn gwrthdaro o bryd i'w gilydd â'r ddeddfwriaeth, er enghraifft rhoi diwedd ar angen blaenoriaethol dros dro, gan achosi dryswch i swyddogion ac asiantaethau eraill.  Dywedodd y Cyngor fod yr effaith o orfod parhau i ddarparu llety er i'r ddyletswydd digartrefedd ddod i ben, wedi arwain at fwy o bwysau ar lety dros dro.  Dywedodd y Cyngor, yn ystod y pandemig, fod cynnydd o 173% yn y defnydd o lety dros dro, a arweiniodd at swyddogion yn gorfod neilltuo mwy o amser i ddod o hyd i unedau ychwanegol o lety a rheoli lleoliadau.  Ar ben hynny, roedd methu â gwahaniaethu rhwng achosion blaenoriaethol ac achosion lle nad oedd angen blaenoriaeth wedi arwain at gynnydd yn nifer y llety yr oedd ei angen.

92. Dywedodd y Cyngor mai'r gwasanaeth Opsiynau Tai oedd yr unig ffynhonnell o gyngor a chefnogaeth i gleientiaid, a arweiniodd at fwy o alwadau a chyflwyniadau.  Ar ben hynny, roedd ffactorau cymdeithasol yn deillio o COVID-19 a oedd wedi cyfrannu at gynnydd yn nifer y ceisiadau am gymorth sy'n gysylltiedig â'r teulu a pherthynas yn chwalu, cynnydd mewn cam-drin domestig a chynnydd yn nifer y dynion sengl a oedd wedi gallu 'syrffio soffas' o'r blaen.  O ganlyniad, roedd swyddogion yn gorfod dod o hyd i lety dros dro arall ar fyr rybudd.

93. Dywedodd y Cyngor fod rôl y Gweithiwr Allgymorth a'r Mentor Cymheiriaid wedi bod yn ddefnyddiol o ran canfod y rhai a oedd yn cysgu allan a'u hannog i ymgysylltu â gwasanaethau, yn enwedig gan fod yr asiantaethau allanol eraill wedi rhoi'r gorau i gyflenwi'r gwasanaeth hwn.

94. Dywedodd y Cyngor, ar ddechrau'r pandemig, ei bod yn her gweithredu panel adolygu rhithiol, gan mai proses ar bapur ydoedd  Fodd bynnag, wrth i ddulliau gweithio o bell wreiddio, nododd ffyrdd o rannu'r wybodaeth angenrheidiol ac ers hynny roedd wedi gallu dychwelyd i gynnal cyfarfodydd gyda holl aelodau'r panel.

95. Dywedodd y Cyngor ei fod wedi prynu ffonau symudol a thalebau teithio ar gyfer y rheini oedd eu hangen, gan alluogi pobl i gael gafael ar lety dros dro, neu ailgysylltu ag aelodau o'r teulu.

96. Dywedodd y Cyngor ei fod wedi cyflwyno technoleg 'Ffôn Meddal'[27], a oedd yn ei gwneud yn haws i staff sy'n gweithio gartref gadw mewn cysylltiad â chydweithwyr ac asiantaethau eraill. Roedd hefyd yn haws i rai cleientiaid gael gafael ar gyngor dros y ffôn yn hytrach na mynd i'r swyddfa am apwyntiad, yn enwedig os oeddent yn gweithio oriau swyddfa neu shifftiau.

## Tystiolaeth tyst gan yr Awdurdodau Ymchwiliol ac Asiantaethau eraill

97. Gofynnwyd am dystiolaeth gan swyddogion o'r Awdurdodau Ymchwiliol. Er mwyn rhoi sylw i'r pwysau amser a roddwyd ar y swyddogion a ymatebodd i'r pandemig, casglwyd tystiolaeth y tystion drwy 'Survey Monkey' a thrwy gyfweliadau ar Microsoft Teams, dros gyfnod o wythnosau.

98. Gwahoddwyd partïon eraill â buddiant hefyd i gymryd rhan yn yr ymchwiliad ac i ddarparu tystiolaeth. Darparwyd tystiolaeth gan Shelter Cymru ac YMCA Castell-nedd Port Talbot drwy Survey Monkey, cyfweliadau Microsoft Teams a grwpiau ffocws ar-lein.

### Cyngor Caerdydd – Tystiolaeth tystion gan Swyddogion y Cyngor

99. Dewiswyd 8 o Swyddogion y Cyngor ar hap i ddarparu tystiolaeth tystion. Ymatebodd 7 Swyddog.

100. Dywedodd y Swyddogion eu bod wedi cael hyfforddiant perthnasol am HWA ac unrhyw newidiadau i'r canllawiau. Nodwyd bod rhai swyddogion o'r farn bod HWA yn ddarn da o ddeddfwriaeth, yn enwedig ar gyfer pobl sengl. Dywedodd swyddogion bod hyfforddiant yn cael ei ddarparu'n fewnol a thrwy Shelter Cymru a'u bod yn gweithio mewn amgylchedd cefnogol lle'r oedd cydweithwyr yn rhoi cyngor i'w gilydd wrth wneud penderfyniadau. Dywedodd swyddogion eu bod wedi cael hyfforddiant 'PIE' (gweler troednodyn 14, uchod), a oedd yn helpu i wneud penderfyniadau. Dywedodd y Swyddogion fod yr awdurdod lleol wedi creu canllawiau mewnol i wneud y broses yn haws

[27]Meddalwedd sy'n caniatáu i ddefnyddiwr wneud galwadau ffôn dros y rhyngrwyd o gyfrifiadur.

ei defnyddio a bod y Broses Adolygu wedi'i gwreiddio ym meddalwedd rheoli achosion yr awdurdod lleol a'i bod yn cael ei chyflawni gan Swyddogion Adolygu.

101. Dywedodd y Swyddogion eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw newidiadau i'r Broses neu ddeddfwriaeth. Cafwyd cyfarfodydd rheoli rheolaidd hefyd, a oedd yn cynnwys diweddariadau gan y Swyddogion Datblygu.

102. Dywedodd swyddogion fod llawer o waith wedi'i wneud i sicrhau bod pobl yn gallu cael gafael ar wasanaethau digartrefedd; roedd hyn yn cynnwys Swyddogion Asesu Symudol, swyddogion yn arbenigo mewn meysydd ar gyfer pobl sy'n gadael Carchar, swyddogion yn yr ysbytai a phartneriaid yn y maes, Cyngor y Ffoaduriaid[28] a RISE.[29]

103. Dywedodd swyddogion fod rhai cleientiaid yn amharod neu'n methu â darparu'r wybodaeth angenrheidiol a oedd yn effeithio ar allu'r swyddog i gynnal asesiad. Dywedodd swyddogion ei bod yn bwysig, yn yr achosion hynny, meithrin lefel o ymddiriedaeth gyda'r cleient, neu gallai pobl agored i niwed fod dan anfantais. Dywedodd swyddogion y gallai fod anawsterau hefyd o ran cael gwybodaeth gan drydydd partïon oherwydd cyfyngiadau deddfwriaethol[30] neu amseroedd ymateb hir. Fodd bynnag, cydnabuwyd y gallai cleientiaid ofyn am adolygiad ar unrhyw gam o'r broses.

104. Dywedodd swyddogion eu bod hefyd wedi cael anawsterau pan oedd cleientiaid yn amharod i gymryd rhan yn y broses, gallai hyn fod o ganlyniad i anghenion cymhleth neu drallod oherwydd y stigma o gael eu gwneud yn ddigartref. Roeddent yn dweud ei bod yn bwysig goresgyn y rhwystrau hynny er mwyn rhoi'r cymorth gorau i'r cleientiaid hynny oedd yn symud ymlaen, a gan ddefnyddio eu hyfforddiant 'PIE', roeddent yn ceisio cynnig dull adeiladol i'w cleientiaid oedd yn canolbwyntio ar y person.

105. Dywedodd swyddogion, ar gyfer y cleientiaid hynny nad Cymraeg na Saesneg oedd eu hiaith gyntaf, y byddent yn cadarnhau dewis iaith y cleient ac yn defnyddio gwasanaethau cyfieithu megis Language Line. Parhaodd y gwasanaeth hwn drwy gydol pandemig COVID-19.

[28]Elusen sy'n gweithio gyda ffoaduriaid a cheiswyr lloches.
[29]Mudiad sy'n cefnogi dioddefwyr cam-drin domestig.
[30] Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol

106. O ran y rhwystrau yr oedd cleientiaid yn eu hwynebu wrth ymuno â'r broses ddigartrefedd, dywedodd swyddogion fod rhai cleientiaid, yn enwedig y rhai a oedd yn newydd i'r broses, yn ansicr ynghylch beth oedd yn digwydd a sut yr oedd y system yn gweithio iddynt. Dywedodd swyddogion fod rhai cleientiaid yn poeni, pe byddent yn gofyn am adolygiad, y byddai'n peryglu eu lleoliad. Yn yr achosion hynny, cafodd y cleientiaid eu sicrhau mai eu hawl gyfreithiol hwy oedd gwneud y cais ac na fyddai'n cael effaith andwyol ar eu cais. Roeddent hefyd yn dawel eu meddwl bod y Broses Adolygu wedi'i chynnal yn annibynnol.

107. Roedd y rhwystrau eraill yr oedd cleientiaid yn eu hwynebu yn cynnwys cael gafael ar ohebiaeth. O ganlyniad, nid oedd y cleientiaid a fethodd â chasglu eu llythyrau yn ymwybodol o unrhyw benderfyniadau a'u hawliau adolygu. Dywedodd swyddogion, er bod mwy o lythyrau'n cael eu hanfon drwy e-bost, roedd anawsterau o hyd i'r cleientiaid hynny nad oedd ganddynt fynediad at Wi-Fi neu gyfrifiadur. Dywedodd swyddogion eu bod yn ceisio sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu cyfleu mewn iaith glir a bod y cleient yn ymwybodol o'u hawliau adolygu ac y gellid gwneud cais am adolygiad ar lafar.

108. Roedd swyddogion yn cydnabod, er ei bod yn bwysig egluro'r ddeddfwriaeth a'r dyletswyddau statudol i'r cleient, y gallai cynnwys rhai llythyrau fod yn anodd i bobl eu deall ac y byddai'n fuddiol eu gwneud yn symlach, yn enwedig wrth hysbysu cleientiaid am ddyletswyddau aml-adran.

109. Dywedodd swyddogion y gallai iaith a chyflyrau iechyd fod yn rhwystr i rai cleientiaid, ond bod hyn wedi gwella gyda'r asesiadau dros y ffôn a gynhaliwyd yn ystod y pandemig, gan ei bod yn haws i bobl gael gafael ar y gwasanaethau.

110. Nodwyd bod 2 Swyddog Adolygu oedd yn annibynnol ar y Gwasanaeth Opsiynau Tai.

111. Dywedodd swyddogion fod adegau pan wnaed penderfyniad adolygu heb ymgynghori â'r penderfynwr a bod y cleient yn cael gwybod am y penderfyniad cyn iddo gael ei rannu'n fewnol. Arweiniodd hyn at golli cyfleoedd i ddysgu a thrafod.

112. Dywedodd swyddogion, pan gaewyd achosion, neu pan dderbyniwyd dyletswydd neu pan gyfeiriwyd cleient am lety dros dro, bod y broses archwilio'n cael ei chreu a bod uwch swyddog wedi gwirio'r achos. Ar ben

hynny, roedd yna Swyddog Archwilio penodol a oedd yn cynnal archwiliadau cyffredinol o’r achosion.  Rhannwyd unrhyw faterion neu arferion da a nodwyd gyda’r swyddogion yn ystod cyfarfodydd cynnydd misol neu gyfarfodydd tîm.  Rhannwyd penderfyniadau adolygu a wrth-drowyd gyda’r rheolwr llinell a’u bwydo’n ôl i’r staff.  Lle’r oedd hynny’n briodol, nodwyd anghenion hyfforddi hefyd a rhoddwyd sylw iddynt.

113. Dywedodd swyddogion fod yna gyfle i hunanwerthuso beirniadol drwy adolygu eu gwaith eu hunain, cyfarfodydd cynnydd misol yn trafod achosion a thrafodaethau achos cyffredinol gyda chydweithwyr.  Dywedodd swyddogion eu bod yn cael eu hannog a’u cefnogi i adolygu a myfyrio ar benderfyniadau, gan gynnwys penderfyniadau adolygu.  Cafodd unrhyw anghenion neu ddiddordebau arbennig a nodwyd eu bwydo i mewn i gynllun hyfforddiant personol y swyddog ac ystyriwyd a oedd angen hyfforddiant ehangach.

114. Dywedodd swyddogion bod rheolwyr yn rhoi adborth ar benderfyniadau a wrth-drowyd, felly rhoddwyd cyfle i’r swyddog ddysgu.  Rhoddwyd cyfle hefyd i swyddogion drafod penderfyniadau gyda’r Swyddog Adolygu, yn enwedig os oeddent yn anghytuno â’r penderfyniad.  Lle’r oedd themâu neu dueddiadau mewn penderfyniadau a wrth-drowyd, ystyriwyd a oedd angen hyfforddiant naill ai ar gyfer swyddog unigol neu ar gyfer y tîm.

115. Dywedodd swyddogion, ers dechrau pandemig COVID-19, bod y rhan fwyaf o asesiadau’n cael eu cynnal dros y ffôn, drwy e-bost neu alwad fideo.  Roedd y swyddogion yn cefnogi’r cleient ym mha fformat bynnag oedd fwyaf cyfforddus i’r cleient, gan gynnwys wyneb yn wyneb, ar gyfer y rheini nad oedd ganddynt fynediad at dechnoleg.  Dywedodd swyddogion bod hynny wedi arwain at fwy o ymgysylltu gan gleientiaid, gan ei fod yn fwy cyfleus iddynt.

116. Dywedodd swyddogion eu bod, ers y pandemig, wedi mabwysiadu dull mwy hyblyg o ddarparu dogfennau ategol drwy e-bost.

117. Dywedodd swyddogion fod y Broses Adolygu bob amser wedi bod yn un o bell, felly nid oedd llawer o newid yn deillio o’r pandemig.

## Cyngor Sir Gâr – Tystiolaeth tystion gan Swyddogion y Cyngor

118. Roedd 6 Swyddog a ddewiswyd ar hap yn ymwneud â'r broses. Roedd gan y swyddogion ystod eang o brofiad ar draws y broses ddigartrefedd gyfan.

119. Dywedodd y Swyddogion eu bod wedi cael hyfforddiant perthnasol am HWA ac unrhyw newidiadau i'r canllawiau. Roedd hyfforddiant yn cael ei ddarparu'n fewnol a thrwy asiantaethau allanol fel Shelter Cymru, ac roedd y Swyddogion nid yn unig yn cael eu diweddaru'n rheolaidd gydag unrhyw newidiadau i'r arweiniad a'r broses, ond roeddent hefyd yn cael eu cefnogi'n gyffredinol gan eu Harweinyddion Tîm. Dywedodd swyddogion eu bod wedi cael hyfforddiant 'PIE' (gweler troednodyn 14, uchod), er mwyn eu helpu gyda'u rolau.

120. Dywedodd swyddogion eu bod yn cael anawsterau wrth gynnal asesiadau pan nad oedd cleientiaid yn diweddaru eu manylion cyswllt. Ar ben hynny, roedd rhai cleientiaid yn cael anhawster gydag apwyntiadau ffôn gan eu bod mewn ardaloedd gwledig gyda signal gwael, yn cael trafferth cael mynediad at y dechnoleg, neu'n cael problemau cyfathrebu a oedd yn galw am eiriolwr. Dywedodd swyddogion fod diffyg cyswllt wyneb yn wyneb yn ei gwneud hi'n anodd i'r bobl hynny gael gafael ar wasanaethau.

121. Dywedodd swyddogion y gallai cleientiaid yn aml gael gwybodaeth anghywir gan wasanaethau cefnogi a arweiniodd at ddryswch ac a oedd yn ei gwneud yn anodd rheoli disgwyliadau. Dywedodd swyddogion, yn enwedig ers dechrau'r pandemig, y gallai fod yn anodd cael gafael ar y wybodaeth sydd ei hangen i gynnal asesiad.

122. Dywedodd swyddogion fod y rhwystr iaith i'r rhai nad oedd eu hiaith gyntaf yn Gymraeg neu'n Saesneg wedi cynyddu a bod angen trefnu ymlaen llaw ar gyfer mynediad at wasanaethau cyfieithu, a bod hynny wedi arwain at oedi i gleientiaid.

123. Dywedodd swyddogion fod archwiliadau dirybudd yn cael eu cynnal ar benderfyniadau asesu a bod rhai achosion yn cael eu defnyddio i weithio drwyddynt mewn cyfarfodydd achos. Ar ben hynny, cynhaliwyd dadansoddiad rheolaidd o benderfyniadau'r adolygiad.

124. Dywedodd swyddogion fod hunanwerthusiad beirniadol o benderfyniadau yn cael ei wneud i sicrhau eu bod yn ystyried yr holl wybodaeth a'r opsiynau. Dywedodd swyddogion fod cyfnod o bwyso a mesur hefyd yn cael ei gynnal ar achosion.

125. Dywedodd swyddogion fod cyfarfodydd gwaith achos rheolaidd yn cael eu cynnal i drafod achosion. Yn ogystal, roedd swyddogion yn cael cyfarfodydd cynnydd rheolaidd gyda'u rheolwr lle nodwyd unrhyw faterion ac anghenion hyfforddi. Dywedodd swyddogion fod unrhyw angen hyfforddi a nodwyd yn cael sylw'n gyflym. Hefyd, byddai unrhyw faterion sy'n berthnasol i'r tîm yn cael eu rhannu yng nghyfarfod y tîm.

126. Dywedodd swyddogion y byddai unrhyw wersi sy'n deillio o adolygiad yn cael eu trafod yn anffurfiol gyda'r penderfynwr ac y byddent wedyn yn cael eu gweithredu'n ffurfiol, drwy e-bost. Byddai unrhyw beth sy'n berthnasol i'r tîm ehangach yn cael ei rannu yn ystod cyfarfod y tîm.

127. Dywedodd swyddogion fod gweithio gartref yn ystod y pandemig wedi rhoi mwy o 'amser tawel' iddynt o'r swyddfa brysur i wneud eu gwaith. Fodd bynnag, roedd hefyd yn ei gwneud yn anoddach i swyddogion ryngweithio â chydweithwyr, yn enwedig pan oedd angen cefnogaeth ar swyddog.

128. Dywedodd swyddogion fod y cynnydd yn y gwaith achos o ganlyniad i'r pandemig wedi arwain at bwysau sylweddol, yn enwedig gan fod nifer y bobl sy'n gymwys i gael llety dros dro wedi cynyddu'n sylweddol yn dilyn y penderfyniad i roi diwedd ar yr angen blaenoriaethol dros dro a bod y gwasanaeth 'y tu allan i oriau' wedi cael ei ddychwelyd i'r tîm i'w reoli.

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam – Tystiolaeth tystion gan Swyddogion y Cyngor**

129. Roedd 6 Swyddog a ddewiswyd ar hap yn ymwneud â'r broses. Roedd gan y swyddogion ystod eang o brofiad ar draws y broses ddigartrefedd gyfan.

130. Dywedodd y Swyddogion eu bod wedi cael hyfforddiant perthnasol am HWA ac unrhyw newidiadau i'r canllawiau. Darparwyd hyfforddiant mewnol a thrwy asiantaethau allanol, megis Shelter Cymru. Dywedodd swyddogion eu bod hefyd yn cael eu diweddaru'n rheolaidd gydag unrhyw newidiadau i'r canllawiau a'r broses. Fodd bynnag, dywedodd y Swyddogion fod newidiadau

Llywodraeth Cymru i ganllawiau mewn ymateb i COVID-19 yn gwrth-ddweud elfennau o'r ddeddfwriaeth (fel rhoi diwedd ar angen blaenoriaeth dros dro) sydd wedi achosi dryswch.

131. Roedd swyddogion yn cydnabod bod cael ffin â Lloegr, a'r gwahaniaethau rhwng deddfwriaeth yng Nghymru a Lloegr, yn effeithio ar wasanaethau i'r cleient. Dywedodd swyddogion fod gan lawer o sefydliadau trydydd parti ddisgwyliadau afrealistig o'r hyn y gellid ei gyflawni, yn enwedig mewn perthynas â llwybrau i garcharorion.

132. Dywedodd swyddogion fod rhai cleientiaid yn ffafrio asesiadau dros y ffôn gan eu bod yn teimlo bod mynychu ei swyddfeydd yn deimlad brawychus. Fodd bynnag, nid oedd hynny'n wir i bob cleient, yn enwedig y rheini heb fynediad at y dechnoleg berthnasol, neu a oedd yn byw mewn ardaloedd gwledig heb signal ffôn symudol na Wi-Fi.

133. Dywedodd swyddogion fod oedi wrth gael gafael ar wybodaeth angenrheidiol a chyflawn gan drydydd partïon yn effeithio ar y broses asesu digartrefedd a'i bod yn anodd bwrw ymlaen â materion pan nad oedd cleientiaid yn ymateb i gyfathrebiadau. Ar ben hynny, yn ystod pandemig COVID-19, roedd mwy o geisiadau a oedd yn cymryd mwy o amser wrth iddynt gael eu gwneud dros y ffôn. Mynegodd swyddogion bryderon bod pobl agored i niwed yn cael eu methu am nad oedd modd adnabod rhai materion ar y ffôn i'r graddau y gellir gwneud hynny wyneb yn wyneb.

134. O ran adolygiadau, dywedodd swyddogion bod y broses yn cael ei llunio ac y gellid cyflwyno sylwadau ar yr 'unfed awr ar ddeg', gan achosi oedi pellach i'r cleient.

135. Dywedodd swyddogion fod penderfyniadau adolygu'n cael eu gwneud gan Banel Adolygu a oedd â chynrychiolaeth deg o bobl, gan gynnwys presenoldeb cynrychiolydd cyfreithiol, wrth ddod i benderfyniad ar sail y dystiolaeth. Dywedodd swyddogion na fu'n bosibl cynnal y paneli adolygu ar ddechrau'r pandemig, felly roedd yn rhaid diwygio'r broses am gyfnod er mwyn gallu ei chynnal ar-lein. Nid oedd y Broses Adolygu wedi newid yn ystod y pandemig ac roedd swyddogion yn teimlo bod y paneli adolygu rhithiol wedi gweithio'n dda. Cofnodwyd a nodwyd penderfyniadau'r panel adolygu gan y Swyddog Polisi.

136. Dywedodd swyddogion fod penderfyniadau adolygu'n cael eu hystyried mewn cyfarfodydd cynnydd gydag arweinydd y tîm, gyda meysydd i'w gwella, arferion gorau, syniadau arloesol ac anghenion hyfforddi'n cael eu rhannu a'u rhoi ar waith ar sail unigolion a thimau. Hefyd, cafodd unrhyw wersi i'w dysgu o adolygiadau eu rhannu â swyddogion a, phan oedd hynny'n briodol, eu trafod mewn cyfarfodydd tîm.

137. Roedd gan swyddogion fynediad at wasanaethau cyfieithu ar gyfer y cleientiaid hynny nad Cymraeg na Saesneg oedd eu hiaith gyntaf. Roedd canllawiau cyfathrebu clir hefyd ar gyfer y rheini sydd â nam ar eu synhwyrau.

138. Roedd swyddogion yn cydnabod bod maint y gwaith a achoswyd gan bandemig COVID-19 yn golygu na chysylltwyd â chleientiaid mor aml ag y byddai swyddogion wedi'i ddymuno. Yn ogystal, cafodd llawer o wasanaethau rhanddeiliaid eu cwtogi, gan gynyddu'r galw ar y Cyngor am gyngor a chefnogaeth, ond teimlai swyddogion nad oedd digon o swyddogion i ateb y galw.

139. Dywedodd swyddogion fod cael gafael ar gleientiaid a oedd ar fin gadael y carchar wedi bod yn anodd am nad oedd bob amser yn bosibl cynnal asesiadau dros y ffôn. Yn y sefyllfaoedd hynny, roedd yn rhaid i swyddogion ddibynnu ar wasanaethau ailsefydlu i gael gwybodaeth, a oedd yn aml yn gyfyngedig iawn. Roedd hi hefyd yn anodd cysylltu â'r rheini a oedd yn gadael y carchar, gan nad oedd gan lawer ohonynt ffonau symudol.

140. Dywedodd swyddogion, ers COVID-19, bod apwyntiadau wedi cael eu cwblhau'n bennaf dros y ffôn, gyda dim ond ychydig o apwyntiadau wyneb yn wyneb yn cael eu cynnal. Roedd hyn yn ei gwneud yn anodd casglu dogfennau adnabod pwysig, tystiolaeth a ffurflenni caniatâd wedi'u llofnodi. Wedi dweud hynny, roedd yn annog ffyrdd newydd o weithio a ffordd well o rannu gwybodaeth gydag asiantaethau eraill.

141. O Dywedodd swyddogion fod y penderfyniad i gael gwared ar statws angen blaenoriaethol yn ystod y pandemig yn golygu bod yn rhaid darparu ar gyfer pawb. Roedd swmp y gwaith ers COVID-19 wedi treblu, gan ei gwneud yn anodd ailedrych ar achosion a chwblhau asesiadau.

**Shelter Cymru**

142. Mae'r dystiolaeth a'r enghreifftiau a ddarparwyd gan Shelter Cymru yn adlewyrchu profiadau gweithwyr achos a'u cleientiaid. Nid yw'r sylwadau wedi'u priodoli i awdurdod lleol penodol. Yn hytrach, sylwadau cyffredinol ydynt. Dylid ystyried y farn a fynegir yng nghyd-destun gwaith achos Shelter Cymru, ac nid yw'n cynrychioli gweithgarwch yr awdurdod lleol yn ei gyfanrwydd; o ganlyniad, gallai enghreifftiau o arferion da gael eu tangynrychioli. Roedd gan y gweithwyr achos i gyd brofiad o weithio'n uniongyrchol gyda chleientiaid a oedd yn ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref. Roedd gan y gweithwyr achos hefyd brofiad o'r Broses Adolygu Digartrefedd.

143. Teimlai'r gweithwyr achos yn gyffredinol fod y Broses Adolygu'n dda pan gâi ei defnyddio'n gywir, ond er hynny, yn eu barn hwy, roedd y dull o gynnal adolygiadau ar draws Cymru yn anghyson. Er bod rhai awdurdodau lleol wedi darparu gwybodaeth glir yn ysgrifenedig a llafar am adolygiadau, roedd eraill yn dibynnu ar baragraff ar ddiwedd llythyr neu daflen ffeithiau. Awgrymwyd y byddai cael yr hawliau adolygu mewn llythrennau bras neu dan bennawd "Eich hawl i adolygu os nad ydych yn cytuno â'r penderfyniad hwn" yn ddefnyddiol, ynghyd ag esboniad o'r Broses a beth i'w ddisgwyl.

144. Dywedodd y gweithwyr achos fod llawer o gleientiaid yn byw bywydau anhrefnus, bod ganddynt anawsterau dysgu, salwch corfforol neu feddyliol, problemau camddefnyddio sylweddau neu broblemau llythrennedd. Roedd llawer yn ansicr ynghylch y penderfyniadau digartrefedd a oedd yn cael eu gwneud ac nid oeddent yn ymwybodol o'u hawl i gael adolygiad. Oherwydd hyn, teimlai gweithwyr achos nad oedd rhoi gwybod i rywun am eu hawl i gael adolygiad ar ddiwedd llythyr bob amser yn ddigonol, yn enwedig gan nad oedd gan lawer o gleientiaid gyfeiriad post ac nad oeddent yn sylweddoli y gallent gasglu copïau o lythyrau o swyddfeydd y cyngor. Roedd cleientiaid eraill yn cael trafferth deall cynnwys y llythyrau. Dywedodd y gweithwyr achos, er bod cleientiaid yn cael cyfle i adolygu penderfyniadau drwy gydol y broses ddigartrefedd, nad oedd y rhan fwyaf yn deall nac yn gallu defnyddio'r Broses Adolygu.

145. Dywedodd gweithwyr achos fod rhai awdurdodau lleol, yn eu profiad hwy, wedi methu ag anfon hysbysiadau neu ddogfennau eraill yn aml, a oedd yn darparu gwybodaeth ynghylch a oedd dyletswydd digartrefedd wedi cael ei derbyn; heb yr ohebiaeth honno nid oedd llawer o gleientiaid yn ymwybodol

o’u hawliau a’u rhwymedigaethau. Dywedodd y gweithwyr achos fod y llythyrau, yn eu barn hwy, yn aml yn llawn jargon ac yn ymddangos fel pe baent wedi cael eu ‘torri a’u pastio’ o lythyrau eraill. O ganlyniad, nid oedd yr ohebiaeth bob amser yn benodol i’r cleient unigol hwnnw. Dywedodd gweithwyr achos fod cyfathrebu gwael hefyd yn golygu nad oedd cleientiaid yn gwybod beth oedd yn digwydd gyda’u hadolygiad, na beth fyddai’n digwydd nesaf. Dywedodd gweithwyr achos fod angen i gleientiaid, yn eu barn hwy, ddeall cyfraith tai er mwyn bod mewn sefyllfa i gyflwyno adolygiad effeithiol.

146. Dywedodd y gweithwyr achos nad oedd pob awdurdod lleol yn cefnogi cleientiaid i wneud adolygiadau a bod llawer wedi methu â chyfeirio cleientiaid at asiantaethau allanol am gyngor a chefnogaeth. Ychwanegasant, yn eu profiad hwy, nad oedd rhai o weithwyr yr awdurdod lleol yn deall y Broses Adolygu, eu bod wedi methu â chydnabod cais am adolygiad heb ymwneud ag eiriolaeth, neu y byddent yn derbyn y cais am adolygiad yn bersonol, a arweiniodd at berthynas waith anodd. Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch amserlenni – yn benodol, dywedodd gweithwyr achos fod rhai awdurdodau lleol wedi pennu terfyn amser ar gyfer gwneud cais am adolygiad yn eithaf llym, ond yn aml nid oeddent wedi bodloni'r terfyn amser ar gyfer ymateb.

147. Dywedodd gweithwyr achos fod diffyg strwythur i rai Prosesau Adolygu awdurdodau lleol, gyda rhai adolygiadau achos yn cael eu gwrthdroi’n anffurfiol. Dywedasant fod camau o’r fath yn golygu nad oedd gan y cleient hawl i gael adolygiad yn unol â’r gyfraith, a theimlai’r gweithwyr achos fod cleientiaid agored i niwed yn agored i benderfyniadau gwael. Ar y llaw arall, ar adegau, yn hytrach na chywiro mater pan gafodd ei ganfod, gorfodwyd y cleient i ofyn am adolygiad a dilyn y Broses honno.

**ENGHRAIFFT O ACHOS** (a ddarparwyd gan Shelter Cymru)
Cafodd y Swyddog Digartrefedd wybod bod y cleient wedi treulio 8 wythnos ar y llawr.[31] Derbyniodd y swyddog Digartrefedd nad oedd hyn yn briodol. Dywedwyd wrth y cleient i ofyn am adolygiad. Ar ôl mynd drwy’r Broses Adolygu, cadarnhaodd y Swyddog Adolygu ei fod yn annerbyniol ac argymhellodd y dylid symud y cleient i lety arall.

148. Dywedodd y gweithwyr achos y gallai’r ansicrwydd ynghylch y Broses Adolygu achosi straen i gleientiaid. Roedden nhw’n ychwanegu bod hyd y broses ei hun, cyn COVID-19, yn peri heriau ychwanegol i gleientiaid, a oedd

[31] Cysgai ar fat neu fatres ar lawr hostel/adeilad.

yn poeni a fyddai'r ddarpariaeth llety dros dro yn parhau tra byddai'r adolygiad yn cael ei ystyried.  Hefyd, dywedodd gweithwyr achos fod pobl yn aml yn teimlo nad oedd ganddynt unrhyw ddewis, ond derbyn llety anaddas, neu eu bod yn teimlo dan bwysau i ddod o hyd i atebion eraill wrth aros i wneud adolygiad.  Ychwanegodd gweithwyr achos, yn eu profiad nhw, bod oedi nid yn unig wrth gynnal adolygiadau, ond hefyd oedi pan oedd penderfyniad yr adolygiad yn canfod bod y llety a ddarparwyd yn anaddas.  Arweiniodd hyn at ddadrithiad gyda'r gwasanaeth.

**ENGHRAIFFT O'R ACHOS** (a ddarparwyd gan Shelter Cymru)
Roedd Mrs X ond yn gallu mynd i fyny ac i lawr grisiau wrth eistedd, ac fe'i rhoddwyd mewn fflat ar y llawr cyntaf.  Er gwaethaf ei phryderon iechyd a diogelwch, cafodd Mrs X wybod bod yn rhaid iddi ofyn am adolygiad, a gymerodd dros 8 wythnos i'w gwblhau.

149. Dywedodd gweithwyr achos eu bod wedi dod ar draws nifer o rwystrau wrth gefnogi cleientiaid drwy'r Broses Adolygu.  Roedd llawer o weithwyr achos o'r farn bod y ffeiliau achos yn "bitw iawn", gyda dogfennau hanfodol ar goll.  Canfu gweithwyr achos eu bod yn aml yn gorfod gofyn dro ar ôl tro i'r awdurdodau lleol am wybodaeth, a oedd nid yn unig yn draenio adnoddau, ond bod y ceisiadau parhaus am estyniadau yn niweidio rhagolygon y cleient.  Dywedodd gweithwyr achos fod rhai awdurdodau lleol wedi newid eu meddalwedd yn ddiweddar. Roedd hyn wedi cyfyngu ar allu gwasanaethau eiriolaeth i gael mynediad at y cofnodion achos cyflawn ac wedi effeithio'n andwyol ar gleientiaid.

150. Dywedodd gweithwyr achos fod eiriolwyr a chleientiaid yn ei chael hi'n anodd cael gafael ar swyddogion digartrefedd, gyda llawer o gleientiaid yn methu â dod o hyd i'w swyddog digartrefedd dynodedig.  Dywedodd gweithwyr achos fod hyn wedi'i waethygu gan y newidiadau i'r broses yn dilyn pandemig COVID-19, pan gynhaliwyd y rhan fwyaf o asesiadau dros y ffôn ac, yn eu profiad nhw, bod nifer o achosion lle'r oedd cleientiaid wedi aros am wythnosau am ymateb neu asesiad, gyda rhai yn cael eu hasesu dim ond ar ôl i eiriolwr ymyrryd. Yn dilyn yr asesiad, ychwanegodd y gweithwyr achos nad oedd llawer o gleientiaid yn ymwybodol pa ddyletswydd, os o gwbl, oedd wedi cael eu derbyn.

151. Dywedodd gweithwyr achos, er mai cyfrifoldeb cychwynnol yr awdurdod lleol oedd casglu gwybodaeth berthnasol wrth gynnal asesiad digartrefedd, bod awdurdodau lleol yn rhoi'r cyfrifoldeb ar y cleient i ddarparu

tystiolaeth, yn enwedig tystiolaeth feddygol ategol, os oeddent am i'r cyflyrau iechyd hynny gael eu hystyried yn ystod y broses asesu. Byddai'r wybodaeth hon yn aml yn dod ar gost nad oedd y cleient yn gallu ei fforddio ac felly ni allai ei darparu. Ychwanegodd y gweithwyr achos fod rhai awdurdodau lleol yn anghyson o ran pa wybodaeth ategol roeddent yn gofyn amdani gan gleientiaid. Ar ben hynny, defnyddiodd rhai awdurdodau lleol lythyrau 'mynegi bwriad'[32] ond heb roi cyfle i'r cleient fynd i'r afael â'r materion a godwyd cyn anfon y llythyr 'diwedd dyletswydd'.[33]

152. Dywedodd y gweithwyr achos fod rhai awdurdodau lleol yn well nag eraill o ran gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer pobl â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Fodd bynnag, ers pandemig COVID-19, gallai hyn fod wedi cael effaith niweidiol, yn enwedig ar gyfer y rheini sydd ag anawsterau llythrennedd ac iaith.

153. Mynegodd gweithwyr achos bryderon am y tueddiad i ddibynnu ar asesiadau a chyfathrebu dros y ffôn a'r rhyngrwyd, yn enwedig ers pandemig COVID-19, wrth i'r cleientiaid hynny nad oedd ganddynt ffonau a'r rhyngrwyd gael eu heithrio'n ddigidol. Roeddent hefyd yn disgrifio'r anawsterau a gafodd cleientiaid wrth fynychu cyfarfodydd, yn enwedig os oedd lleoliad y cyfarfod mewn tref arall.

154. Dywedodd y gweithwyr achos fod rhai awdurdodau lleol wedi gwahodd sylwadau gan Shelter Cymru wrth wneud newidiadau i bolisi a gweithdrefnau ac eraill wedi ymgorffori Cynghorwyr Shelter Cymru yn y Canolfannau Opsiynau Tai, a oedd yn gymorth i gyfathrebu pan oedd newidiadau'n cael eu gwneud. Yn ogystal, darparodd rhai o'i swyddogion adborth ffurfiol a/neu anffurfiol ar y broses i'r awdurdodau lleol, yn uniongyrchol i'r penderfynwr neu drwy arweinwyr tîm. Fodd bynnag, teimlai'r gweithwyr achos nad oedd yr awdurdodau lleol bob amser yn dysgu o'u camgymeriadau ac, yn eu profiad hwy, nad oeddent yn rhannu unrhyw wersi gyda swyddogion Shelter Cymru.

155. Nodwyd, er bod pob awdurdod lleol wedi cael gwahoddiad i gymryd rhan ym mhrosiect "Cymryd Sylw" Shelter Cymru, nid oedd pob un ohonynt wedi manteisio ar y cyfle hwnnw.

---

[32]Llythyrau a oedd yn rhybuddio'r cleient ymlaen llaw am y penderfyniad, gan roi amser i'r cleient ddarparu gwybodaeth ychwanegol neu ofyn am gymorth cyfreithiol neu eiriolaeth.
[33]Llythyr sy'n dod ag unrhyw ddyletswydd sy'n ddyledus gan yr awdurdod lleol i letya'r cleient i ben yn ffurfiol.

156. O ran effaith pandemig COVID-19 ar gleientiaid, dywedodd gweithwyr achos, yn eu barn nhw, ei bod yn fwy anodd cael gafael ar wasanaethau, gan fod y broses wedi arafu a bod y newidiadau wedi achosi mwy o oedi gan nad oedd galwadau'n cael eu dychwelyd yn brydlon. Roedd gweithwyr achos yn teimlo bod y rheini nad oeddent yn gallu defnyddio ffôn neu sydd ag anawsterau cyfathrebu neu ddysgu yn wynebu mwy o heriau, gan eu bod yn delio â llais di-wyneb ac roedd pethau cynnil yn cael eu colli. Mynegodd gweithwyr achos bryderon hefyd ynghylch gallu cleientiaid i ddarparu gwybodaeth ddilysu a chaniatâd, yn enwedig heb fynediad at ffôn clyfar neu gyfrifiadur gyda sganiwr.

157. Ar y llaw arall, dywedodd gweithwyr achos fod hwylustod asesiadau dros y ffôn yn ei gwneud yn haws i rai cleientiaid gymryd rhan yn y broses, yn enwedig y rheini a oedd yn byw gryn bellter o'r Ganolfan Opsiynau Tai.

158. Roedd gweithwyr achos yn cydnabod bod ymateb Llywodraeth Cymru i bandemig COVID-19 wedi golygu bod pob cleient, gan gynnwys y rheini nad oedd dyletswydd arnynt, yn cael llety mewn llety dros dro. Fodd bynnag, mynegodd gweithwyr achos bryder gan fod llawer o'r llety dros dro yn anaddas neu nad oedd yn cynnwys y gefnogaeth angenrheidiol yr oedd ei hangen ar y cleientiaid ac, o ganlyniad, cafwyd nifer o achosion mewn rhai awdurdodau lleol lle'r oedd cleientiaid yn cael eu troi allan oherwydd eu hymddygiad. Dywedodd gweithwyr achos fod rhai awdurdodau lleol, yn eu profiad hwy, wedi gwrthod darparu llety i gleientiaid neu wedi dweud bod rhestr aros ar gyfer llety dros dro.

159. Dywedodd y gweithwyr achos hefyd, yn eu profiad nhw, fod rhai cleientiaid wedi'u lleoli yn yr hyn a gredent ei fod yn llety dros dro ac nad oeddent yn sylweddoli / ni chawsant eu hysbysu ei fod yn gynnig parhaol o lety o dan a73 HWA, a bod dyletswydd yr awdurdod lleol wedi'i chyflawni. O ganlyniad, roedd llawer o bobl wedi colli eu cyfle i adolygu pa mor addas oedd y penderfyniad.

160. Dywedodd gweithwyr achos fod llawer o'r penderfyniadau a adolygwyd, yn eu profiad hwy, yn ymwneud ag addasrwydd llety. Roedd rhywfaint o hyn wedi deillio o ddiffyg diwydrwydd dyladwy wrth gyfateb cleient i eiddo. Fodd bynnag, mae prinder opsiynau llety yn lleol a llwyth achosion mawr wedi arwain at rai swyddogion digartrefedd yn cynnig llety anaddas.

**ENGHRAIFFT O ACHOS** (a ddarparwyd gan Shelter Cymru)
Roedd Mrs Y yn fam sengl gyda mab (S) yn ei arddegau a oedd, ar ôl bod yn gysylltiedig â grŵp annymunol, yn cael ei gefnogi gan yr Heddlu i symud ymlaen a newid ei ffordd o fyw. Rhoddodd Mrs Y wybod i'r Cyngor am hanes S gyda'r Heddlu a rhoddodd ganiatâd i'r Cyngor gysylltu â'r Heddlu. Ni chafodd hyn ei ddilyn yn ddigonol gyda'r Heddlu a chafodd y teulu ei roi mewn llety drws nesaf i Mr Z, un o'r bobl y dywedodd yr Heddlu wrth S i'w osgoi. Er ei fod yn bygwth y teulu â thrais, bu'n rhaid iddo aros yn yr eiddo tra'r oedd y Broses Adolygu'n cael ei chynnal.

161. Teimlai gweithwyr achos nad oedd y cleient yn cael ei ystyried weithiau wrth gynnig llety. Roedd y cydbwysedd grym yn golygu bod cleientiaid yn teimlo "y dylent fod yn ddiolchgar" am unrhyw beth. Dywedodd gweithwyr achos fod rhai cleientiaid, yn eu profiad hwy, yn teimlo eu bod yn cael eu paratoi i fethu drwy gael eu rhoi mewn llety anaddas heb unrhyw gefnogaeth. Dywedodd y gweithwyr achos fod rhai o'u cleientiaid yn gorfod dewis rhwng gwaith a llety am eu bod wedi'u lleoli oddi wrth eu gwaith a'u rhwydweithiau cefnogi ac nad oedd ganddynt neb i'w helpu gyda chyfrifoldebau gofalu. Dywedodd gweithwyr achos bod adegau hefyd pan oedd y llety'n anaddas, ond nad oedd yr adolygiad yn llwyddiannus. Yn yr achosion hynny, gadawyd y cleient yn teimlo'n anniogel ac yn ddiymadferth.

**ENGHRAIFFT O ACHOS** (a ddarparwyd gan Shelter Cymru)
Cafodd cleient ei cham-drin yn y cartref a'i rhoi mewn llety ger teulu ei chyn-bartner, lle bu'n rhaid iddi aros, er ei bod yn byw mewn ofn.

162. Dywedodd gweithwyr achos, yn eu barn hwy, nad oedd y cynlluniau tai personol ("PHP")[34] a gafodd eu creu gan yr awdurdodau lleol yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Yn hytrach, roeddent yn aml yn cael eu 'torri a'u pastio' yn gyffredinol ac roedd nifer o achosion lle nad oedd cynlluniau'n ystyried anghenion a galluoedd y cleient. Dywedodd y gweithwyr achos fod y PHPau, yn eu barn hwy, yn ymarfer ticio blychau ac yn aml yn gosod dyletswyddau ar y cleient nad oedd modd eu cyflawni. Dywedodd y gweithwyr achos fod awdurdodau lleol, yn eu profiad hwy, wedi defnyddio methiant cleient i gyflawni'r rhwymedigaethau yn y PHP i ddod â'i ddyletswydd i ben, ond nid oedd unrhyw gosb i'r awdurdod lleol pan fethodd â chyflawni ei rwymedigaethau.

[34]Pan dderbynnir dyletswydd tai, bydd yr awdurdod lleol yn creu PHP gyda'r cleient. Set o dasgau/ymrwymiadau i'r cleient a'r awdurdod lleol eu cyflawni o fewn cyfnod penodol yw'r PHP.

163. Dywedodd y gweithwyr achos fod y penderfyniad i letya pawb yn ystod pandemig COVID-19 wedi arwain at gleientiaid yn mynegi pryderon eu bod wedi cael cyrffyw i ddychwelyd i'r llety neu wedi dweud bod y 'ddyletswydd wedi dod i ben' oherwydd eu bod wedi gadael y llety dros dro yn ystod y dydd. Dywedodd rhai cleientiaid eu bod wedi cael "ardaloedd tawel" lle gallent wneud eu hymarfer corff dyddiol[35]. Wedi dweud hynny, mynegodd y gweithwyr achos bryderon am westai eisiau eu hystafelloedd yn ôl pan ddychwelodd canllawiau Llywodraeth Cymru i'r rheini cyn COVID-19.

164. Cytunodd y gweithwyr achos, pan bennodd Canllawiau Llywodraeth Cymru bod digartrefedd ar y stryd yn 'angen blaenoriaethol', ei fod yn gam cadarnhaol, ond roeddent yn cydnabod bod angen i'r seilwaith fod yn ei le i ateb y galw. Dywedodd gweithwyr achos ei bod yn ymddangos mai llety dros dro oedd y flaenoriaeth a'r ffocws, yn eu barn hwy, yn hytrach na llety parhaol. Mynegwyd pryderon hefyd am y cynigion parhaus i Lywodraeth Cymru i greu blociau mawr o lety dros dro i bobl agored i niwed. Dywedodd y gweithwyr achos y gallai llety o'r fath droi'n getoau ac na ellid eu rheoli.

## Y Prosiect 'Cymryd Sylw'

165. Mae 'Cymerwch Sylw' yn brosiect cyfranogiad defnyddwyr gwasanaeth ledled Cymru a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r prosiect yn dod â phobl, sydd i gyd â phrofiad personol o argyfwng tai, at ei gilydd i ddweud eu dweud am wasanaethau tai a digartrefedd yng Nghymru, i ddylanwadu ar y rhai sy'n gwneud penderfyniadau ac i addysgu'r cyhoedd am achosion ac effeithiau digartrefedd.

166. Mae'r prosiect Cymryd Sylw yn seiliedig ar y gred mai pobl sydd â phrofiad personol o ddigartrefedd yw'r arbenigwyr yn eu profiad eu hunain. Dim ond drwy wrando arnynt a'u cynnwys yn y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau y gallwn ni greu systemau a gwasanaethau sy'n gallu diwallu eu hanghenion.

167. Mae 4 o gleientiaid sydd â phrofiad uniongyrchol wedi darparu gwybodaeth am eu taith drwy'r broses ddigartrefedd a'r effaith a gafodd ar eu bywydau (gweler Atodiad 7).

[35]Pan oedd llety myfyrwyr yn cael ei ddefnyddio fel llety dros dro i'r rheini a oedd yn wynebu digartrefedd yn ystod y pandemig, codwyd ffensys i wahanu llety myfyrwyr oddi wrth y llety dros dro.

168. Drwy werthuso gwasanaethau a darparu adborth, gall pobl â phrofiad uniongyrchol ddweud beth oedd wedi gweithio’n dda wrth ddarparu gwasanaethau, beth oedd angen ei wella a sut y gellid cyflawni hyn. Mae hyn yn rhoi cipolwg ar ansawdd a chysondeb gwasanaethau. Mae’r prosiect Cymryd Sylw wedi cynhyrchu taflen grynodeb ‘cyngor gorau’ i helpu awdurdodau lleol gyfathrebu (gweler Atodiad 10).

169. Roedd prosiect Cymryd Sylw yn rhoi arweiniad i nifer o awdurdodau lleol ar ysgrifennu llythyrau. Dywedodd fod llythyrau a baratowyd gan un awdurdod lleol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, yn cael eu hystyried yn esiampl. Mae copïau o’r llythyrau templed hynny ynghlwm yn Atodiad 8.

170. Mae Cymryd Sylw hefyd wedi bod yn gweithio gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar ‘arweiniad cam-wrth-gam’ ar gyfer ceisiadau digartrefedd, sy’n defnyddio lluniau i nodi camau’r broses. Yna, ychwanegir y lluniau hyn at ohebiaeth, sy’n ei gwneud yn haws i’r cleient nodi’r cam yn y broses y mae’r llythyr yn ymwneud ag ef. Mae copïau o’r dogfennau hynny ynghlwm yn Atodiad 9.

171. O ran y Broses Adolygu yn gyffredinol, dywedodd [36]prosiect Cymryd Sylw fod cleientiaid yn teimlo, er bod awdurdodau lleol yn cynnwys gwybodaeth am sut i ofyn am adolygiad yn eu llythyrau dyletswydd, nad ydynt yn gwneud dim mwy na chyflawni eu rhwymedigaeth statudol ar y lefel fwyaf sylfaenol. Nid oes dim byd arall yn cael ei gynnig i helpu’r derbynnydd i ddeall pa gymorth y gallai ei gael i ofyn am adolygiad, nac unrhyw gam cyfeirio a allai helpu pobl i fynd ar drywydd yr opsiwn adolygu. Mae enghreifftiau o sylwadau gan ddefnyddwyr gwasanaeth yn cynnwys:

- “gan bwy y dylwn i ofyn am adolygiad? Chi? Eich adran? A oes ffurflen y dylwn ofyn amdani? A oes rhywun yn eich swyddfa y gallaf ofyn iddynt am help? Oherwydd eich bod wedi dweud wrthyf na allwch fy helpu, rwy’n teimlo y gallai gofyn am eich help mewn adolygiad fod yn ddiwerth. A ydw i’n gofyn i Shelter, CAB[37] neu asiantaeth arall? Os felly, efallai y gallech fy helpu i fynd i’r cyfeiriad hwnnw?”
- “ni roddir cyngor ar asiantaethau a all helpu gydag adolygiad”

[36]Dylid nodi bod y sylwadau hyn yn berthnasol i Gymru gyfan ac nad ydynt yn ymwneud yn benodol â’r Awdurdodau Ymchwiliol.
[37] Cyngor ar Bopeth Cymru

- “ni chyfeiriwyd at unrhyw ffynonellau cyngor cyfreithiol, na p’un a fyddai hynny am ddim ai peidio”
- “er ei fod yn egluro’r hawl, nid oedd yn cynnig rhestr o sefydliadau a allai helpu h.y. Shelter, Cyngor ar Bopeth”

172. Dywedodd y prosiect Cymryd Sylw mai’r thema gyffredinol oedd bod pobl yn teimlo y byddai cymorth ychwanegol i herio penderfyniad yn hanfodol er mwyn caniatáu iddynt wneud hynny, gan fod cynnal adolygiad ar eu pen eu hunain, heb gymorth ychwanegol, yn brofiad brawychus.

173. Dywedodd y prosiect Cymryd Sylw fod y dyletswyddau a’r prosesau cyfreithiol yn creu anghydbwysedd pŵer lle nad oedd y cleient yn bartner cyfartal, oherwydd nad oes gan y cleient bob amser yr wybodaeth na’r hyder i herio heb gymorth ychwanegol. Pe bai awdurdodau lleol yn cydnabod hyn, gallent wneud rhywfaint i fynd i’r afael â’r anghydbwysedd drwy ymrwymo i wneud mwy na’r hyn sy’n ofynnol dan y gyfraith, a thrwy ddarparu gwasanaeth cyfeirio penodol ar gyfer cymorth mewn perthynas â’r Broses Adolygu.

174. Mewn ymateb i’r newidiadau a ddaeth yn sgil pandemig COVID-19, mae’r prosiect Cymryd Sylw wedi creu pecyn cymorth i swyddogion tai rheng flaen wrth weithio o bell (gweler Atodiad 10).

## Adolygiad o’r achosion a samplwyd o’r Awdurdodau Ymchwiliol

175. Dylid nodi bod pob Awdurdod Ymchwiliol wedi cael anawsterau wrth gasglu’r wybodaeth y gofynnwyd amdani. Cyfeiriodd 2 o’r awdurdodau lleol at anawsterau oherwydd nifer y systemau TG a ddefnyddiwyd a’r anawsterau wrth geisio cael gwybodaeth o’r system rheoli achosion digartrefedd. Soniodd un awdurdod lleol am anhawster gan ei fod yn dal i ddefnyddio system bapur.

176. Roedd ansawdd y cofnodion a ddarparwyd yn amrywio. Er bod digon o dystiolaeth yn y cofnodion a ddarparwyd gan Gyngor Sir Gâr i mi ddod o hyd i enghreifftiau o’r themâu a nodir isod, roedd llawer o’i ffeiliau achos yn anghyflawn i raddau helaeth, gyda llythyrau dyletswydd yn absennol yn bennaf ac ychydig iawn o dystiolaeth i gefnogi’r gwaith o asesu neu adolygu penderfyniadau.

177. O’r sampl o achosion y rhoddais ystyriaeth iddynt, nodais fod 3 dull gwahanol o ymdrin â’r Broses Adolygu Digartrefedd. Mae swyddogion adolygu un awdurdod lleol wedi’u lleoli mewn tîm ac adeilad sydd ar wahân i’r Tîm Opsiynau Tai. Swyddogion adolygu awdurdod lleol arall yw’r Arweinwyr Tîm Digartrefedd ond roeddent yn annibynnol ar reolaeth yr achos sy’n cael ei adolygu. Roedd gan y trydydd awdurdod lleol banel adolygu a oedd yn cynnwys cynghorydd cyfreithiol.

178. Cyfeiriaf isod at yr hyn a welais wrth archwilio cofnodion yr achos. Rwyf wedi rhoi sylwadau ar y dystiolaeth a welais yn y cofnodion ac ar wybodaeth na allwn ddod o hyd iddi. Nododd yr adolygiadau achos y themâu canlynol (mae rhai o’r themâu a nodwyd yn ymwneud yn uniongyrchol ag adolygiadau, tra bod eraill, yn fy marn i, wedi cyfrannu at geisiadau adolygu):

**Dim ystyriaeth amlwg o hawliau dynol wrth gynnal asesiad neu adolygiad digartrefedd**

179. Fel yr amlinellwyd ym mharagraff 22 a 23, mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i weithredu’n gyson ag ystyriaethau hawliau dynol wrth wneud penderfyniadau (gan gynnwys penderfyniadau am ddigartrefedd), ond nid oedd tystiolaeth yn y ffeiliau achos ym mhob un o’r 3 awdurdod yr ymchwiliwyd iddynt o naill ai’r asesiad neu’r swyddogion adolygu yn ystyried hawliau dynol y cleient, yn enwedig eu hawliau Erthygl 8, wrth wneud penderfyniadau. Mae enghreifftiau o adolygiad achos mewn perthynas â hyn yn cynnwys cleientiaid yn cael eu lleoli mewn eiddo ger cyn-bartneriaid treisgar (o bosibl yn torri eu hawliau Erthygl 8) neu gysylltiadau troseddol blaenorol, er bod gan y swyddog achos wybodaeth flaenorol am y materion hyn.

**Dim ystyriaeth amlwg o ddyletswyddau’r awdurdod lleol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010**

180. Yn yr un modd â hawliau dynol, mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i ystyried yr hawliau a’r amddiffyniad a roddir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 wrth wneud penderfyniadau (fel yr amlinellir ym mharagraff 24). Unwaith eto, nid oedd tystiolaeth yn ffeiliau achos y 3 awdurdod yr ymchwiliwyd iddynt o naill ai’r swyddog asesu neu’r swyddog adolygu yn ystyried y ddyletswydd hon wrth wneud penderfyniad. Mae enghreifftiau o adolygiadau achos mewn perthynas â hyn yn cynnwys

methiannau i ystyried yn ddwys anghenion pobl â nodweddion gwarchodedig, fel pobl mewn grwpiau ethnig penodol, gan gynnwys y gymuned teithwyr a phobl ag anghenion iechyd corfforol a meddyliol a allai fod angen llety penodol, wedi'i gefnogi neu ei addasu.[38]

**Oedi**

181. Sylwais ar oedi drwy gydol y Broses Asesu ac Adolygu yn y 3 awdurdod yr ymchwiliwyd iddynt. Cafwyd enghreifftiau ar draws y 3 awdurdod o oedi wrth asesu angen blaenoriaethol, oedi wrth ddarparu llety i gleientiaid ac oedi wrth gynnal adolygiadau. Mae oedi o'r fath yn cael effaith sylweddol ar y cleient a'i allu i gael gafael ar wasanaethau a symud ymlaen.

182. Dylid ystyried angen blaenoriaethol pan fydd y cleient yn cyflwyno'i hun fel rhywun digartref a bod dyletswydd wedi'i derbyn, ac eto roedd un awdurdod wedi methu'n gyson ag ystyried angen blaenoriaethol hyd nes y byddai dyletswydd adran 75 i ddarparu llety sefydlog yn bodoli. Ar ben hynny, roedd enghreifftiau o gleientiaid yn gofyn am adolygiad o benderfyniad ynghylch angen blaenoriaethol (efallai mai'r canlyniad fyddai mynediad at lety dros dro) a bod oedi sylweddol wrth wneud y penderfyniad hwnnw.

183. Cafwyd enghreifftiau hefyd o gleientiaid a oedd dan fygythiad o ddigartrefedd yn gofyn i'r awdurdod lleol am gymorth. Nodwyd y byddai'r awdurdodau lleol, ar ôl iddynt fod yn aflwyddiannus o ran atal troi allan neu derfynu'r denantiaeth, yn cynghori'r cleient i aros yn y fan a'r lle a gadael i'r landlord fynd â'r mater i'r Llys am rybudd, ac eto am orchymyn beili; dywedwyd wrthynt y byddent yn cael eu hystyried yn fwriadol ddigartref pe byddent yn gadael yr eiddo. Achosodd hyn ddirywiad yn y berthynas rhwng y landlord a'r cleient, gyda llawer o gleientiaid yn mynd yn ofni eu landlordiaid ac, mewn rhai achosion, hysbysiad gan y landlord na fyddent yn derbyn mwy o denantiaid a oedd yn ddigartref neu'n derbyn budd-daliadau. Ar ben hynny, arweiniodd hyn at y landlord a'r tenant yn wynebu costau diangen a allai fod wedi bod yn anfforddiadwy yn achos y tenant.

184. Yn olaf, cafwyd enghreifftiau o oedi wrth gynnal yr adolygiad neu wrth wneud penderfyniad adolygu. Nodwyd bod nifer o geisiadau adolygu wedi cymryd dros 56 diwrnod i'w hystyried. Mae'r arfer hwn yn awgrymu camweinyddu a allai, yn fy marn i, achosi anghyfiawnder i ddefnyddwyr

[38]R (Bernard) v Bwrdeistref Enfield, Llundain

gwasanaeth. Mewn un achos, ni ystyriwyd yr adolygiad am 5 mis, a oedd yn peri niwed sylweddol i'r cleient, yn enwedig gan fod y penderfyniad gwreiddiol wedi cael ei wrthdroi yn y pen draw.

**Materion sylweddol yn cael eu methu yn ystod y broses asesu**

185. Dywedodd swyddogion awdurdodau lleol fod y cleient, yn aml, wedi methu â darparu gwybodaeth berthnasol yn ystod y broses asesu (gweler paragraffau 103 a 133). Fodd bynnag, nodais o'm hadolygiad o'r ffeiliau achos, hyd yn oed pan fo'r wybodaeth am y cleient a'i deulu wedi'i chynnwys, nad oedd bob amser yn cael ei hystyried wrth wneud penderfyniadau, yn enwedig mewn perthynas ag angen blaenoriaethol. Nodwyd hefyd bod rhai penderfyniadau'n cael eu gwneud heb ofal dyladwy priodol ac, o ganlyniad, bod penderfyniadau o ddigartref bwriadol yn cael eu gwneud a'u gwrthdroi wedyn yn yr adolygiad. Effaith y penderfyniadau hyn oedd nad oedd gan y cleient le i fynd. Mae enghreifftiau hefyd o anghenion iechyd corfforol a meddyliol nad ydynt yn cael eu harchwilio ymhellach gyda'r cleient neu eu clinigwyr, gan arwain at benderfyniadau ar ddyletswydd, angen blaenoriaethol a llety dros dro yn cael eu gwneud a'u gwrthdroi wedyn. Yn y cyfamser, roedd y cleientiaid hynny naill ai heb lety neu wedi'u lleoli mewn llety anaddas lle nad oedd modd diwallu eu hanghenion, lle roedd tenantiaethau wedi methu, neu lle roedd cleientiaid wedi dioddef effaith andwyol ar eu hiechyd corfforol a meddyliol. Pan nad yw gwybodaeth berthnasol yn cael ei hystyried yn gyson, nid yw penderfyniadau'n cael eu gwneud yn iawn ac mae hyn yn golygu camweinyddu systemig sydd, yn fy marn i, yn debygol o achosi anghyfiawnder i ddefnyddwyr gwasanaeth.

**Cynllun Tai Personol (PHP) Cyffredinol / annigonol**

186. Dylai PHP ganolbwyntio ar yr unigolyn, gan ystyried anghenion a chyfyngiadau'r cleient. Er fy mod yn derbyn y bydd llawer o'r camau i'w cymryd gan y ddwy ochr yn debyg ym mhob achos, canfu adolygiad o'r PHPau eu bod yn gyffredinol eu natur yn aml, heb gyfeirio at anghenion asesedig y cleient. Unwaith eto, ystyriaf fod hyn yn gamweinyddu systemig a allai arwain at anghyfiawnder i ddefnyddwyr gwasanaeth. Wedi dweud hynny, nodwyd bod rhai o'r PHPau a gafodd eu creu gan Gyngor Sir Gâr wedi ceisio creu cynllun mwy personol a rhoi mwy o arweiniad i gleientiaid ar fforddiadwyedd.

**Annog cleientiaid i ofyn am adolygiadau yn hytrach na grymuso swyddogion digartrefedd i unioni pethau**

187. Mae'r Broses Adolygu'n bwysig, gan ei fod yn gyfle i'r cleient fynegi anfodlonrwydd â'r penderfyniad a, phan fydd penderfyniad yn anghywir, mae'n gyfle i ddysgu a rhannu gwersi. Wedi dweud hynny, mae'n ymddangos bod dibyniaeth ar y Broses Adolygu, gan ddisgwyl i gleientiaid wneud cais am adolygiad, a allai gymryd hyd at 56 diwrnod (ac yn hwy weithiau) pan fyddai'r swyddog achos digartrefedd yn gallu datrys materion yn gyflym drwy holi adran arall o'r awdurdod lleol neu drydydd parti. Pan fydd yn amlwg bod penderfyniad yn anghywir, dylid ei gywiro cyn gynted â phosibl. Mae peidio â gwneud hynny, a gorfodi cleientiaid yn hytrach i gyflwyno cais am adolygiad a disgwyl canlyniad, yn fy marn i, yn gamweinyddu systemig ac yn anghyfiawnder i ddefnyddwyr gwasanaeth.

**Cyfathrebu gwael**

188. Mae adolygiadau achos wedi nodi enghreifftiau o gyfathrebu gwael drwy gydol y Broses Asesu ac Adolygu ym mhob un o'r 3 Awdurdod yr Ymchwiliwyd iddynt.

189. Nodaf fod rhai awdurdodau lleol yng Nghymru wedi ymdrechu i sicrhau bod y templedi a ddefnyddir i ysgrifennu at gleientiaid yn gwneud y llythyrau'n glir ac yn ddealladwy. Yn anffodus, er gwaethaf yr ymdrechion hyn, mae llythyrau'n aml yn ddryslyd ac, mewn rhai achosion, mae'r cleient yn cael gwybod am hawl yr adolygiad ond nid yw'r penderfyniad ei hun yn glir.

190. Mae Cymru yn wlad aml-ddiwylliant. I lawer o gleientiaid, nid Cymraeg na Saesneg yw eu hiaith gyntaf. Hefyd, mae pobl yng Nghymru sydd ag anawsterau llythrennedd. Canfu'r adolygiad achos enghreifftiau o bobl o'r fath yn cael trafferth deall yr ohebiaeth am ddigartrefedd ac, o ganlyniad, ddim yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau na chanlyniadau penderfyniadau a wnaed, ac eto nid wyf wedi gweld unrhyw dystiolaeth bod yr ohebiaeth hon ar gael mewn fformatau eraill megis 'Hawdd ei Darllen'[39].

[39] Mae 'Hawdd ei Ddarllen' yn cyfeirio at gyflwyno testun mewn fformat hygyrch a hawdd ei ddeall. Mae'n aml yn ddefnyddiol ar gyfer helpu pobl ag anableddau dysgu a gall hefyd fod yn fuddiol i bobl sydd â chyflyrau eraill sy'n effeithio ar y ffordd y maent yn prosesu gwybodaeth.

191. Roedd yn destun pryder arbennig canfod achosion lle'r oedd y swyddogion yn nodi bod y cleient wedi cael anawsterau deall, ond nid oedd tystiolaeth bod y swyddog yn gwneud unrhyw waith ychwanegol i sicrhau bod y cleient yn deall eu rhwymedigaethau a'u hawliau. Roedd hefyd yn destun pryder nad oedd unrhyw dystiolaeth bod y cleientiaid hyn wedi cael eu cyfeirio am gymorth ychwanegol i'w cynorthwyo.

192. Mae enghreifftiau hefyd o lythyrau'n cael eu hanfon at gleientiaid nad ydynt yn nodi canlyniadau gweithred benodol, er enghraifft y bydd y ddyletswydd digartrefedd yn dod i ben os bydd eiddo'n cael ei wrthod yn dilyn cynnig llety o dan adran 75 HWA. O ganlyniad, cafodd y cleient sioc yn ddiweddarach o gael gwybod bod y ddyletswydd wedi dod i ben a'i fod wedi cael gwybod pam.

**Addasrwydd llety**

193. Mae'n ymddangos bod y rhan fwyaf o'r ceisiadau am adolygiad a welais yn ymwneud ag addasrwydd llety dros dro a pharhaol. Fodd bynnag, yn fy marn i, llety anaddas yw'r rheswm hefyd pam fod llawer o denantiaethau'n methu a bod yr awdurdodau lleol yn dod â'u dyletswyddau i ben.

194. Gall llety fod yn anaddas i gleient am sawl rheswm: lleoliad, maint, anghenion anabledd. Er fy mod yn derbyn, mewn rhai achosion, nad yw'n bosibl diwallu holl anghenion a dymuniadau'r cleient, dylid eu harchwilio a'u hystyried yn llawn o leiaf wrth gynnig llety dros dro a pharhaol.

195. Roedd yn dorcalonnus gweld nifer o achosion lle'r oedd dioddefwyr cam-drin domestig yn cael eu lleoli mewn eiddo ger y cyflawnwr neu bobl sy'n gysylltiedig â'r cyflawnwr, neu lle'r oedd cleientiaid a oedd wedi bod drwy raglen ailsefydlu neu a gefnogwyd gan yr Heddlu i newid eu hymddygiad yn cael eu lleoli mewn ardaloedd lle'r oedd nifer fawr o ddefnyddwyr cyffuriau neu'n agos at droseddwyr blaenorol. Mae hyn eto'n dystiolaeth nad yw gwybodaeth berthnasol wedi'i hystyried a bod penderfyniadau'n cael eu cymryd yn gamweinyddu, gan arwain at anghyfiawnder i ddefnyddwyr gwasanaeth.

196. Roeddwn hefyd yn siomedig o nodi nifer y cleientiaid a oedd yn cael eu lleoli mewn llety a oedd mor bell o'u rhwydweithiau cefnogi nad oeddent yn gallu gweithio gan nad oedd ganddynt neb i'w helpu i ofalu am eu plant

ac, er enghraifft, danfon a nôl y plant o'r ysgol, neu nad oeddent yn gallu cyflawni cyfrifoldebau gofalu eraill pe bai'r person yr oeddent yn gofalu amdano yn byw'n rhy bell i ffwrdd.

197. O ran y llety ei hun, roedd yn amlwg mai ychydig o lety oedd ar gael i deuluoedd mwy, gyda rhai cleientiaid yn gorfod defnyddio lle byw fel ystafelloedd gwely. Hefyd, ychydig iawn o lety dros dro a pharhaol sydd wedi cael ei addasu ar gyfer pobl anabl. Mae'r rhain yn faterion sydd nid yn unig yn ymwneud â dyletswyddau Deddf Cydraddoldeb 2010, ond sydd hefyd yn codi materion iechyd a diogelwch i'r cleientiaid.

**Pobl agored i niwed nad ydynt yn cael cymorth**

198. Ymddengys bod cleientiaid agored i niwed a chleientiaid ag anghenion cymhleth wedi cael eu grwpio gyda'i gilydd mewn llety heb gefnogaeth ddigonol, sy'n eu gwneud yn agored i gael eu hecsbloetio a chamddefnyddio sylweddau. Cafodd llawer eu troi allan am nad ydynt wedi cael eu cefnogi'n ddigonol drwy'r tenantiaethau.

199. Roedd penderfyniadau ynghylch 'bwriadoldeb'[40] neu 'derfynu dyletswyddau am beidio â chydymffurfio'[41] yn cael eu gwneud heb ganfod yn gyntaf y rheswm dros ymddygiad ac archwilio pam nad oedd cleientiaid wedi ymgysylltu â'r broses ac a oedd hyn oherwydd diffyg cefnogaeth neu ddealltwriaeth. Mae hyn yn gamweinyddu a allai, yn fy marn i, achosi anghyfiawnder i ddefnyddwyr gwasanaeth. Mewn llawer o'r achosion hyn, ychydig iawn o gefnogaeth, os o gwbl, a gafodd y cleientiaid gyda'u hanghenion ac yn aml nid oeddent yn deall nac yn gallu deall eu cyfrifoldebau a'r canlyniadau.

200. Yn ystod y Broses Adolygu digartrefedd, roedd hi'n amlwg o'r dystiolaeth a oedd ar gael bod gan lawer o'r cleientiaid hyn esboniadau rhesymol a bod y penderfyniadau wedi cael eu gwrthdroi. Er enghraifft, canfuwyd bod cleient oedrannus yn fwriadol ddigartref, am ei bod wedi gadael cartref y teulu ar ôl cael gwybod bod ei gŵr wedi cael ei gyhuddo o gam-drin plant. Dywedodd y cleient nad oedd ganddi ddewis heblaw gadael y cartref priodasol, gan fod ei gŵr wedi gwrthod gadael y cartref. Roedd y

[40]Er mwyn i ddigartrefedd fod yn fwriadol, rhaid i'r weithred neu'r anwaith a arweiniodd at golli llety fod wedi bod yn fwriadol.
[41]Os bydd cleient yn methu â chydymffurfio â'r camau a amlinellir yn ei PHP.

cleient wedi bod yn ‘syrffio soffas’ ers sawl mis a thybiwyd ei fod yn fwriadol ddigartref hyd nes y cynhaliwyd yr adolygiad. Roedd y methiant i ystyried y wybodaeth hon yn gyfystyr â chamweinyddu ac mae’n debygol o fod wedi achosi anghyfiawnder i’r cleient.

**Methiant i reoli disgwyliadau’r cleient**

201. Roedd yn amlwg o’r adolygiad achos fod gan lawer o gleientiaid ddisgwyliadau afrealistig ynghylch pa lety y gallai’r awdurdod lleol ei ddarparu; mae’n annhebygol y byddai’r awdurdod lleol mewn sefyllfa i ddyrannu tŷ 5 ystafell wely gyda 2 ystafell ymolchi i gleient, gardd a dreif ar stryd benodol (fel y gofynnwyd mewn un enghraifft). Mae’r llety’n gyfyngedig ac mae ardaloedd ym mhob awdurdod lleol lle mae trosiant yr eiddo’n uwch nag eraill. Mae methu â rheoli disgwyliadau cleientiaid yn aml yn arwain at ofyn am adolygiadau, gan nad yw’r cleient yn ymwybodol o’r hyn y gallai fod ganddo hawl iddo ac yna’n anhapus gyda lleoliad neu faint yr eiddo.

202. Nodir hefyd bod y swm cyfyngedig o stoc tai cymdeithasol wedi golygu bod awdurdodau lleol yn dibynnu mwy ar y sector rhentu preifat. Fodd bynnag, mae llawer o gleientiaid yn gwrthod ystyried llety rhent preifat, gan ddweud eu bod eisiau 'tŷ cyngor'. Ymddengys nad yw cleientiaid yn ymwybodol o’r anhawster a’r tebygolrwydd o gael tai cymdeithasol, yn enwedig os oes gan y cleient ôl-ddyledion rhent blaenorol neu anghenion penodol nad yw’r awdurdod lleol yn gallu eu diwallu, er enghraifft, byddent ond yn ystyried eiddo mewn ardal lle nad oes trosiant, neu lle mae trosiant isel, o eiddo tai cymdeithasol.

203. O ran statws ‘angen blaenoriaethol’, roedd llawer o gleientiaid wedi methu â sylweddoli, er bod manteision a chefnogaeth ychwanegol yn gysylltiedig â’r statws hwn, bod y rhain yn aml wedi’u cyfyngu i ddarparu llety dros dro a dyletswydd estynedig o dan adran 27 HWA.

## Enghreifftiau o Arferion Da a nodwyd yn ystod yr ymchwiliad

204. Er bod y themâu a nodwyd uchod yn peri pryder, roedd yn hanfodol bod fy ymchwiliad hefyd yn sicrhau y byddai’r arferion da a nodwyd hefyd yn cael eu rhannu i’w hystyried gan bob awdurdod lleol ledled Cymru, er mwyn gallu hunan-fyfyrio a gwella gwasanaethau. Yn ystod yr ymchwiliad hwn, nodwyd yr arferion da canlynol gan yr Awdurdodau yr Ymchwiliwyd iddynt:

205. ‘Amgylchedd a Hysbyswyd yn Seicolegol’ a hyfforddiant ‘ar sail trawma’ i swyddogion digartrefedd (gweler paragraff 43).

206. Adnewyddu’r Ganolfan Opsiynau Tai i sicrhau ei bod yn glynu wrth egwyddorion ‘PIE’. Roedd hyn yn cynnwys cyflogi derbynyddion yn lle swyddogion diogelwch i groesawu cleientiaid i’r adeilad, gan sicrhau bod y profiad yn llai brawychus.

207. Integreiddio effaith COVID-19 ar angen person yn rhaglen hyfforddi’r swyddogion digartrefedd.

208. Cymryd rhan yn y prosiect ‘Cymryd Sylw’[42] a oedd yn rhoi adborth ar lythyrau templed digartrefedd.

209. Llunio taflen ffeithiau (gweler atodiad 6) am y broses asesu a’i dyletswyddau, sydd wedi’i chynnwys gyda’r holl lythyrau penderfyniad a, chyn pandemig COVID-19, oedd ar gael yn y Ganolfan Opsiynau Tai.

210. Defnyddio llythyrau ‘mynegi bwriad’ i roi gwybodaeth i gleientiaid am hynt eu hachos ac i nodi pa benderfyniad sy’n debygol o gael ei wneud. Mae hyn yn rhoi amser i’r cleient ddarparu gwybodaeth ychwanegol neu geisio cyngor cyfreithiol pellach cyn gwneud y penderfyniad ei hun.

211. Rhoi llythyr wedi’i ddiweddaru i gleientiaid pan fyddant wedi newid eu dewis dros y ffôn (yn dilyn adborth gan y Swyddog Adolygu).

212. Adroddiadau ansawdd manwl, gan edrych ar sylwadau a chwynion bob chwarter. Mae hyn yn annog cydweithio agos ag adrannau eraill, gan fabwysiadu agwedd gyfannol ac amlddisgyblaethol tuag at achosion.

213. Cyflwyno Archwilydd a Mentor Digartrefedd, sy’n gyfrifol am archwilio pob rhan o’r gwasanaeth i sicrhau cysondeb a safonau uchel, gwirio’r penderfyniadau cyfreithiol a wneir gan Swyddogion Digartrefedd a Swyddogion Atal, awdurdodi lleoli cleient mewn llety brys dros dro a nodi tueddiadau a gwneud argymhellion ar gyfer anghenion a gwelliannau hyfforddi, yn ogystal ag enghreifftiau o arferion da.

---

[42] Gweler paragraff 169

214. Gweithio mewn partneriaeth â gwasanaethau digartrefedd eraill, i sicrhau ymyrraeth gynnar lle bynnag y bo modd, gan gynnwys cydleoli cynrychiolwyr o Shelter Cymru, The Wallich, Cymdeithasau Tai, Gwasanaethau Ieuenctid a Gwasanaethau Cam-drin Domestig o fewn y Gwasanaeth Opsiynau Tai i ddarparu cymorth a chyngor yn y fan a'r lle ar faterion sy'n ymwneud â thai, digartrefedd a dyled.

215. Creu fforwm digartrefedd i sicrhau gweithio mewn partneriaeth gyda phob asiantaeth yn y sir, i edrych ar ffyrdd arloesol o atal a lliniaru digartrefedd.

216. Ymgorfforі set o werthoedd ar draws yr holl swyddogaethau opsiynau tai.

217. Gweithio i ganfod ymgeiswyr yr oedd angen llety addas neu wedi'i addasu arnynt i ddiwallu eu hanghenion, neu'r rheini yr oedd angen addasu eu cartrefi.

218. Creu 'hyb' o gynghorwyr a phartneriaid arbenigol i ddarparu:

- Cyngor a chymorth manwl i atal digartrefedd neu i ddod o hyd i lety arall.
- Cefnogaeth i ailgartrefu pobl anabl a'r rheini sydd â phroblemau iechyd difrifol.
- Cefnogaeth i denantiaid a landlordiaid yn y sector rhentu preifat.
- Cefnogi pobl yn eu cartrefi eu hunain drwy hwyluso addasiadau a gwaith gwella hanfodol arall.

219. Rheoli 'asiantaeth gosod tai cymdeithasol' fewnol i helpu i gael gafael ar lety addas yn y sector rhentu preifat.

220. Symud i gynllun gosod sy'n seiliedig ar ddewis, a oedd yn golygu bod eiddo ar gael i bawb a llai o geisiadau adolygu yn seiliedig ar addasrwydd, gan fod cleientiaid yn derbyn eiddo y mae ganddynt wir ddiddordeb ynddo. Gellir gwneud datganiadau o ddiddordeb naill ai ar-lein, yn un o ganolfannau'r Cyngor, dros y ffôn neu wyneb yn wyneb. Dywedodd y Cyngor y byddai hefyd yn derbyn datganiadau o ddiddordeb gan eiriolwyr ar ran pobl agored i niwed.

221. Swyddogion yn trafod cynnwys y llythyr gyda'r cleient cyn ei gyhoeddi, er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei ddeall.

222. Darparu gwasanaeth y tu allan i oriau ac agor y Llinell Gyngor am Dai ar fore Sadwrn yn ystod pandemig COVID-19.

223. Cyflwyno gwasanaeth tai integredig sy'n targedu'r bobl hynny, sydd dros 25 oed ac sydd ag anghenion cymhleth, sydd angen llety gyda chefnogaeth. Roedd y llety'n cynnwys llety â chymorth a llety 2/3/4 ystafell wely a rennir, yn y gymuned. Nod y gefnogaeth a gynigir yw sefydlogi ymddygiad a chefnogi'r unigolyn i ddatblygu'r hyder, y sgiliau a'r gallu sydd eu hangen i fyw'n annibynnol ac yn llwyddiannus yn eu cartrefi ac yn y gymuned a symbylu'r cleientiaid hynny i wneud newidiadau cadarnhaol yn eu bywydau, pan fyddant yn barod.

224. Creu Gwasanaeth Cefnogi Lles Meddyliol, a luniwyd i gefnogi unigolion nad oedd eu hanghenion yn ddigon hanfodol i fod yn gymwys i gael gofal/cymorth yn dilyn asesiad o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, ond sydd â phroblemau lles meddyliol y mae angen eu datrys.

225. Cyfarfod yn rheolaidd â rhanddeiliaid i drafod achosion a chanlyniadau.

## Sylwadau ar yr adroddiad drafft

**Cyngor Caerdydd**

226. Dywedodd y Cyngor ei fod yn falch o nodi bod yr adroddiad yn cydnabod rhai arferion da yr oedd eisoes wedi'u mabwysiadu. Dywedodd ei fod hefyd eisoes yn cydymffurfio â rhai o'r argymhellion yn yr adroddiad ac yn darparu tystiolaeth o wneud hynny.

227. Mewn ymateb i gael ei adnabod fel awdurdod lleol gyda nifer uchel o geisiadau adolygu, dywedodd y Cyngor ei fod yn adolygu ei arferion er mwyn gwella gwasanaethau lle bo angen. Dywedodd hefyd ei fod yn rhannu arferion da, er enghraifft, cyfathrebu da am hawliau adolygu a gwasanaethau eiriolaeth sy'n galluogi cleientiaid i herio penderfyniadau.

## Cyngor Sir Gâr

228. Derbyniodd y Cyngor ei fod wedi cael anhawster i gasglu'r dystiolaeth y gofynnwyd amdani ar gyfer yr ymchwiliad hwn. Dywedodd ei fod yn cael trafferth cael gwybodaeth o'r system rheoli achosion digartrefedd a'i fod yn bwriadu mynd i'r afael â hyn mewn cynllun gweithredu y mae'n ei ddatblygu fel ymateb uniongyrchol i'r ymchwiliad hwn.

229. Cydnabu'r Cyngor nad oedd, ym mhob achos, yn darparu ffeiliau achos digartrefedd cyflawn i'm hymchwiliad. Dywedodd mai camgymeriad ar ei ran oedd hyn.

230. Cytunodd y Cyngor i weithredu'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad hwn.

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

231. Dywedodd y Cyngor fod y staff a gyfwelwyd yn ystod yr ymchwiliad yn rhoi cyfrif o'r gwasanaeth fel ag yr oedd bryd hynny ac nad oedd yn darparu manylion ynghylch sut mae'r Gwasanaeth Opsiynau Tai wedi gweithio cyn y pandemig. Dywedodd y Cyngor ei fod, cyn y pandemig, wedi sefydlu cysylltiadau â sefydliadau trydydd sector, gan gynnwys staff o'r sefydliadau hynny sy'n gweithio o swyddfeydd y Cyngor yn rheolaidd. Dywedodd y disgwylid, wrth i'r gwasanaeth ailagor, y byddai'r trefniant hwn yn ailddechrau.

232. Cydnabu'r Cyngor, er nad oedd yn cyfeirio'n benodol at ystyried cydraddoldeb a hawliau dynol yn ei ddogfennaeth, ei fod yn rhan o'i ddarpariaeth gwasanaeth o ddydd i ddydd; er enghraifft, darparu bwyd halal i'r rhai mewn gwesty. Dywedodd y bydd yn cymryd camau i ddiweddaru ei weithdrefnau ysgrifenedig i gyfeirio at ystyriaethau cydraddoldeb a hawliau dynol. Dywedodd y Cyngor ei fod bellach yn cynnwys manylion unrhyw ddyletswydd barhaus mewn llythyrau penderfyniadau adolygu.

233. Dywedodd y Cyngor bod ei swyddogion gwneud penderfyniadau ac adolygu yn cwblhau modiwlau hyfforddiant gorfodol ym maes cydraddoldeb a hawliau dynol. Dywedodd hefyd y byddai'n diwygio gwaith papur perthnasol i gyfeirio'n benodol at ystyriaethau cydraddoldeb a hawliau dynol.

234. Dywedodd y Cyngor ei fod eisoes wedi dechrau prosiect i greu fersiynau Hawdd eu Darllen o ddogfennau. Darparodd gopi o'i Gytundeb Meddiannaeth Hawdd ei Ddarllen ar gyfer llety dros dro fel tystiolaeth. Dywedodd y Cyngor ei fod bob amser wedi dilyn Canllawiau Llywodraeth Cymru mewn gohebiaeth digartrefedd safonol ond y bydd yn gweithio gyda chydweithwyr perthnasol i ddiwygio gohebiaeth a chanfod gohebiaeth enghreifftiol yn unol â hynny.

235. Dywedodd y Cyngor ei fod eisoes yn defnyddio testunau i gyfathrebu â chleientiaid ac y byddai'n gweithio i symud ymlaen gyda dulliau eraill, fel WhatsApp. Dywedodd y byddai effeithiolrwydd dulliau cyfathrebu amgen yn dibynnu ar ddarpariaeth rhwydwaith a gallu ariannol rhai cleientiaid i gael mynediad at y dyfeisiau angenrheidiol.

236. Dywedodd bod rhai aelodau o'r Tîm Opsiynau Tai eisoes wedi cwblhau hyfforddiant Amgylchedd sy'n Wybodus o Safbwynt Seicolegol. Dywedodd y byddai hyfforddiant pellach yn cael ei ddarparu a'i ymestyn i bob aelod o'r tîm. Dywedodd y byddai'n defnyddio'r sgiliau newydd i lywio'r adolygiad o'i ohebiaeth.

237. Dywedodd y Cyngor nad oedd bob amser wedi cysylltu â meddygon teulu ar ran cleientiaid yn y gorffennol, ond roedd yn arferiad y bydd yn ceisio ei weithredu ar bob achos perthnasol.

238. Mewn perthynas â'r argymhelliad i greu map tai cymdeithasol rhyngweithiol ar gyfer cleientiaid, dywedodd y Cyngor y byddai'n ystyried hyn, ond y byddai'n dod yn brosiect annibynnol, gan y byddai'n cynnwys cydweithwyr mewn gwasanaethau eraill. Dywedodd hefyd y gallai hyn gymryd mwy na 6 mis i'w gwblhau ac y byddai angen ystyried materion yn ymwneud â hygyrchedd a chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

## Fy Sylwadau ar yr Ymchwiliad

239. Cyn dod i gasgliadau mewn perthynas â 6 elfen cwmpas yr ymchwiliad (gweler paragraff 17), teimlaf ei bod yn bwysig crybwyll rhai sylwadau cyffredinol a phryderon a ddeilliodd o'r ymchwiliad hwn.

240. Mae’n destun pryder nad oedd gwybodaeth hanfodol ar gael yn rhwydd i swyddogion ac, o bosibl, i eiriolwyr a chleientiaid, yn enwedig o ystyried natur amser-sensitif rhai ceisiadau ac adolygiadau digartrefedd.

241. Mae’r anghysondeb yn y dull gweithredu a nodwyd gennyf wedi arwain at ystyried a fyddai rôl y Rheoleiddiwr Tai yng Nghymru yn ychwanegu gwerth at y prosesau digartrefedd, drwy weithredu i gefnogi awdurdodau lleol, darparu canllawiau i sicrhau cysondeb ac i fynd i’r afael â phryderon. Er mai fy rôl i yw ystyried cwynion gan aelodau o’r cyhoedd ac ymchwilio i faterion camweinyddu systemig drwy fy mhwerau ‘symbyliad fy hun’, fy marn i yw y byddai sefyllfa’r rheoleiddiwr i fonitro materion Tai a Digartrefedd yng Nghymru yn ddefnyddiol o ran arwain ymarfer awdurdodau lleol a mynd i’r afael â’r mater allweddol o anghysondeb yn y dull gweithredu y deuthum ar ei draws yn yr ymchwiliad hwn.

## Casgliadau

242. Byddaf yn awr yn rhoi sylw i bob un o’r 6 elfen a amlinellir yng nghwmpas fy ymchwiliad yn ei dro:

**a) A yw Awdurdodau Lleol yng Nghymru yn cyflawni eu dyletswyddau statudol o dan HWA a’r canllawiau cysylltiedig i sicrhau bod asesiadau digartrefedd yn cael eu cyflawni’n briodol?**

243. Gan nad oes canllawiau pendant yn HWA na Rheoliadau Digartrefedd (Gweithdrefn Adolygu) (Cymru) 2015, canfu’r ymchwiliad, er bod yr Awdurdodau Ymchwiliol yn cyflawni eu dyletswyddau statudol cyffredinol o dan HWA, nad oedd fawr o gysondeb yn ei gymhwysiad. O ystyried y gwahaniaethau hyn, yn fy marn i, o bwyso a mesur, yw ei bod yn debygol y bydd gan rai o’r awdurdodau lleol eraill hefyd ddulliau gweithredu unigol a gwahanol ar gyfer y broses ddigartrefedd. Mae’n destun pryder bod deddfwriaeth sylfaenol o’r fath, sy’n effeithio ar fywydau cynifer o bobl, mor agored i gael ei dehongli. Mae’r amrywiadau o ran math ac ansawdd y gwasanaeth y gall cleient ei dderbyn yn rhoi mwy o bwysau ar yr awdurdodau lleol hynny sy’n darparu gwasanaeth o well ansawdd, gan fod cleientiaid digartref yn debygol o fudo i’r ardaloedd hynny. Byddai dull mwy cyson o ymdrin â’r broses ddigartrefedd ledled Cymru yn ei gwneud yn haws i gleientiaid dros dro gael gafael ar wasanaethau ledled y wlad a’u defnyddio, yn ei gwneud yn haws i wasanaethau eiriolaeth a rhanddeiliaid

sy'n cefnogi cleientiaid, yn sicrhau'r un gwasanaeth ledled Cymru ac yn creu rhwydwaith cefnogi mwy ar gyfer swyddogion digartrefedd. Gall rôl reoleiddio helpu i gyflawni'r nodau hyn.

244. Mae amrywiadau yn y dull gweithredu hefyd yn ymestyn i'r ffordd y caiff gwybodaeth am ddigartrefedd ei chyfleu i gleientiaid. Mae diffyg canllawiau statudol wedi arwain at awdurdodau lleol yn cynhyrchu gohebiaeth sy'n aml yn faith, yn llawn jargon, ddim yn hawdd ei deall ac, mewn rhai achosion, yn aneglur ynghylch y penderfyniad a'r canlyniadau. Wedi dweud hynny, mae rhai awdurdodau lleol wedi ystyried sut mae gwybodaeth yn cael ei rhannu â chleientiaid mewn ffordd hawdd, hawdd ei rheoli a dealladwy. Er enghraifft, mae gan daflen ffeithiau Cyngor Caerdydd ddarnau bach syml o wybodaeth am y ddyletswydd a'r ddeddfwriaeth berthnasol. Mae Cyngor Sir Gâr wedi rhannu ei lythyrau gyda phenawdau, gan ei gwneud yn hawdd i'r cleient nodi'r penderfyniad a beth ddigwyddodd nesaf. Mae'r Awdurdodau yr ymchwiliwyd iddynt hefyd yn darparu gwybodaeth lafar i gleientiaid pryd bynnag y bo angen. Er fy mod yn falch o weld bod swyddogion o'r Awdurdodau Ymchwiliol wedi defnyddio dull mor rhagweithiol wrth gyfathrebu â chleientiaid, roeddwn yn bryderus o nodi, i'r bobl hynny sydd ag anawsterau llythrennedd (a allai gael eu diffinio fel pobl anabl at ddibenion y Ddeddf Cydraddoldeb), neu nad Cymraeg na Saesneg yw eu hiaith gyntaf, bod llai o gefnogaeth ar gael, gyda rhai swyddogion yn methu â sicrhau bod cleientiaid yn deall yr hyn a ddwedwyd wrthynt, neu'n cyfeirio'r cleientiaid hynny at wasanaethau cymorth, er bod ganddynt bryderon wedi'u dogfennu ynghylch yr hyn a ddwedwyd wrthynt.

245. Er na wnaeth fy ymchwiliad ganfod unrhyw rwystrau i gleientiaid Cymraeg gael gafael ar wasanaethau, hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i atgoffa awdurdodau lleol o'u dyletswyddau i gydymffurfio â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg yn eu hasesiadau a'u hadolygiadau digartrefedd, er mwyn osgoi effaith andwyol ar y Gymraeg.

246. Nodwyd, er bod gan awdurdodau fynediad at wasanaethau cyfieithu, bod hygyrchedd yn amrywio gan ddibynnu ar ba wasanaeth cyfieithu a ddefnyddir. O ganlyniad, mae'n bosibl y bydd cleientiaid nad ydynt yn gallu cael mynediad at wasanaethau yn y Gymraeg na'r Saesneg, ac sydd felly angen gwasanaethau cyfieithu arnynt, a rhai ohonynt mewn argyfwng, yn wynebu oedi wrth geisio cael gafael ar wasanaethau; nid yw hyn yn rhesymol. Rwyf hefyd yn ymwybodol, yn ystod cyfnodau o drallod, nad yw

llawer o bobl yn gallu prosesu'r hyn maen nhw wedi'i ddweud ar unwaith, ac mae'n ddefnyddiol cael gwybodaeth ysgrifenedig, yn enwedig gwybodaeth hanfodol am hawliau a dyletswyddau, i fynd adref a'i darllen yn nes ymlaen, neu i gyfeirio ati  Roeddwn yn siomedig felly nad oedd fersiynau 'Hawdd ei Ddarllen' o rai o'r dogfennau safonol, megis y taflenni ffeithiau, PHPau a'r llythyrau cydnabod adolygu.  Mae absenoldeb y dogfennau hyn yn effeithio'n anochel ar allu'r cleientiaid sy'n cael eu hystyried yn anabl o dan y Ddeddf Cydraddoldeb i gael gafael ar wybodaeth bwysig.  Mae hyn yn rhoi cleientiaid sydd â nodwedd warchodedig dan anfantais a gellid eu hystyried yn wahaniaethu anuniongyrchol.

247.  Mae llawer o gleientiaid yn cael trafferth cael gafael ar ohebiaeth.  Nid oes gan rai gyfeiriad post ac efallai y bydd eraill yn cael trafferth dod i'r Ganolfan Opsiynau Tai i gael gafael ar eu llythyrau.  O ganlyniad, nid yw llawer o gleientiaid yn derbyn llythyrau pwysig yn eu hysbysu o ganlyniad yr asesiad na'u hawl i gael adolygiad.  Mae'r defnydd cynyddol o dechnoleg, yn enwedig negeseuon e-bost yn ystod COVID-19, wedi golygu bod mwy o bobl wedi gallu cael gafael ar ohebiaeth yn hawdd.  Fodd bynnag, fy marn i yw y gellir defnyddio llwyfannau cyfathrebu amgen, fel 'WhatsApp' a negeseuon testun, i gyfleu darnau byr o wybodaeth fel ceisiadau am wybodaeth, penderfyniadau asesu neu wybodaeth am hawliau adolygu, i gleientiaid. Gellir dilyn trywydd y negeseuon hyn gyda llythyr mwy esboniadol, a allai fod ar gael yn y Ganolfan Opsiynau Tai neu yn un o'r Awdurdodau Gofal Iechyd. Gallai diffyg dulliau cyfathrebu amgen effeithio ar allu cleientiaid sy'n cael eu hystyried yn anabl o dan y Ddeddf Cydraddoldeb i gael gwybodaeth bwysig; unwaith eto, gallai rhoi cleientiaid â nodweddion gwarchodedig o dan anfantais, a gallai hynny gael ei ystyried yn wahaniaethu anuniongyrchol. Fodd bynnag, rwy'n cydnabod efallai na fydd rhai cleientiaid yn gallu cael gafael ar y dechnoleg sydd ei hangen i ddefnyddio dulliau cyfathrebu amgen, neu efallai eu bod yn byw mewn ardaloedd lle mae'r ddarpariaeth rhwydwaith yn wael.

248.  Er fy mod yn cydnabod bod awdurdodau lleol yn cyflawni eu dyletswyddau digartrefedd statudol yn gyffredinol, rwy'n bryderus bod y dystiolaeth a welais yn fy ymchwiliad yn awgrymu bod oedi sylweddol yn y broses, yn enwedig mewn perthynas â phenderfyniadau adolygu.  Gall hyn arwain at effaith andwyol ar y cleient a'i berthynas â'r awdurdod lleol, yn enwedig pan fydd yn atal y cleient rhag defnyddio gwasanaethau, llety dros dro neu symud ymlaen i lety parhaol.  Drwy rymuso swyddogion digartrefedd,

byddai adegau pan na fydd angen adolygiad efallai a phan ellir gwneud penderfyniad newydd, er enghraifft, pan fydd newid sylweddol mewn amgylchiadau. Byddai hyn yn lleihau'r amseroedd aros i lawer sydd, ar ôl aros am benderfyniad yr adolygiad, wedyn yn gorfod mynd yn ôl drwy'r broses. Wedi dweud hynny, rwy'n derbyn y bydd yn rhaid rheoli hyn yn ofalus er mwyn sicrhau nad yw cleient yn cael ei amddifadu o'i hawliau cyfreithiol.

249. Yn ogystal â'r oedi yn y broses, mae gennyf bryderon am nifer y cleientiaid a gynghorwyd i beidio â gadael llety ar ôl i'r awdurdod lleol fethu ag atal digartrefedd. Mae'r cyngor hwn wedi achosi i gleientiaid ofni gadael eu cartref rhag ofn iddynt gael eu dyfarnu'n fwriadol ddigartref, er gwaethaf landlordiaid ymosodol ac anodd ac, mewn rhai achosion, costau Llys anfforddiadwy a godir yn eu herbyn. Yn yr achosion hyn, mae'r gefnogaeth a ddarperir gan awdurdodau lleol yn gyfyngedig nes bod y cleient yn cael ei droi allan ac mewn cyfnod o argyfwng. Nid yw hyn yn rhesymol ac mae'n dwysáu'r sefyllfa fregus y mae llawer ohonynt ynddi.

250. Wrth wneud fy nghanfyddiadau, rhaid i mi gydnabod bod hon yn broses ddwyffordd, a rhaid i'r cleient gymryd rhan lawn yn y broses er mwyn sicrhau'r manteision sydd ar gael. Yr wyf yn derbyn, am wahanol resymau, nad yw hyn yn digwydd bob amser. Fodd bynnag, mae'n destun pryder i mi, pan fydd cleient wedi darparu'r holl wybodaeth sydd ar gael amdano ei hun a'i deulu, nad yw bob amser yn cael ei ystyried, neu nad yw diwydrwydd dyladwy yn cael ei weithredu a bod materion perthnasol yn cael eu colli; er enghraifft, gwirio gwybodaeth gyda gweithiwr cymdeithasol cleient neu'r Heddlu. Gall y methiannau hyn olygu bod cleientiaid yn cael eu gwrthod neu'n cael eu rhoi mewn llety anaddas lle nad oedd modd diwallu eu hanghenion. Nid yw hyn yn rhesymol.

251. Yn ogystal â'r dyletswyddau a amlinellir yn HWA, mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i ystyried hawliau dynol y cleient. Ni chanfu'r ymchwiliad unrhyw dystiolaeth o unrhyw ystyriaeth amlwg o hawliau dynol pan wnaed unrhyw benderfyniadau digartrefedd, ac o ganlyniad i hynny, mae'n bosibl bod rhai cleientiaid wedi cael eu rhoi mewn llety anaddas. Fel yr eglurais uchod, ystyriaf fod hyn yn gamweinyddu systemig a allai arwain at anghyfiawnder i ddefnyddwyr gwasanaeth. Er na fydd dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau dynol yn mynd i'r afael â'r holl bryderon rwyf wedi'u nodi yn yr adroddiad hwn, credaf y byddai'n cael effaith gadarnhaol ar y broses ddigartrefedd. Yn benodol, byddai'n ail-gydbwyso'r pŵer rhwng yr

awdurdod lleol a'r cleient, yn atgyfnerthu hawliau'r cleient (gan eu bod yn aml yn teimlo y dylent fod yn ddiolchgar am unrhyw help) a byddai'n tynnu sylw at ystyriaethau ychwanegol wrth herio penderfyniadau.

252. Yn yr un modd â hawliau dynol, mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i ystyried Deddf Cydraddoldeb 2010 wrth wneud penderfyniadau. Unwaith eto, nid oedd tystiolaeth amlwg yn ffeiliau achos y ddyletswydd hon, yn enwedig mewn perthynas ag ystyried nodweddion gwarchodedig cleientiaid, a oedd yn cael eu hystyried wrth wneud penderfyniad. Mae hyn yn dystiolaeth o gamweinyddu systemig a allai, yn fy marn i, achosi anghyfiawnder i ddefnyddwyr gwasanaeth. Hefyd, roedd rhywfaint o bryder, gyda chyn lleied o lety dros dro a pharhaol arbenigol ar gyfer cleientiaid sydd ag anghenion diwylliannol, iechyd neu anabledd, ei bod yn anodd i swyddogion ddarparu llety i gleientiaid mewn llety addas a diogel.

253. Yn fy marn i, drwy ymgorffori dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau dynol a dyletswyddau cydraddoldeb yn amlwg yn y broses gwneud penderfyniadau, byddai'n dod yn fwy person-ganolog. O ganlyniad i hyn dylai fod yna lai o adolygiadau, gan y byddai penderfyniadau a wneir yn seiliedig ar ddarlun cyfannol o'r cleient, felly dylid diwallu eu hanghenion a'u ceisiadau, cyn belled ag y bo modd.

254. I grynhoi, er fy mod wedi nodi sawl maes lle dylid gwneud gwelliannau, yn gyffredinol, canfu fy ymchwiliad fod yr Awdurdodau Ymchwiliol yn cyflawni eu dyletswyddau statudol o dan HWA a'r canllawiau cysylltiedig i sicrhau bod asesiadau digartrefedd yn cael eu cynnal yn briodol.

**b) A yw'r rheini sydd â hawl i geisio herio canlyniad asesiad, neu'r penderfyniad bod dyletswydd Awdurdod Lleol wedi dod i ben, yn deall ac yn ymwybodol o'u hawl i ofyn am adolygiad dan adran 85 HWA?**

255. Mae'r Awdurdodau Ymchwiliol yn cynnwys yr hawl i ofyn am adolygiad ar waelod y llythyrau a'r taflenni gwybodaeth perthnasol. Fodd bynnag, nid oes gwybodaeth am y Broses Adolygu, pa benderfyniadau y gellir eu hadolygu, yr hyn a ddisgwylir gan y cleient a beth allai'r canlyniadau fod ar y cam hwnnw. Gallai hyn arwain at gleientiaid yn gofyn am adolygiadau ar gyfer y penderfyniad anghywir, er enghraifft efallai y bydd y cleient yn gofyn am adolygiad o ddiwedd dyletswydd adran 75 HWA, ond y penderfyniad yr oedd angen ei adolygu oedd addasrwydd y llety.

256. Dengys y cofnodion a welais fod rhai swyddogion, yn enwedig swyddogion Cyngor Caerdydd, yn effro i unrhyw geisiadau am adolygiadau a'u prosesu yn unol â hynny. Er nad oedd tystiolaeth o hyn yn y ffeiliau achos a adolygais, rwy'n ymwybodol nad dyma oedd y profiad ar draws Cymru, gydag adroddiadau rhai o swyddogion awdurdodau lleol yn methu â chydnabod ceisiadau am adolygiad oni bai fod eiriolaeth yn gysylltiedig. Rwy'n poeni bod posibilrwydd y bydd ceisiadau am adolygiad yn cael eu methu a bod cleientiaid yn cael eu hamddifadu o'r cyfle i fynegi eu hanfodlonrwydd, yn ogystal â gwasanaethau sy'n cael eu gwrthod neu eu rhoi mewn llety anniogel neu anaddas heb gyfle i droi atynt.

257. Sylwais hefyd ar gyfeiriadau at gleientiaid a oedd yn amharod i arfer eu hawl i gael adolygiad, gan eu bod yn poeni y byddent, drwy wneud hynny, yn cael eu trin yn negyddol ac y byddai'n cael effaith niweidiol ar y gwasanaeth a gawsant. Mae hyn yn peri pryder, gan ei fod yn pwysleisio'r bregusrwydd a deimlir gan y cleient ac yn awgrymu, i rai cleientiaid, fod rhwystrau i fynegi anfodlonrwydd. Dylai mabwysiadu dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau dynol helpu i fynd i'r afael â'r anghydbwysedd pŵer.

258. Ailadroddaf fy mhryderon ynghylch cyfathrebu a rhwystrau iaith uchod (gweler paragraff 246).

259. I grynhoi, canfu fy ymchwiliad, er bod y rhai sydd â hawl i herio canlyniad asesiad, neu'r penderfyniad bod dyletswydd awdurdod lleol wedi dod i ben, yn cael eu hysbysu mewn llythyrau a thrwy ddefnyddio taflenni ffeithiau, nid oedd yn amlwg eu bod bob amser yn ymwybodol nac yn deall eu hawl i ofyn am adolygiad.

**c) A yw adolygiadau a gynhelir yn unol ag adran 85 HWA yn cael eu gweinyddu'n briodol?**

260. Mae'r Awdurdodau Ymchwiliol yn derbyn ceisiadau adolygu mewn unrhyw fformat. Cydnabyddir y ceisiadau a chynigir cyfle i'r cleient ddarparu gwybodaeth ychwanegol neu, mewn rhai achosion, gyfarfod â'r swyddog adolygu. Cynghorir cleientiaid hefyd i geisio cymorth drwy dwrnai neu wasanaeth eiriolaeth. Mae ceisiadau adolygu 'y tu allan i amser' a cheisiadau i ymestyn y dyddiad cau yn cael eu hystyried. O'r dystiolaeth yn y ffeiliau achos a adolygwyd, roedd yn ymddangos bod yr Awdurdodau yr Ymchwiliwyd iddynt yn rhoi ystyriaeth lawn i'r ceisiadau hyn.

261. Bydd y swyddog adolygu, neu'r panel, yn ystyried y dystiolaeth a ddefnyddir gan y sawl sy'n gwneud y penderfyniad yn ogystal ag unrhyw wybodaeth newydd. Mae'n agored i'r swyddog adolygu neu'r panel ofyn am ragor o wybodaeth neu wneud ymholiadau annibynnol. Yn yr un modd â'r broses asesu, roedd gan yr Awdurdodau Ymchwilio 3 dull gwahanol o gynnal adolygiadau. Un o egwyddorion sylfaenol y Broses Adolygu yw annibyniaeth oddi wrth y penderfynwr gwreiddiol. Caiff hyn ei ymgorffori yn Erthygl 6 y Ddeddf Hawliau Dynol (gweler Atodiad 3, paragraff 9). Rhaid i'r annibyniaeth rhwng y sawl sy'n gwneud y penderfyniad a'r swyddog adolygu fod yn weladwy, rhaid i'r cleient ei gweld hefyd, neu bydd cwestiwn bob amser ynghylch penderfyniad yr adolygiad. Yn fy marn i, mae'r dulliau a fabwysiadwyd gan Gyngor Caerdydd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn rhoi sicrwydd cryf i'r cleient bod adolygiad annibynnol wedi cael ei gynnal.

262. Canfu fy adolygiad achos fod oedi yn y Broses Adolygu. Mae'r rhain weithiau yn deillio o oedi gan y cleient wrth ddarparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani i'r awdurdod lleol. Roedd yn destun pryder nodi bod cleientiaid a'u heiriolwyr yn aml yn cael trafferth cael gafael ar wybodaeth a dogfennau hanfodol oherwydd cyfyngiadau systemau rheoli achosion yr Awdurdodau Ymchwiliol. Mae'r oedi hwn yn awgrymu camweinyddu systemig ac yn holi a yw'r systemau sydd ar waith yn addas i'r diben ac o fudd i weinyddu'r asesiadau a'r adolygiadau. Mae'n debygol, yn fy marn i, fod oedi o'r fath yn debygol o achosi anghyfiawnder i ddefnyddwyr gwasanaeth.

263. I grynhoi, canfu fy ymchwiliad y gellid gwneud gwelliannau o ran gweinyddu adolygiadau y gofynnwyd amdanynt o dan adran 85 HWA o ran annibyniaeth yr adolygiad a phrydlondeb adolygiadau.

**d) Beth yw'r rhesymau dros wrthdroi penderfyniadau asesu ac a yw gwersi'n cael eu dysgu a'u rhannu?**

264. Roedd tystiolaeth o awdurdodau lleol yn gofyn am wybodaeth gan gleientiaid y gellid bod wedi gofyn amdanynt yn uniongyrchol gan drydydd parti, er enghraifft cofnodion meddygol. Byddai'r wybodaeth hon yn aml yn dod ar gost a oedd yn afresymol i'r cleient, felly ni chafodd ei darparu. O ganlyniad, nid oedd gwybodaeth bwysig bob amser yn cael ei hystyried wrth wneud penderfyniad, er bod y sawl oedd yn gwneud y penderfyniad yn ymwybodol o'i fodolaeth. Nodwyd hefyd o'r adolygiad achos fod ymagwedd swyddogion o fewn yr un awdurdod yn anghyson, gan y byddai rhai

swyddogion yn gofyn yn uniongyrchol am wybodaeth benodol ym mhob achos, tra byddai eraill yn gosod cyfrifoldeb ar y cleient i'w darparu, neu beidio â gofyn am unrhyw dystiolaeth ategol o gwbl. Mewn rhai achosion, os na ddarparwyd y dystiolaeth ategol gyda'r cais gwreiddiol, ni ddilynwyd hynny.

265. Canfu'r adolygiad achos hefyd enghreifftiau o'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau'n peidio â chymryd yr holl wybodaeth berthnasol i ystyriaeth, yn enwedig wrth ystyried 'angen blaenoriaethol'. Mewn rhai achosion, dim ond anghenion blaenoriaeth y cleient a ystyriwyd; ni ystyriwyd tystiolaeth feddygol yn ymwneud ag anghenion iechyd neu anabledd partner neu ddibynyddion. O ganlyniad, cynigiwyd llety i gleientiaid a oedd yn gwbl anaddas i anghenion yr aelod o'r teulu neu a oedd yn anhygyrch.

266. Roedd yn galonogol gweld bod nifer o swyddogion yn defnyddio llythyrau 'mynegi bwriad' er mwyn rhoi syniad i gleientiaid o'r penderfyniad dros dro yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael a darparu arweiniad i gleientiaid ynghylch pa wybodaeth oedd ei hangen i newid y penderfyniad a chyfle i ofyn am gymorth a chyngor. Fodd bynnag, er mwyn i'r llythyrau hyn fod yn effeithiol ac er budd y cleient, rhaid i'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad roi digon o amser i'r cleient ymateb cyn cyhoeddi'r llythyr penderfyniad terfynol; nid oedd hyn bob amser yn digwydd.

267. O ran addasrwydd, roedd llawer o'r achosion adolygu a ystyriwyd yn ymwneud â lleoliad llety dros dro a pharhaol. Roedd y Swyddogion yn annog cleientiaid i gynnwys ardaloedd gyda throsiant uchel o lety yn eu rhestr o'r ardaloedd a oedd yn cael eu ffafrio; roedd y rhain fel arfer mewn ardaloedd llai dymunol, felly pan oedd y llety a oedd yn cael ei gynnig yn un o'r ardaloedd hynny, byddai'r cleient yn aml yn gofyn am adolygiad ar sail addasrwydd.

268. Hefyd, mae llety anaddas, boed hynny oherwydd lleoliad, maint neu osod cleientiaid ag anghenion cymhleth mewn llety heb ddigon o gefnogaeth, yn aml yn arwain at dorri'r denantiaeth a achoswyd gan yr amgylchiadau yn hytrach na bai'r tenant. Mae'r rhain yn achosion lle mae'r ddyletswydd wedi dod i ben, neu lle mae cleientiaid yn cael eu hystyried yn fwriadol ddigartref a heb fynediad at wasanaethau. Drwy ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar hawliau dynol a gwrando ar yr hyn y mae'r cleient yn ei ddweud, gellid rhoi sylw i faterion sy'n ymwneud ag addasrwydd. Er y cydnabyddir bod hyn yn dibynnu ar argaeledd llety addas, dylai'r dull hwn leihau nifer y ceisiadau adolygu a wneir.

269. Yn fy marn i, mae rheoli disgwyliadau yn mynd law yn llaw ag addasrwydd llety. Wrth lunio fy nghanfyddiadau, rwy'n ymwybodol mai ychydig o lety sydd ar gael yng Nghymru a bod swyddogion awdurdodau lleol yn gweithio'n galed i ganfod a sicrhau cartrefi i gleientiaid. Yn fy marn i, mae disgwyliad cymdeithasol o hyd y bydd yr awdurdod lleol yn darparu tai cymdeithasol i'r rheini sy'n ddigartref. Fodd bynnag, yn yr hinsawdd dai bresennol, nid yw hynny'n wir. Mae tai cymdeithasol yn brin ac yn aml mewn ardaloedd sy'n cael eu hystyried yn llai dymunol. Felly, rhoddir mwy o ddibyniaeth ar y sector rhentu preifat i ddiwallu anghenion y rhai sydd â dymuniadau penodol. Yn fy marn i, byddai cyflwyno map rhyngweithiol sydd ar gael i gleientiaid sy'n tynnu sylw at yr ardaloedd lle mae eiddo ar gael, a'r math o eiddo sydd ar gael, yn ddefnyddiol wrth egluro meysydd o ddewis i gleientiaid a'r hyn y gallent ei ddisgwyl yn rhesymol.

270. O ran y gwersi a ddysgwyd, dywedodd yr Awdurdodau Ymchwiliol eu bod yn rhannu unrhyw wersi a ddysgwyd gyda'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau a, lle bo hynny'n briodol, gyda'r timau. Roedd yn amlwg o'r dystiolaeth bod Cyngor Caerdydd wedi gwneud newidiadau i'w Broses yn dilyn adborth gan ei Swyddog Adolygu.

271. Roedd hefyd yn galonogol nodi bod yr Awdurdodau Ymchwilio yn monitro tueddiadau a gafodd eu bwydo'n ôl i'r swyddogion perthnasol, neu i gynlluniau hyfforddi tîm a bod y swyddogion wedi cael cyfle i ymgymryd â chyfnod o hunan-fyfyrio a dysgu pan wrth-drowyd penderfyniad.

272. Roedd yn galonogol nodi bod rhai awdurdodau lleol yn ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth wneud newidiadau i bolisïau a gweithdrefnau a bod y rhanddeiliaid hynny'n cael eu gwahodd i roi adborth anffurfiol i'r awdurdodau lleol ar benderfyniadau sydd wedi'u gwneud.

273. I grynhoi, yn fy marn i, dyma'r prif resymau dros wrthdroi penderfyniadau asesu yn dilyn adolygiad:

- Methu ag ymgymryd ag ymholiadau ychwanegol.
- Methiant i ystyried gwybodaeth berthnasol.
- Methiant i ystyried yn ddigonol addasrwydd y llety.
- Cyfathrebu gwael (gweler paragraffau 188 - 192).

Yn fy marn i, byddai ceisio mynd i'r afael â'r pwyntiau hyn yn lleihau nifer y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud yn wael ac yn lleihau nifer yr adolygiadau ac, yn benodol, nifer y penderfyniadau sy'n cael eu gwrthdroi ar adolygiadau.

**e) Mewn achosion lle nad yw'r penderfyniadau wedi cael eu gwrthdroi, a yw'r rheini yr effeithiwyd arnynt yn ymwybodol o'r atebion eraill sydd ar gael iddynt?**

274. Mae'n amlwg o'r cofnodion bod cleientiaid yn cael gwybod am eu hawl i esgoli eu hadolygiad i'r Llys Sirol ar bwynt cyfreithiol os ydynt yn anhapus gyda'r penderfyniad. Fodd bynnag, nid oes gwybodaeth ychwanegol ar gael iddynt. Mae'n destun pryder, lle mae penderfyniad adolygu wedi'i wneud ond bod gan yr awdurdod lleol ddyletswydd barhaus tuag at y cleient, nad yw hynny'n cael ei egluro iddynt.

275. I'r rhai sy'n dymuno mynd ar drywydd y mater, mae'r cyfleoedd yn gyfyngedig, o ystyried yr anhawster o gael gafael ar Gymorth Cyfreithiol a dewis awdurdodau lleol i setlo materion cyn i'r llys eu hystyried.

276. I grynhoi, rwyf yn fodlon bod cleientiaid yn cael gwybod am y datrysiadau sydd ar ôl sydd ar gael iddynt. Fodd bynnag, mae'r cam ychwanegol yn y broses yn anhygyrch ac yn aneffeithiol, sy'n golygu nad yw'n fawr o werth i'r rhai yr effeithir arnynt.

**f) Yr amrywiaeth o gamau gweithredu a dulliau gweinyddol a gyflawnwyd gan Awdurdodau Lleol yn ystod y pandemig i asesu, adolygu a mynd i'r afael ag anghenion pobl ddigartref, neu'r rheini sy'n datgan eu bod yn ddigartref, er mwyn nodi cyfleoedd i wneud gwelliannau ehangach neu dymor hwy.**

277. Rwyf wedi amlinellu'r arferion da sy'n deillio o bandemig COVID-19 uchod (gweler paragraffau 204 a 225).

278. Nodaf fod swyddogion yn teimlo bod gan symud i wasanaethau ffôn ei anfanteision, gan fod llawer o swyddogion yn colli effeithiau cadarnhaol cyswllt wyneb yn wyneb, yn enwedig wrth geisio meithrin perthynas â chleient. Wedi dweud hynny, rwy'n cydnabod hefyd bod yn well gan lawer o gleientiaid hwylustod asesiad dros y ffôn, yn enwedig y rheini sy'n gweithio, gorfod teithio'n bell, neu fod ganddynt ymrwymiadau teuluol sy'n ei gwneud hi'n anodd mynychu'r Ganolfan Opsiynau Tai.

279. Mae defnyddio technoleg drwy gyflwyno ymweliadau rhithiol wedi golygu y gallai'r broses o ddyrannu llety barhau ac, er gwaethaf y pandemig, bod cleientiaid yn cael cymorth i symud ymlaen.

280. Nodir bod yr Awdurdodau Ymchwilio wedi gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill i ddarparu cymorth ychwanegol i gleientiaid ag anghenion cymhleth, sydd wedi arwain at fwy o bobl yn ymgysylltu â gwasanaethau cymorth yn ystod y pandemig, gyda phobl sydd mewn perygl o gysgu allan yn cael eu canfod a'u cefnogi i ganfod llety dros dro yn gyflym.

281. Sylwaf fod anawsterau wedi bod gyda'r llety cyfyngedig sydd ar gael a'r cynnydd sylweddol yn nifer y bobl sy'n gofyn am gymorth. Fodd bynnag, llwyddwyd i oresgyn hyn drwy ddefnyddio cyfleusterau lleol fel gwestai a llety myfyrwyr gwag.

282. Yn olaf, hoffwn ddweud bod y gwaith a wnaed gan y Timau Digartrefedd yng Nghymru yn ystod pandemig COVID-19 wedi bod yn rhagorol. Maent wedi gweithio'n ddiflino i sicrhau bod y bobl hynny a gyflwynodd eu hunain yn ddigartref wedi cael llety er mwyn iddynt allu cadw eu hunain yn ddiogel. Gwnaed newidiadau sylweddol i brosesau pan ddaeth cyfweliadau wyneb yn wyneb i ben, roedd pobl yn cael eu hanfon adref i weithio ac roedd mwy o ddibyniaeth ar dechnoleg. Mae'n amlwg bod llawer o'r rhwystrau yr oedd yr Awdurdodau Ymchwiliol wedi dod ar eu traws ar ddechrau'r pandemig wedi cael eu goresgyn yn gyflym oherwydd hyblygrwydd a chadernid eu swyddogion, er mwyn i wasanaethau barhau'n llwyddiannus i'r hyn sydd wedi cael ei ddisgrifio'n aml fel "normal newydd".

## Argymhellion

283. Rwy'n **argymell**, o fewn **6 mis** o ddyddiad yr adroddiad hwn, y dylai'r holl Awdurdodau yr Ymchwiliwyd iddynt wneud y canlynol

a) Creu fersiynau Hawdd eu Darllen o daflenni ffeithiau digartrefedd a gohebiaeth digartrefedd safonol.
b) Creu PHPau Hawdd eu Darllen ar gyfer cleientiaid ag anawsterau dysgu neu nad Cymraeg na Saesneg yw eu hiaith gyntaf.
c) Adolygu'r defnydd o ddulliau cyfathrebu amgen, fel 'WhatsApp' a thestun, i gyfleu penderfyniadau y gellid eu dilyn wedyn gyda llythyr.

d) Gweithredu dull PIE o ymdrin â gohebiaeth.

e) Atgoffa swyddogion o'u dyletswydd i ymchwilio'n briodol i wybodaeth a dderbynnir a'i gwirio drwy ofyn am wybodaeth gan drydydd partïon ac ystyried yr holl wybodaeth berthnasol.

f) Creu taflen ffeithiau Proses Adolygu, gan sicrhau bod fformat Hawdd ei Ddarllen ar gael.

g) Creu taflen ffeithiau sy'n amlinellu'r hyn y gall cleient ei ddisgwyl gan y gwasanaeth, gan sicrhau bod fformat Hawdd ei Ddarllen ar gael.

h) Creu map tai cymdeithasol rhyngweithiol i gleientiaid gael mynediad ato.

i) Sicrhau bod cynllun ar waith i ddarparu hyfforddiant rheolaidd ar gydraddoldeb a hawliau dynol i bawb sy'n gwneud penderfyniadau ac i swyddogion adolygu.

j) Cynnwys y swyddogion adolygu yn natblygiad hyfforddiant digartrefedd yn y dyfodol.

k) Diwygio templedi llythyr penderfyniad adolygu i sicrhau bod manylion unrhyw ddyletswydd barhaus yn cael eu cynnwys.

284. Rwy'n falch o nodi bod rhai Awdurdodau Ymchwilio eisoes wedi bwrw ymlaen â'r argymhellion a wnaed. Rwy'n disgwyl i'r Awdurdodau Ymchwilio roi gwybod i mi am eu cynnydd o ran cwrdd â'r argymhellion hyn a'u rhoi ar waith, yn unol â'm gweithdrefn cydymffurfio.

285. O ystyried y potensial ar gyfer dysgu ehangach o'r ymchwiliad hwn, rwyf yn **gwahodd** y 19 awdurdod lleol arall i wneud y canlynol:

i. Gwneud trefniadau ar lefel Cymru gyfan i drafod a gwella cysondeb y Broses Adolygu.

ii. Creu perthynas waith gydag asiantaethau partner/rhanddeiliaid fel 'Cymryd Sylw' i helpu i wella gwasanaethau.

iii. Ffurfio fframwaith, ar y cyd â grwpiau eiriolaeth, a fydd yn grymuso swyddogion i wneud penderfyniadau / gweithredu, yn enwedig yng nghyswllt hawliau dynol a chydraddoldeb a lleihau adolygiadau diangen, heb effeithio ar hawl statudol y cleient i gael adolygiad.

286. Rwy'n **gwahodd** y 19 awdurdod lleol arall i ystyried yr argymhellion uchod a wnaed i'r 3 Awdurdod Ymchwiliol (paragraff 283) ac i fwrw ymlaen ag unrhyw bwyntiau dysgu a fyddai'n gwella eu darpariaeth gwasanaeth. Yr wyf yn croesawu sylwadau gan y cyrff hynny am y camau y maent wedi'u cymryd.

287. Rwy'n **gwahodd** Llywodraeth Cymru i wneud y canlynol:

i. Adolygu HWA a'r Cod Canllawiau cysylltiedig i sicrhau dull gweithredu mwy cyson ar gyfer digartrefedd – yn enwedig ar ôl COVID-19.

ii. Adolygu'r Cod Canllawiau i sicrhau ei bod yn glir bod rhaid ystyried hawliau dynol a chydraddoldeb wrth asesu ceisiadau digartrefedd, adolygu penderfyniadau ac wrth ddyrannu tai.

iii. Safoni dogfennau adolygu ledled Cymru.


iv. Adolygu effeithiolrwydd y broses apelio ôl-adolygiad, o ystyried yr anawsterau y mae cleientiaid yn eu cael o ran cael gafael ar Gymorth Cyfreithiol.

v. Gwella a safoni'r gwasanaeth digartrefedd ledled Cymru drwy ystyried creu rôl y Rheoleiddiwr Tai/Digartrefedd i gefnogi a darparu gwybodaeth ac arweiniad i awdurdodau lleol.

288. Nid yw'r gwahoddiadau a wnaed i'r 19 awdurdod lleol arall a Llywodraeth Cymru yn argymhellion ffurfiol a wnaed yn unol â'r Ddeddf gan nad ymchwiliais yn ffurfiol i'r cyrff hynny. Maent wedi'u cynnwys i helpu i sicrhau gwelliannau o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru. Dyna oedd diben a bwriad y Senedd pan ddeddfwyd fy mhŵer ymchwiliad achub y blaen newydd a hyderaf y bydd pob awdurdod lleol yn manteisio ar y cyfle i ddysgu o'r ymchwiliad hwn. Byddaf yn cysylltu â'r awdurdodau lleol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Llywodraeth Cymru ynghylch y gwelliannau a wnaed yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad hwn.

289. Cafodd yr Awdurdodau Ymchwilio gyfle i weld fersiwn ddrafft o'r adroddiad hwn a chyflwyno sylwadau arno cyn cyhoeddi'r fersiwn derfynol. Mae'n bleser gennyf nodi bod y 3 Awdurdod yr Ymchwiliwyd iddynt, wrth

gyflwyno sylwadau ar ddrafft yr adroddiad hwn, wedi cytuno i weithredu’r argymhellion hyn ac i roi tystiolaeth i mi o gydymffurfio â hwy o fewn y cyfnod o 6 mis o ddyddiad yr adroddiad hwn.



**Nick Bennett** 29 Medi 2021
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

**ÔL-NODYN**

Mae’r ddogfen hon yn adroddiad o dan adran 4 Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019..

**ATODIAD 1**

## Adolygu data

1. Dangosodd y data sy'n cael ei gynnwys yn adroddiad Shelter Cymru ym mis Mehefin 2020, fod dros 400 o geisiadau am adolygiadau wedi'u gwneud yng Nghymru yn 2017/18 (dylid nodi bod Cyngor Sir Gâr a Chyngor Sir Ynys Môn wedi methu â darparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani gan Shelter Cymru). Mae hyn yn rhoi cyfartaledd o 1.4% yng Nghymru o asesiadau sy'n arwain at gais am adolygiad. Mae'r tabl isod yn dangos nifer go iawn y ceisiadau am adolygiadau a dderbyniwyd gan y 6 awdurdod lleol sydd â'r nifer uchaf o geisiadau am adolygiadau:

| Awdurdod Lleol | Nifer y ceisiadau am adolygiadau | % o'r Asesiadau sy'n arwain at Adolygiad |
|---|---|---|
| Caerdydd | 185 | 4 |
| Wrecsam | 50 | 4.2 |
| Sir y Fflint | 49 | 3.9 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 26 | 2.1 |
| Casnewydd | 16 | 0.7 |
| Gwynedd | 13 | 2.3 |

2. Dangosodd y data hefyd fod 155 o benderfyniadau asesu wedi'u gwrthdroi o'u hadolygu gan bob un o'r awdurdodau lleol a ymatebodd. Yng Nghymru, cafodd 38% o benderfyniadau asesu a oedd yn destun adolygiad eu gwrthdroi. Cododd y gyfradd wrthdroi uchel hon bryderon ynglŷn ag effeithiolrwydd a phriodoldeb penderfyniadau asesu. Mae'r tabl isod yn dangos y 6 awdurdod lleol sydd â'r niferoedd uchaf o adolygiadau a dderbyniwyd a nifer y penderfyniadau a gafodd eu gwrthdroi ar gyfer pob un:

| Awdurdod Lleol | Adolygiadau (Rhif) | % wedi'u gwrthdroi |
|---|---|---|
| Caerdydd | 93 | 50 |
| Sir y Fflint | 18 | 36.73 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 9 | 34.62 |
| Wrecsam | 7 | 14 |
| Castell-nedd Port Talbot | 6 | 75 |
| Gwynedd | 6 | 46.15 |

**ATODIAD 2**

## Rhesymeg dros ddewis yr Awdurdodau a Ymchwiliwyd

### Cyngor Caerdydd

1. Ardal ddinesig yw Caerdydd yn ne Cymru lle mae ychydig o dan chwarter y boblogaeth yn siarad Cymraeg (23%). Mae ganddi'r nifer uchaf o bobl sy'n cysgu allan.

2. Caerdydd yw dinas fwyaf Cymru, a rhwng 2017-2019, cyflawnodd y nifer uchaf o asesiadau digartrefedd yng Nghymru yn gyson. At hynny, yn 2017/18, derbyniodd y Cyngor nid yn unig y nifer uchaf o geisiadau am adolygiadau yng Nghymru, roedd y ffigur hefyd yn sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru.

3. Er y disgwylir i'r awdurdod lleol sydd â'r nifer uchaf o asesiadau gael y nifer uchaf o geisiadau am adolygiadau, roedd yn destun pryder, ers cyflwyno'r Ddeddf Tai, fod tua 50% o'r penderfyniadau a adolygwyd wedi'u gwrthdroi bob blwyddyn.

4. Rwy'n cydnabod nad yw nifer uchel o geisiadau am adolygiadau yn dangos camweinyddu neu fethiant yn y gwasanaeth ynddo'i hun, yn hytrach gallai fod yn arwydd o gyfathrebu da ynghylch hawliau adolygu, neu argaeledd mwy o wasanaethau eirioli, i alluogi pobl i herio penderfyniadau. Mae'r rhain yn faterion roeddwn yn awyddus i'w harchwilio ymhellach gyda'r bwriad o rannu unrhyw arfer da. Wedi dweud hynny, nid allaf anwybyddu'r ffaith bod pob cais am adolygiad yn arwydd o anfodlonrwydd gyda phenderfyniad. Yn ogystal, yng ngoleuni'r gyfran gyson o benderfyniadau sy'n cael eu gwrthdroi, rwy'n poeni nad yw'r hyn a ddysgwyd o'r achosion hyn yn cael ei ddefnyddio i gefnogi gwelliannau i'r gwasanaeth.

5. I gloi, cafodd ymateb cyflym y Cyngor yn ystod y pandemig COVID-19 wrth drefnu llety dros dro a lleihau nifer y bobl oedd yn cysgu ar y strydoedd gryn sylw yn y cyfryngau. Roeddwn eisiau ystyried y weithred bositif hon ymhellach gyda'r bwriad o rannu unrhyw ddysgu systemig.

## Cyngor Sir Gâr

6. Awdurdod gwledig yw Sir Gâr gan fwyaf wedi'i leoli yng ngorllewin Cymru. Mae dros hanner y boblogaeth yn siaradwyr Cymraeg (59%).

7. Mae ystadegau a roddwyd i Lywodraeth Cymru yn dangos bod Cyngor Sir Gâr wedi delio â nifer fawr o asesiadau a bod y niferoedd hynny wedi cynyddu bron i 19% rhwng 2017/18 – 2018/19.

8. Cafodd natur a graddfa'r gefnogaeth a ddarparwyd gan y Cyngor mewn ymateb i'r pandemig COVID-19 sylw yn y wasg, a ddangosodd ei fod wedi cefnogi dros 280 o bobl ddigartref i gael llety. Unwaith eto, roeddwn eisiau ystyried y weithred bositif hon ymhellach gyda'r bwriad o rannu unrhyw ddysgu systemig.

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

9. Awdurdod wedi'i leoli yng ngogledd Cymru yw Wrecsam ac mae'n ffinio â Lloegr. Fe'i nodwyd fel un o'r awdurdodau lleol yng Nghymru sydd â'r nifer uchaf o bobl sy'n cysgu allan. Ychydig dros chwarter y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg (28%) yn Wrecsam.

10. Roedd yn ymddangos bod ystadegau Llywodraeth Cymru ar nifer yr asesiadau digartrefedd a wnaed gan y Cyngor wedi gostwng rhwng 2017/18 a 2018/19. Eto i gyd, er gwaethaf un o'r niferoedd uchaf o ran ceisiadau am adolygiadau yng Nghymru, roedd y gyfradd gwrthdroi, sef 14%, yn sylweddol is na'r cyfartaledd yng Nghymru.

11. Yn fy marn i, roedd y ffigurau anarferol hyn yn cyfiawnhau rhoi ystyriaeth bellach i'r strwythur, y broses, yr arferion a'r dulliau a fabwysiadwyd gan y Cyngor, gyda'r bwriad o nodi'r stori y tu ôl i'r ffigurau hyn. Yn ogystal, roeddwn eisiau gweld a allwn, o bosib, nodi enghreifftiau o arfer da sy'n gysylltiedig â'r Broses Asesu ac Adolygu ac, wrth roi'r ddeddfwriaeth/canllawiau ar waith yn fwy cyffredinol, pa agweddau a allai fod o fudd i awdurdodau lleol eraill yng Nghymru..

**ATODIAD 3**

## Deddfwriaeth, canllawiau a pholisi perthnasol

**Deddfwriaeth**

1. Deddf Tai (Cymru) 2014

- Mae Adran 55 yn diffinio beth yw ystyr person sy’n ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref.
- Mae Adran 62 yn gosod dyletswydd ar yr awdurdod lleol i asesu person sy’n cyflwyno’i hun yn ddigartref i weld os yw’r person yn gymwys am gymorth.
- Mae Adran 63 yn nodi, lle bo penderfyniad yr asesiad (neu adolygiad o’r penderfyniad hwnnw) yn groes i fuddiannau’r cleient, rhaid i’r awdurdod lleol roi rhesymau ysgrifenedig am y penderfyniad i’r cleient. Mae’n rhaid i’r awdurdod lleol hysbysu’r cleient hefyd o’r hawl i ofyn am adolygiad o’r penderfyniad hwnnw.
- Mae Adran 66 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i helpu i rwystro digartrefedd.
- Mae Adran 68 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu llety dros dro i’r rheini sydd ag angen blaenoriaethol.
- Mae Adran 70 yn rhestru’r bobl hynny y gellir eu dosbarthu fel rhai sydd ag angen blaenoriaethol am dai oherwydd eu hamgylchiadau neu oherwydd eu bod yn agored i niwed. Y rhai sydd ag angen blaenoriaethol yw:
    a) Person beichiog neu berson y maen preswylio gydag ef neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddynt breswylio gydag ef.
    b) Person y mae plentyn dibynnol yn preswylio gydag ef neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddo breswylio gydag ef;
    c) Person sy’n hyglwyf o ganlyniad i reswm arbennig (er enghraifft: henaint, salwch corfforol neu feddyliol neu anabledd corfforol neu feddyliol), neu rywun y mae’r cleient yn preswylio gydag ef neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddo breswylio gydag ef;

d) Person sy’n ddigartref neu o dan fygythiad o ddigartrefedd o ganlyniad i argyfwng megis llifogydd, tân neu drychineb arall, neu rywun sy’n preswylio gyda’r cleient neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddo breswylio gydag ef;
e) Person sy’n ddigartref o ganlyniad i wynebu camdriniaeth ddomestig, neu rywun y mae’r cleient yn preswylio gydag ef neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddo breswylio gydag ef;
f) Person sy’n 16 neu’n 17 oed pan fo’r person yn gwneud cais i awdurdod tai lleol am lety neu gymorth i gadw neu gael gafael ar lety, neu rywun y mae’r cleient yn preswylio gydag ef neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddo breswylio gydag ef;
g) Person sydd wedi cyrraedd 18 oed, pan fo’r person yn gwneud cais i awdurdod tai lleol am lety neu gymorth i gadw neu gael gafael ar lety, ond nid 21 oed, sy’n wynebu perygl arbennig o gamfanteisio rhywiol neu ariannol, neu rywun y mae’r cleient yn preswylio gydag ef (ac eithrio camfanteisiwr neu gamfanteisiwr posibl) neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddo breswylio gydag ef;
h) Person sydd wedi cyrraedd 18 oed, pan fo’r person yn gwneud cais i awdurdod tai lleol am lety neu gymorth i gadw neu gael gafael ar lety, ond nid 21 oed, a oedd yn derbyn gofal, yn cael ei letya neu’n cael ei faethu ar unrhyw bryd pan oedd o dan 18 oed, neu rywun y mae’r cleient yn preswylio gydag ef neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddo breswylio gydag ef;
i) Person sydd wedi gwasanaethu yn lluoedd arfog rheolaidd y Goron sydd wedi bod yn ddigartref ers gadael y lluoedd hynny, neu rywun y mae’r cleient yn preswylio gydag ef neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddo breswylio gydag ef;
j) Person sydd â chysylltiad lleol ag ardal yr awdurdod tai lleol ac sy’n hyglwyf o ganlyniad i un o’r rhesymau canlynol:

   i. bod wedi bwrw dedfryd o garchar o fewn ystyr adran 76 o Ddeddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000,
   ii. bod wedi ei remandio mewn carchar neu ei draddodi i garchar gan orchymyn llys, neu

iii. bod wedi ei remandio i lety cadw ieuenctid o dan adran 91(4) o Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012.

- Mae Adran 73 yn gosod dyletswydd ar yr awdurdod lleol i sicrhau llety addas i’r person fyw ynddo os yw’r awdurdod lleol yn fodlon bod y person yn ddigartref ac yn gymwys i gael cymorth.
- Mae Adran 85 yn nodi, o fewn 21 diwrnod i benderfyniad yn cael ei wneud, bod gan y cleient hawl i ofyn am adolygiad o’r canlynol:
    - penderfyniad awdurdod tai lleol ynghylch cymhwystra’r cleient ar gyfer cymorth;
    - penderfyniad awdurdod tai lleol nad oes dyletswydd yn ddyledus i’r cleient o dan adran 66, 68, 73, neu 75 (mae’r adrannau hyn yn amlinellu dyletswyddau penodol i gleientiaid sy’n ddigartref);
    - penderfyniad awdurdod tai lleol bod dyletswydd sy’n ddyledus i’r cleient o dan adran 66, 68, 73, neu 75 wedi dod i ben (gan gynnwys pan fo’r awdurdod lleol wedi atgyfeirio achos y cleient at awdurdod arall neu wedi penderfynu bod yr amodau ar gyfer atgyfeirio at awdurdod lleol arall wedi eu bodloni).

- Mae Adran 86 yn nodi bod yn rhaid i'r cais am adolygiad gael ei wneud i'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am wneud y penderfyniad. Gall y cleient neu ei gynrychiolydd wneud y cais am adolygiad naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig. Rhaid i’r cais gael ei wneud o fewn 21 diwrnod ar ôl y penderfyniad (oni bai bod yr awdurdod lleol wedi cytuno i ymestyn y cyfnod cau).
- O fewn 5 diwrnod gwaith o dderbyn y cais, rhaid i’r awdurdod lleol gydnabod derbyn y cais a gwahodd y cleient i wneud sylwadau. Unwaith eto, rhaid i’r sylwadau hyn gael eu gwneud ar lafar neu'n ysgrifenedig. Rhaid i’r awdurdod lleol hysbysu’r cleient hefyd o’r weithdrefn ar gyfer adolygiad.
- Rhaid i’r adolygiad gael ei gynnal gan yr awdurdod lleol neu rywun sy’n gweithredu ar ei ran. Serch hynny, ni ddylai’r Swyddog Adolygu fod yn gysylltiedig â’r penderfyniad gwreiddiol.

- Wrth adolygu penderfyniad, rhaid rhoi sylw i unrhyw wybodaeth berthnasol a gafwyd naill ai cyn neu ar ôl y penderfyniad gwreiddiol. Mae hefyd yn agored i'r swyddog adolygu wneud ymholiadau pellach a gwahodd y cleient i wrandawiad llafar.
- Mae gan yr awdurdod lleol 8 wythnos o ddyddiad y cais i hysbysu'r ceisydd o'r penderfyniad (10 wythnos os oes cysylltiad lleol a 12 wythnos os oes cysylltiad lleol a bod cymrodeddwr wedi'i benodi).
- Mae Adran 88 yn rhoi'r hawl i'r cleient apelio i'r Llys Sirol ar unrhyw bwynt cyfreithiol sy'n codi o'r penderfyniad yn yr adolygiad os yw'n:
    - anfodlon â'r penderfyniad yn yr adolygiad, neu
    - os nad yw wedi cael ei hysbysu am y penderfyniad yn yr adolygiad o fewn y cyfnod a ragnodir yn y rheoliadau.

2. Nid yw'r Ddeddf Tai yn rhoi'r hawl i'r cleient ofyn am adolygiad o benderfyniad yr adolygiad. Serch hynny, gall cleientiaid gyflwyno apêl, i'r Llys Sirol, sydd â'r pŵer i wneud gorchymyn yn cadarnhau, yn dileu neu'n amrywio penderfyniad yr awdurdodau lleol fel y gwêl yn dda.

3. Mae'r weithdrefn ar gyfer adolygu penderfyniad wedi'i nodi yn Rheoliadau Digartrefedd (Gweithdrefn Adolygu) (Cymru) 2015. Ynghyd â'r Ddeddf Tai, mae Rheoliadau 2015 yn rhoi dyletswydd ar yr awdurdod lleol i hysbysu'r cleient o benderfyniad yr adolygiad (rhaid gwneud hyn o fewn naill ai 8, 10 neu 12 wythnos yn dibynnu ar y rheswm dros yr adolygiad), y rhesymau dros y penderfyniad a hawl y cleient i apelio i'r Llys Sirol ar bwynt cyfreithiol. Mae Rheoliadau Digartrefedd (Gweithdrefn Adolygu) (Cymru) 2015 yn nodi y gall ceisiadau am adolygiad:

- Gael eu gwneud ar lafar neu'n ysgrifenedig (neu'r ddau), gan y cleient neu rywun sy'n gweithredu ar ei ran
- Rhaid eu gwneud o fewn 21 diwrnod, gan ddechrau gyda'r diwrnod yr hysbysir y cleient o'r penderfyniad
- Heb fformat sefydlog ac nad oes unrhyw ofyniad i roi rhesymau penodol yn ystod y cam cychwynnol.

4. Mae Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwystra) (Cymru) 2014 yn darparu manylion y bobl hynny a allai fod yn gymwys neu beidio am gymorth digartrefedd.

5. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ystyried llesiant hirdymor y boblogaeth a gweithio'n gynaliadwy i atal problemau parhaus fel tlodi. Mae'r Ddeddf Llesiant hefyd yn annog sefydliadau i gydweithio i atal problemau rhag digwydd neu waethygu. Sefydlodd hefyd 7 nod llesiant cenedlaethol sef Cymru iachach a Chymru mwy cyfartal.

6. Mae dyletswydd ar y rhai sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i hyrwyddo llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth, a gofalwyr sydd angen cymorth. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn rhoi dyletswydd penodol ar Awdurdodau Lleol i gynnig llety i blant sy'n derbyn gofal. Sylwer, oherwydd bod awdurdod lleol wedi cyflawni ei ddyletswydd o dan y Ddeddf Tai, nid yw hynny'n golygu bod dyletswydd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 wedi'i chyflawni.

**Deddf Hawliau Dynol 1998**

7. Mae'r Ddeddf Hawliau Dynol yn rhoi amddiffyniad cyfreithiol i hawliau dynol person. Caiff yr hawliau hyn eu galw'n 'hawliau Confensiwn' gan fod y Ddeddf yn gweithredu'r hawliau dynol a nodir yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Ceir 18 hawl i gyd a chyfeirir at bob un fel erthygl ar wahân.

8. Gwahardd arteithio yw Erthygl 3. Ni ddylai unrhyw un orfod dioddef artaith neu driniaeth neu gosb creulon neu ddiraddiol.

9. Yr hawl am dreial teg yw Erthygl 6. Mae gan bawb hawl i gael gwrandawiad teg a chyhoeddus o fewn amser rhesymol gan dribiwnlys annibynnol a diduedd a sefydlwyd gan y gyfraith.

10. Erthygl 8 yw'r hawl i barchu bywyd preifat a theuluol. Mae gan bawb yr hawl i barchu eu bywyd preifat a theuluol, eu cartref a'u gohebiaeth.

11. Gwahardd gwahaniaethu yw Erthygl 14. Mae'n galluogi person i arfer ei hawliau dynol heb wahaniaethu ar unrhyw sail fel rhyw, hil, lliw, iaith,

crefydd, barn wleidyddol neu farn arall, tarddiad cenedlaethol neu gymdeithasol, cysylltiad â lleiafrif cenedlaethol, eiddo, genedigaeth neu statws arall.

**Deddf Cydraddoldeb 2010**

12. Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn amddiffyn person â nodweddion gwarchodedig rhag gwahaniaethu. Mae 9 nodwedd warchodedig: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

13. Mae'r ddeddf yn amlinellu'r gwahanol fathau o wahaniaethu, gan gynnwys:

- **Gwahaniaethu uniongyrchol** – person sy'n gwahaniaethu yn erbyn person arall os yw, oherwydd nodwedd warchodedig, yn ei drin yn llai ffafriol nag y byddent yn trin pobl eraill.

- **Gwahaniaethu anuniongyrchol** – person sy'n gwahaniaethu yn erbyn person arall os ydynt yn gosod darpariaeth, maen prawf neu arfer sy'n wahaniaethol ar y person mewn perthynas â nodwedd warchodedig berthnasol y person hwnnw.

**Canllawiau**

14. Rhaid i awdurdodau lleol roi sylw i'r Canllawiau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru wrth arfer eu swyddogaethau mewn perthynas â dyrannu eiddo a digartrefedd.

15. Cafodd Egwyddorion Tai yn Gyntaf – Egwyddorion Cenedlaethol a Chanllawiau i Gymru[43] eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â chysgu allan yng Nghymru. Eu pwrpas oedd cefnogi pobl ddigartref ag anghenion uwch a/neu gymhleth i lety sefydlog

16. Mae Canllawiau'r Rhaglen Cefnogi Pobl 2018 yn cynnig cymorth hanfodol i bobl sy'n eu cael eu hunain mewn amgylchiadau anodd. Ei nod yw helpu rhai o bobl fwyaf bregus Cymru, gan gynnwys y rheini sy'n

[43] Chwefror 2018

ddigartref, neu mewn perygl o fod yn ddigartref drwy atal digartrefedd, neu drwy helpu pobl ddigartref i ddod o hyd i lety a'i gadw.

17. Ar 7 Hydref 2019, lansiodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ymgynghoriad ar y Canllawiau ar y Grant Cymorth Tai. Y Grant Cymorth Tai yw'r rhaglen atal a chefnogi digartrefedd.

18. Mae Cynllun Digartrefedd 10 Mlynedd (2009-2019) Llywodraeth Cymru yn nodi rhai o'r egwyddorion arweiniol ar gyfer datblygu a chyflenwi gwasanaethau digartrefedd yng Nghymru. Mae'n canolbwyntio cyfrifoldeb ar achosion digartrefedd ac atal digartrefedd lle bo'n bosib, gan rymuso'r rheini sydd wedi'u heffeithio drwy weithio mewn partneriaeth.

19. Mae Strategaeth Dai Genedlaethol Llywodraeth Cymru 2010 "Gwella Bywydau a Chymunedau – Tai yng Nghymru" yn amlinellu'r sialensiau sy'n wynebu Awdurdodau Lleol wrth fodloni anghenion tai ei breswylwyr. Mae'r strategaeth yn cydnabod y cysylltiad rhwng llety diogel ac addas ag iechyd a llesiant yn ogystal â hyrwyddo mynediad cyfartal at dai a gwasanaethau i bawb.

20. Mae "Gwerthusiad Ôl-Weithredu o Ran 2 Deddf Tai (Cymru) 2014: Adroddiad Terfynol (19/07/2018)" Llywodraeth Cymru yn gwerthuso sut mae'r dyletswyddau digartrefedd a gyflwynwyd gan y Ddeddf Tai wedi cael eu gweithredu gan sefydliadau perthnasol; mae hyn yn cynnwys y cais am adolygiad. Daw'r adroddiad i ben gyda nifer o argymhellion, gan gynnwys cadw cofnodion llawn o adolygiadau ac apeliadau i helpu i roi darlun mwy cywir o sut mae'r ddeddfwriaeth yn cael ei dehongli a nodi lle mae angen mwy o ganllawiau.

21. Mae'r Cynllun Gweithredu Cysgu Allan 2018-2020 yn amlinellu cynllun Llywodraeth Cymru i ddeall, lleihau ac atal cysgu allan yng Nghymru drwy gymorth, allgymorth, mesur a monitro. Rhoddir ystyriaeth hefyd i atal, llety argyfwng, Tai yn Gyntaf, deddfwriaeth a chanllawiau statudol, cyllido, cydweithio a hyrwyddo arfer da.

22. Mae Strategaeth ar gyfer Atal a Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd (Hydref 2019) Llywodraeth Cymru yn amlinellu ei ddulliau o fynd i'r afael â digartrefedd yng Nghymru a'i atal.

23. Dyfeisiodd Llywodraeth Cymru y cynllun gweithredu canlynol i fynd i'r afael â digartrefedd yn ystod y pandemig COVID-19 ac ar ôl hynny:

| | | |
|---|---|---|
| Cam 1 | Mawrth 2020 – Awst 2020 | Rheoli Argyfwng |
| Cam 2 | Gorffennaf 2020 – Mawrth 2021 | Ymateb - Canllawiau Cynllunio i Wasanaethau Digartrefedd a Chymorth sy'n Gysylltiedig â Thai.[44] |
| Cam 3 | 3 Ionawr 2021 – Mawrth 2022 | Symud i'r "Normal Newydd" |

24. Cyhoeddodd Archwilio Cymru Sut mae Llywodraeth Leol yn rheoli galw (2018) sy'n asesu a yw Awdurdodau Lleol yng Nghymru yn mynd i'r afael â'r galwadau am wasanaethau digartrefedd a thai drwy ddatblygu strategaethau atal priodol ac effeithiol

25. Yn ei adroddiad ym mis Mehefin 2020, nododd Shelter Cymru y ceir tystiolaeth bod pwysau ar adnoddau hefyd wedi gwneud cost ymgyfreitha yn afresymol i rai awdurdodau lleol ei amddiffyn. I'r gwrthwyneb, mae'r her o sicrhau cyllid cymorth cyfreithiol hefyd wedi bod yn afresymol i rai hawlwyr posib. O ganlyniad, mae penderfyniadau anffurfiol yn aml wedi'u diogelu fel dewis arall yn lle profi materion yn y Llys. Mae hyn wedi arwain at golli cyfle i ddatblygu achosion cyfreithiol rhwymol ac amrywiant o ran dull gweithredu gan wahanol awdurdodau lleol sy'n golygu y gallai'r cyfle i rannu arfer da a dysgu hefyd gael ei golli. Dywedodd Shelter Cymru fod rhywfaint o dystiolaeth anecdotaidd y gallai awdurdodau lleol, ar brydiau, fod wedi ail-ystyried penderfyniad asesu nid oherwydd eu bod yn teimlo bod y penderfyniad gwreiddiol yn ddiffygiol yn gyfreithiol, ond oherwydd diffyg adnoddau i amddiffyn y penderfyniad mewn apêl neu gerbron yr Uchel Lys.

26. Mae Rhaglen Lywodraethu[45] Llywodraeth Cymru yn addo "gwneud ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi yn lleoedd gwell fyth i fyw a gweithio ynddynt" drwy ymgymryd â gwaith a fydd yn cynnwys adeiladu 20,000 o gartrefi carbon isel newydd i'w rhentu, diwygio gwasanaethau digartrefedd yn sylfaenol i ganolbwyntio ar atal ac ailgartrefu'n gyflym a gwella diogelwch adeiladau fel bod pobl teimlo'n ddiogel yn eu cartrefi. Yn ogystal, mae amcanion llesiant Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnwys datblygu cynllun cenedlaethol sy'n cyfyngu rhent i lefelau lwfans tai lleol i deuluoedd

[44] 3 Mehefin 2020
[45] 2021-2026

a phobl ifanc sy'n ddigartref neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref a sicrhau bod landlordiaid Rhentu Cymru yn ymateb yn gyflym i gwynion am hiliaeth a throseddau casineb a chynnig cefnogaeth briodol.

27. Mae Cod Canllawiau Awdurdodau Lleol yng Nghymru[46] yn nodi y gall ceiswyr gwyno i'm swyddfa os ydynt o'r farn eu bod wedi wynebu anghyfiawnder oherwydd camweinyddu neu fethiant o fewn y gwasanaeth gan awdurdod lleol. Gallaf ymchwilio i'r ffordd y mae penderfyniad wedi'i wneud ond efallai na fyddaf yn cwestiynu rhinweddau penderfyniad a wnaed yn iawn, ac eithrio mewn perthynas â darparu iechyd neu ofal cymdeithasol.

28. Wrth ymateb i'r pandemig COVID-19, cynhyrchodd Llywodraeth Cymru ganllawiau ar Coronafeirws: cymorth i awdurdodau lleol ar gysgu allan.[47] Mae'r canllawiau hyn yn nodi'r mesurau y mae angen i awdurdodau lleol eu rhoi ar waith i sicrhau bod:

- gan bobl sy'n cysgu allan, neu sydd mewn perygl o gysgu allan, a'r rheini sydd mewn llety dros dro annigonol y gefnogaeth, yr adnoddau a'r polisïau sydd eu hangen i amddiffyn eu hunain
- gan bobl fynediad at gyfleusterau sy'n eu galluogi i gadw at ganllawiau iechyd cyhoeddus ar hylendid neu ynysu
- defnyddio pwerau ac arian amgen i gynorthwyo'r rheini sydd heb fynediad at arian cyhoeddus sydd angen lloches a mathau eraill o gymorth oherwydd y pandemig COVID-19
- lliniaru eu risg o haint ac i sicrhau eu bod yn gallu hunanynysu fel sy'n briodol yn unol â chanllawiau iechyd y cyhoedd, er mwyn lleihau'r risg o'i drosglwyddo i eraill.

29. Cyhoeddwyd canllawiau i awdurdodau lleol hefyd ynglŷn â'u rôl wrth ystyried bod yn agored i niwed ac angen blaenoriaethol y rhai sy'n chwilio am lety. Mae 'Angen blaenoriaethol am lety – pobl sy'n cysgu allan yn ystod y pandemig COVID 19' yn cyfeirio'n benodol at y pandemig COVID 19 a'r angen i hunanynysu a chadw pellter cymdeithasol fel rheswm arbennig sy'n arwain at angen blaenoriaethol am lety.

[46] Mawrth 2016
[47] Diweddarwyd ddiwethaf 12 Mai 2020

**Polisi**

30. Mae pob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru wedi llofnodi Cyfamod y Lluoedd Arfog. O dan delerau'r Cyfamod, ni ddylai aelodau'r Lluoedd Arfog, cyn-filwyr a'u teuluoedd wynebu unrhyw anfantais o'i gymharu â dinasyddion eraill wrth ddarparu gwasanaethau'r awdurdod lleol fel tai. Mae ystyriaeth arbennig yn briodol mewn rhai achosion, er enghraifft, i'r rhai sydd wedi'u hanafu neu mewn profedigaeth.

**ATODIAD 4**

## Methodoleg ar gyfer samplo cofnodion achos

1. Cafodd sampl o achosion o bob un o'r 3 Awdurdod a Ymchwiliwyd eu hystyried yn fanwl gan fy Swyddogion Ymchwilio. O ystyried y gwahaniaeth sylweddol ym maint yr awdurdodau hyn, roeddwn i eisiau sicrhau bod maint unrhyw sampl yn deg ac nad oedd yn rhoi pwysau diangen ar yr Awdurdodau Lleol ond ei fod hefyd yn ddigon arwyddocaol yn ystadegol i lywio'r adroddiad hwn.

2. Cyrhaeddwyd y ffigurau sampl drwy bennu nifer yr asesiadau digartrefedd fesul 1000 o breswylwyr, a oedd yn rhoi'r 3 awdurdod ar sail fwy cyfartal. Caerdydd oedd y mwyaf a Wrecsam oedd y lleiaf.

3. Drwy ddefnyddio'r wybodaeth honno, yn ogystal â gwybodaeth am nifer yr adolygiadau y gofynnwyd amdanynt ym mhob Awdurdod a Ymchwiliwyd, penderfynwyd mai maint y sampl fyddai 5% o'r adolygiadau neu 20 achos, p'un bynnag fyddai'r nifer fwyaf, a 10% o'r penderfyniadau a gafodd eu gwrthdroi neu 10, pa un bynnag oedd y nifer fwyaf. Dewisodd pob Awdurdod a Ymchwiliwyd y nifer ofynnol o achosion o blith yr achosion yr ymdriniwyd â nhw rhwng 2018 - 2021.

**ATODIAD 5**

## Tystiolaeth a dderbyniwyd mewn ymateb i'r Ymgynghoriad ar bwnc asesiadau ac adolygiadau digartrefedd

### Llywodraeth Cymru

1. Mae gan Adran Dai Llywodraeth Cymru adran benodol ar ddigartrefedd yng Nghymru. Mae'r wefan yn darparu gwybodaeth, arweiniad a chefnogaeth ar atal digartrefedd a symud pobl yn ôl i lety diogel.

2. Mae gan awdurdodau lleol yng Nghymru ddyletswydd i gyhoeddi strategaeth ddigartrefedd. Dylai hwn ddarparu gwybodaeth am y camau y mae'r awdurdod lleol yn eu cymryd i atal digartrefedd, manylion y llety addas sydd ar gael i bobl sy'n ddigartref a manylion y cymorth statudol i bobl sy'n ddigartref.

3. Mae ystadegau Llywodraeth Cymru yn dangos, ar gyfer y cyfnod 2017-2018, bod nifer yr aelwydydd yr aseswyd eu bod yn ddigartref yng Nghymru wedi cynyddu ers y flwyddyn flaenorol. Roedd 2229 o aelwydydd yn ddigartref yn anfwriadol ac roedd ganddynt angen blaenoriaethol. Mae'r rhan fwyaf yng Nghaerdydd (669), Casnewydd (279), Caerfyrddin (162), Caerffili (135) a Bro Morgannwg (120). Ceir ystadegau ychwanegol am nifer yr aelwydydd sy'n gwneud cais i awdurdodau lleol am gymorth tai a nifer yr aelwydydd digartref sy'n byw mewn llety dros dro. Caiff yr ystadegau hyn eu diweddaru bob chwarter.

4. Addawodd Llywodraeth Cymru £10 miliwn tuag at letya pobl ddigartref yn ystod pandemig COVID-19.

5. Cyfarfu Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ("y Pwyllgor") Llywodraeth Cymru ar 5 Mai 2020 i drafod effaith COVID-19. Canmolodd y Pwyllgor y camau a gymerwyd i amddiffyn pobl a oedd yn ddigartref yn ystod y pandemig. Nodwyd bod awdurdodau lleol wedi lleihau nifer y bobl sy'n cysgu allan i ffigyrau sengl, gyda 6 Awdurdod Lleol heb neb yn cysgu ar y stryd o gwbl.

6. n y Pwyllgor, dywedodd Julie James AC fod dod o hyd i'r llety iawn a rhoi gwasanaethau cofleidiol ar waith yn ymdrech fawr i bawb. Dywedodd fod yn rhaid iddynt ddelio â'r heriau o sicrhau nad yw'r bobl hynny sydd mewn llety yn dychwelyd i'r stryd. Dywedodd eu bod yn poeni'n fawr am y rheini sydd heb fynediad at arian cyhoeddus.

7. Dywedodd fod cynllun ar waith i ddarparu llety ffisegol i bobl. Fodd bynnag, y mater mwy heriol oedd cael pobl i mewn i wasanaethau a oedd wedi bod yn amhosibl eu cyrraedd. Dywedodd eu bod yn ymwybodol y dylid sicrhau na fyddai llithro yn ôl yn digwydd ac y byddent hefyd yn ceisio cyflymu rhaglenni adeiladu tai fel nad oedd ymchwydd o bobl yn chwilio am dai ar ddiwedd y cyfnod clo.

8. Dywedodd Julie James AC eu bod yn awyddus i gael gwasanaethau cefnogi o amgylch pobl a oedd yn hanfodol i gynnal tenantiaeth. Dywedodd y Cyfarwyddwr Tai ac Adfywio mai'r modelau gorau oedd y rhai a oedd wedi gallu cynnig amrywiaeth o wasanaethau ynghyd â llety ac roeddent wedi gweld awdurdodau lleol yn bod yn greadigol yn y dulliau a ddefnyddiwyd. Nododd mai enghreifftiau da o wasanaethau oedd llety lle'r oedd pobl yn derbyn presgripsiynau ac yn y blaen mewn un lle. Dywedodd eu bod yn gweld llety gyda chymorth ledled Cymru a bod newidiadau o ran rhagnodi ar gyfer pobl sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau yn dechrau darparu llwybr i bobl at sefydlogrwydd a thai tymor hir.

## Grŵp Gweithredu Gweinidogol

9. Ar 28 Mehefin 2019, sefydlodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol Grŵp Gweithredu Gweinidogol ("MAG") a oedd yn ymrwymedig i'r nod o roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru. Mae'r MAG yn rhoi cyngor ar ffyrdd o atal a rhoi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru drwy ystyried y cwestiynau canlynol:

a) Pa fframwaith o bolisïau, dulliau gweithredu a chynlluniau sydd eu hangen i roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru? (Sut beth yw rhoi diwedd ar ddigartrefedd go iawn?)

b) Pa gamau y gallwn eu cymryd ar unwaith i leihau cysgu allan rhwng nawr a gaeaf 2019/20, ac i roi diwedd ar gysgu allan yn gyfan gwbl?

c) Sut mae gosod ailgartrefu cyflym a pharhaol wrth wraidd atal, mynd i'r afael â digartrefedd a rhoi diwedd arno?

d) Sut y gallwn sicrhau bod partneriaethau a chynlluniau lleol cydgysylltiedig yn cael eu rhoi ar waith i atal, mynd i'r afael â digartrefedd ledled Cymru, a rhoi diwedd arno?

10. Yn ei adroddiad ym mis Hydref 2019 "Atal Cysgu ar y Stryd yng Nghymru a'i leihau yn y tymor byr", gwnaeth MAG nifer o argymhellion ar fesurau tymor byr i leihau digartrefedd a nodau atal tymor hwy. Mae adroddiad MAG ym mis Mawrth 2020, "Fframwaith o bolisïau, dulliau a chynlluniau sydd eu hangen er mwyn diweddu digartrefedd yng Nghymru (Sut beth yr digartrefedd yn Nghymru)", yn canolbwyntio ar strategaethau atal digartrefedd gyda'r bwriad o roi diwedd ar ddigartrefedd neu, o leiaf, ei wneud yn ddigwyddiad prin.

**Archwilio Cymru**

11. Dywedodd Archwilio Cymru wrthym eu bod wrthi'n cwblhau ymchwiliad yng nghyswllt Cysgu ar y Stryd yng Nghymru. Dywedwyd wrthym y byddai hyn yn hwyluso adolygiad o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ac asesiad o p'un a oeddent yn gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid fel Carchardai, Iechyd a Gwasanaethau Iechyd Meddwl, i wneud gwahaniaeth i'r niferoedd sy'n cysgu allan a darparu gwasanaethau. Dywedwyd wrthym fod Archwilio Cymru wedi penderfynu ystyried y sefyllfa mewn 3 ardal yng Nghymru lle mae nifer fawr o bobl yn cysgu allan. Wrecsam, Caerdydd ac Abertawe yw'r ardaloedd a ddewiswyd. I ddechrau, roedd Archwilio Cymru yn bwriadu cwblhau a rhyddhau eu cyhoeddiad ym mis Ebrill 2020, ond cafodd hyn ei ohirio oherwydd effaith COVID-19.

12. Cafodd adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, Cysgu ar y Stryd yng Nghymru - Problem Pawb; Cyfrifoldeb Neb[48], ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2020. Penderfynodd yr adolygiad fod mynd i'r afael â chysgu ar y stryd yn gofyn am feddwl yn gyfannol ac nid yn llinol, a chyfranogiad ac ymrwymiad ystod lawn o gyrff cyhoeddus i weithio gyda'i gilydd i ddarparu ymateb integredig.

---

[48] Cysgu Allan yng Nghymru – Problem i Bawb; Cyfrifoldeb i Neb

## Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ("FGC")

13. Cadarnhaodd FGC fod digartrefedd yn fater y maent yn ei ystyried fel rhan o'r gwaith o fonitro ac asesu'r nod 'Iechyd a Lles' cenedlaethol . Cadarnhaodd y byddai'n agored iawn i weithio gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar brosiectau ar y cyd. Roedd yn gallu dod o hyd i swyddogion yn FGC a oedd yn ymwneud â gwaith cysylltiedig â digartrefedd. Cadarnhaodd y swyddogion hyn fod eu gwaith ar ddull gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer 'gwariant ataliol'[49] yn galw am ystyried y sefyllfa o ran digartrefedd. Hefyd, un o brif feysydd ffocws y Gynhadledd oedd 'cadw pobl yn iach' ac roedd yn ystyried bylchau rhwng y gwasanaeth iechyd a thriniaeth yn y cyd-destun hwnnw. Eglurodd fod ei waith yn aml yn cael ei ystyried o safbwynt y 'di-lais', fel plant, oedolion iau a phobl agored i niwed, fel y digartref. Roedd un o'i swyddogion hefyd yn aelod o Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd Llywodraeth Cymru.

## Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ("OPCW")

14. Dywedodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ei fod yn tueddu i dderbyn cwynion am faterion "amser real", fel tocynnau bws a thrwyddedau teledu. Gan fod gwasanaethau eiriolaeth mwy arbenigol megis Shelter Cymru ar gael i helpu pobl gyda materion tai a digartrefedd, nid yw'r Comisiynydd yn derbyn y math hwnnw o gwynion, felly nid yw digartrefedd a materion cysylltiedig yn faes y mae'n canolbwyntio arno. Nid yw'n ystyried y gallai ychwanegu gwerth at y gwaith hwn, yn enwedig pan fo'r trydydd sector yn y maes hwn mor gryf yng Nghymru.

## Comisiynydd Plant Cymru ("CCW")

15. Dywedodd CCW fod digartrefedd a'r materion sy'n gysylltiedig â hyn wedi'u cynnwys yn ei adroddiad monitro 'Ar Goll ar ôl Gofal' yn 2013. Fel rhan o hynny, ystyriodd CCW bryderon bod yna ddiffyg llety fforddiadwy priodol ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal. Canfu'r adroddiad fod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn canolbwyntio ar bolisïau neu brotocolau tai ieuenctid mwy cyffredinol ac nad oeddent yn delio'n benodol â'r rhai sy'n gadael gofal. Roedd awgrymiadau a wnaed gan CCW yn cynnwys darparu cymorth tenantiaeth, cynllunio ar gyfer llety â chymorth a bod gweithwyr cymdeithasol a chynghorwyr personol yn derbyn hyfforddiant neu wybodaeth flynyddol.

---
[49]Defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon ac effeithiol.

16. Dywedodd CCW nad yw'n delio â gwaith achos fel hyn, ac yn aml mae oedolion yn cael cymorth gan fudiadau eraill sydd â phroblemau cysylltiedig pan fydd teuluoedd yn wynebu digartrefedd.

## Shelter Cymru

17. Roedd Shelter Cymru yn hapus iawn i ymgysylltu ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a rhannu'r wybodaeth a oedd ganddo mewn perthynas â'r Broses Adolygu Digartrefedd. Dywedodd ei fod, yn 2019, wedi gofyn am wybodaeth drwy geisiadau rhyddid gwybodaeth gan bob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru ynghylch nifer y ceisiadau am adolygiad o dan adran 85 H(W)A 2014 y maent yn eu cael bob blwyddyn a'r rhesymau drostynt. Gofynnodd Shelter Cymru hefyd faint o'r penderfyniadau a adolygwyd a wrth-drowyd. Darparwyd y wybodaeth gan 19 awdurdod lleol (ni chafwyd ymateb gan Gyngor Sir Gâr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Chyngor Sir Ynys Môn).

18. Yn anecdotaidd, roedd Shelter Cymru hefyd yn gallu rhoi cyngor ar arferion da a welwyd gan ei weithwyr achos mewn rhai awdurdodau lleol. Un enghraifft yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, sydd â Swyddog Adolygu dynodedig, sy'n eistedd ar wahân i'r tîm Tai. Dywedir bod ganddo Broses glir a hawdd, sy'n ei gwneud yn hawdd iawn cwblhau gwrandawiadau adolygu llafar ac ysgrifenedig. Ym mhrofiad Shelter Cymru, cynhelir adolygiadau yn unol â rheoliadau ac fel arfer o fewn yr amserlen. Yn gyffredinol, mae'n ymddangos bod dull Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr o gynnal adolygiadau yn hwyluso mynediad rhwydd at y Broses. Er hynny, mae tuedd barhaus o gynnydd yn nifer yr adolygiadau yn y maes hwn. Gallai hyn fod o ganlyniad i ddull rhagweithiol Pen-y-bont ar Ogwr o hysbysu ymgeiswyr o'u hawl i gael adolygiad a mynediad at gyngor annibynnol.

19. Unwaith eto, yn anecdotaidd, mae gan Shelter Cymru bryderon nad yw pob awdurdod lleol yn cyhoeddi llythyrau penderfyniad o ansawdd da ac yn rhoi gwybodaeth i bobl am yr hawl i gael adolygiad. Dywed nad yw defnyddwyr y gwasanaeth yn deall y llythyrau hyn yn iawn ar y cyfan, sy'n her i'r awdurdodau lleol, gan fod angen i'r llythyrau fod yn dechnegol gywir, ond nid yw'r wybodaeth dechnegol bob amser yn hawdd ei deall. Roedd pryderon eraill a nodwyd gan rai awdurdodau yn faterion ynghylch oedi a'r amser a gymer i gynnal adolygiad. Yn aml, mae rhywfaint o waith mynd

drywydd penderfyniadau a gwybodaeth yn cael ei wneud. Dywedodd Shelter Cymru ei fod wedi herio llawer o benderfyniadau'n llwyddiannus ac wedi gorfod mynd ar drywydd pwyntiau cyfreithiol drwy'r Llys Sirol ac ymlaen i Adolygiad Barnwrol[50] mewn nifer fach o achosion. Mae achosion o'r math hwn yn aml yn cael eu setlo neu eu datrys yn anffurfiol drwy gytundeb gyda'r Awdurdodau lleol.

20. Eglurodd Shelter Cymru ei bod yn rhaid i'w gleientiaid, y tu hwnt i'r Broses Adolygu, fodloni 'prawf modd a phrawf teilyngdod' er mwyn cael Cymorth Cyfreithiol ar gyfer achosion apêl neu adolygiad barnwrol. Gall hyn fod yn heriol i rai pobl sy'n cysgu allan neu'n syrffio soffas, gan fod angen tystiolaeth o fodd ar ffurf cyfriflenni banc yn gyffredinol. Gall diffyg asiantaethau cynghori sy'n arbenigo mewn cyfraith tai hefyd ei gwneud yn anodd iawn i bobl gael gafael ar gymorth gyda'r Adolygiad a/neu'r Broses Apelio.

21. Cyhoeddodd Shelter Cymru ei adroddiad, Implementing the Housing (Wales) Act Act 2014: The role of homelessness reviews and litigation - Shelter Cymru, ym mis Mehefin 2020. Canfu Shelter Cymru, er bod nifer yr adolygiadau'n gymharol isel, fod awdurdodau lleol yn gwneud gwaith y tu allan i'r Broses Adolygu ffurfiol, mewn ymgais i ddatrys materion yn gyflym ac yn effeithiol i'r ymgeisydd; mae hyn yn unol ag ysbryd HWA. Fodd bynnag, mae hyn yn golygu bod awdurdodau lleol yn dilyn dulliau gwahanol, nid oes cyfle i rannu arferion da a dysgu, ac nid oes cyfraith achosion rhwymol ar gael i roi arweiniad i'r rhai yr effeithir arnynt.

## Llamau

22. Elusen ddigartrefedd yng Nghymru yw Llamau. Mae'n darparu cefnogaeth i ferched a phobl ifanc agored i niwed, yn enwedig y rhai sy'n gadael gofal, pobl sydd wedi bod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol, pobl sydd wedi profi cam-drin domestig a phobl sydd wedi byw mewn ffordd anhrefnus a difreintiedig.

23. Yng ngoleuni'r math o gefnogaeth a ddarperir gan Llamau i'w gleientiaid, roedd ei bryderon yn ymwneud ag ansawdd a diogelwch y llety a gynigir i bobl ifanc ac agored i niwed, yn hytrach na'r Broses Adolygu ei hun.

[50] Gweithdrefn y gall llys ei defnyddio i adolygu achos gweinyddol gan gorff cyhoeddus.

**Cyngor ar Bopeth Cymru**

24. Mae Cyngor ar Bopeth Cymru yn darparu gwasanaeth hanfodol i'r cyhoedd yng Nghymru. Mae camweinyddu yn aml yn nodwedd allweddol o'r pryderon a godir Dywedodd, er bod mudiadau trydydd sector eraill yn fwy cyffredin yn darparu cymorth gyda materion digartrefedd a thai, bod cysylltiad cryf yn aml rhwng y materion sy'n ymwneud ag arian a rheoli dyledion. Yn anecdotaidd, dywedodd ei fod wedi gweld elfen o 'borthgadw' yn y ddarpariaeth neu fynediad at wasanaethau yn y cyd-destun hwn ac o ran mynediad at lety.

25. Yn anffodus, oherwydd y ffordd y mae data cwynion yn cael ei gasglu, nid oedd yn gallu mesur maint ei waith lle roedd hyn yn nodwedd.

## Taflenni Feithiau

**Cardiff Council's Factsheet**

# Y Gyfraith ynglŷn â Digartrefedd yng Nghymru

Deddf Tai (Cymru) 2014 yw'r gyfraith sy'n llywodraethu penderfyniadau tai. Mae Rhan 2 yn ymwneud â digartrefedd a cheir crynodeb o'r prif ddyletswyddau fan hyn.

### Asesiad a Hysbysiad

### Asesiad - Adran 62

Rhaid i'r Cyngor gynnal asesiad o geisydd ac os yw'n gymwys, rhaid iddo ystyried amgylchiadau ac anghenion tai a chymorth y ceisydd.

### Hysbysiad am ganlyniad yr asesiad - Adran 63

Rhaid i'r Cyngor hysbysu'r ceisydd pa ddyletswyddau, os o gwbl, sy'n ddyledus o dan yr Adran hon.

Y dyletswyddau a all fod gan y Cyngor yw:

- Adran 60 - Dyletswydd i gynnig cyngor a chymorth
- Adran 66 - Dyletswydd i helpu i rwystro digartrefedd
- Adran 68 - Dyletswydd i ddarparu llety dros dro
- Adran 73 – Dyletswydd i helpu i sicrhau llety addas
- Adran 75 – Dyletswydd i ddarparu llety sefydlog

### Beth yw'r dyletswyddau a sut gallant ddod i ben

Pan fydd y Cyngor wedi derbyn dyletswydd dim ond mewn amgylchiadau penodol y gall ddod i ben:

### Help i Rwystro Dyletswydd - Adran 66

Os yw ceisydd o dan fygythiad o ddod yn ddigartref bydd y cyngor yn gweithio gyda nhw i helpu i atal hyn rhag digwydd.  Gall y cymorth hwn gynnwys, er enghraifft, cyfryngu gyda'ch landlord, help gydag ôl-ddyledion rhent, a helpu i ddod o hyd i gartref arall. Bydd y cymorth hwn yn parhau cyhyd â bod siawns y gellir rhwystro digartrefedd.

### Gall y ddyletswydd hon ddod i ben os:

- Nad yw'r ceisydd bellach dan fygythiad o ddigartrefedd.
- Mae’r ceisydd yn gwrthod cynnig am lety.
- Nad yw’r ceisydd bellach yn gymwys am gymorth tai.
- Mae’r ceisydd wedi tynnu ei gais am dŷ yn ôl.
- Mae’r ceisydd yn afresymol wrth beidio â chydweithredu.
- Mae’r ceisydd wedi dod yn ddigartref.
- Camgymeriad ffeithiol.

### Dyletswydd Cynorthwyo i Sicrhau Llety - Adran 73

Os yw ceisydd yn ddigartref, bydd y Cyngor yn gweithio gyda nhw am hyd at 56 diwrnod i helpu i ddod o hyd i lety arall. Mae hyn yn debygol o fod yn y sector rhentu preifat, ac os yw'n gymwys, darperir cymorth i dalu bond a rhent ymlaen llaw.

### Gall y ddyletswydd hon ddod i ben os yw:

- Y cyfnod o 56 diwrnod wedi dod i ben neu'n gynt os yw'r cyngor yn fodlon bod yr holl gamau rhesymol wedi'u cymryd (yna bydd y Cyngor yn ystyried a oes dyletswydd dai derfynol yn ddyledus i'r ceisydd).
- Mae'r Cyngor yn fodlon bod gan y ceisydd lety addas.
- Mae'r ceisydd yn gwrthod cynnig am lety.
- Nid yw'r ceisydd bellach yn gymwys am gymorth tai.
- Mae'r ceisydd wedi tynnu ei gais am dŷ yn ôl.
- Mae'r ceisydd yn afresymol wrth beidio â chydweithredu.
- Gwnaed penderfyniad oherwydd camgymeriad ffeithiol.

### Dyletswydd Terfynol i Sicrhau - Adran 75

Os yw ceisydd dal yn ddigartref ar ddiwedd y 56 diwrnod, bydd penderfyniad digartref terfynol yn cael ei wneud. Bydd yn ystyried os oes gan geisydd anghenion blaenoriaethol, ac a yw'r ceisydd wedi dod yn ddigartref yn fwriadol. Bydd y Cyngor yn hysbysu'r ceisydd yn ysgrifenedig o'r penderfyniad hwn a bydd hyn yn cynnwys eu hawliau i ofyn am adolygiad os ydynt yn anghytuno.

Mae penderfyniad tai terfynol yn golygu bod dyletswydd ar y Cyngor i ddod o hyd i lety sefydlog i'r ceisydd. Gall hyn fod yn y sector rhentu preifat neu yn y sector cymdeithasol.

### Gall y ddyletswydd hon ddod i ben os:

- Yw’r ceisydd yn derbyn cynnig wrth y Rhestr Aros Gyffredin neu denantiaeth y sector rhentu preifat.
- Mae’r ceisydd yn gwrthod cynnig o lety addas, gan gynnwys o’r Rhestr Aros Gyffredin, cynnig o’r sector rhentu preifat neu gynnig am lety dros dro.
- Mae’r ceisydd wedi dod yn ddigartref yn fwriadol o lety dros dro.
- Mae’r ceisydd yn rhoi’r gorau’n wirfoddol i fod mewn llety dros dro.
- Nid yw'r ceisydd bellach yn gymwys am gymorth tai.
- Mae’r ceisydd wedi tynnu ei gais am dŷ yn ôl.
- Mae'r ceisydd yn afresymol wrth beidio â chydweithredu.
- Gwnaed penderfyniad oherwydd camgymeriad ffeithiol.

## Dyletswydd Llety Dros Dro - Adran 68

Os credir bod cleient yn ddigartref a bod anghenion blaenoriaethol, bydd y Cyngor yn cynnig llety dros dro iddyn nhw fyw tra bod eu problemau tai yn cael eu datrys.

## Gall y ddyletswydd hon ddod i ben os:

- Yw’r ceisydd yn gwrthod cynnig am lety dros dro.
- Mae’r ceisydd yn gadael llety dros dro yn wirfoddol neu’n fwriadol.
- Mae’r ddyletswydd o dan Adran 73 wedi dod i ben.
- Nid yw’r ceisydd bellach yn gymwys am gymorth tai.
- Mae'r ceisydd wedi tynnu ei gais am dŷ yn ôl.
- Mae'r ceisydd yn afresymol wrth beidio â chydweithredu.
- Gwnaed penderfyniad oherwydd camgymeriad ffeithiol.

## Atgyfeiriadau Cysylltiadau Lleol i Fwrdeistrefi Eraill - Adran 80

Bydd ceiswyr yn cael eu hatgyfeirio at fwrdeistref fwy addas os yw’r Cyngor o’r farn bod yr amodau atgyfeirio wedi’u bodloni, sef:

- Nid oes gan y ceisydd nac unrhyw berson y gellid yn rhesymol ddisgwyl iddo fyw gyda nhw, gysylltiad lleol lle cafodd y cais ei wneud.
- Mae gan y ceisydd, neu berson y gellid yn rhesymol ddisgwyl iddo fyw gyda nhw, gysylltiad lleol ag ardal yr awdurdod arall.
- Ni fydd y ceisydd, nac unrhyw berson y gellid yn rhesymol ddisgwyl iddo fyw gyda nhw, mewn perygl o gam-drin domestig yn yr ardal arall honno.
- Mae gan y ceisydd anghenion blaenoriaethol.
- Nid yw’r ceisydd yn ddigartref yn fwriadol.

## Hysbysiad bod y dyletswyddau wedi dod i ben - Adran 84

Lle bo’r Cyngor yn penderfynu bod ei ddyletswydd tuag at geisydd o dan adrannau 66, 68, 73 neu 75 wedi dod i ben, rhaid iddo hysbysu'r ceisydd:

- nad yw bellach yn ystyried ei hun yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd berthnasol,
- y rhesymau pam ei fod o'r farn bod y ddyletswydd wedi dod i ben,
- hawl y ceiswyr i ofyn am adolygiad, ac
- o'r amser y mae'n rhaid gwneud cais o'r fath.

Rhaid rhoi rhybudd ysgrifenedig. Os nad oes gan y cais gyfeiriad post, gellir ei gasglu o swyddfa'r cyngor gan y ceisydd neu rywun arall ar ei ran.

Taflen Ffeithiau Cyngor Sir Gâr

# Opsiynau Tai y Sector Preifat

## Ble i edrych?

- **Gwefannau**

www.zoopla.co.uk
www.rightmove.co.uk
www.gumtree.co.uk
www.spareroom.co.uk
www.flatshare.com
www.onthemarket.co.uk

- **Papurau lleol**

Llanelli Star
Carmarthen journal
South Wales Guardian
Evening post

- **Cyfryngau Cymdeitha**

Facebook spotted Llanelli
Facebook spotted Carmarthen
Facebook spotted Ammanford

- **Hysbysfyrddau mewn archfarchnadoedd**
- **Asiantau Tai Lleol**

## Ydw i'n gallu cael help tuag at y rhent?

Efallai eich bod yn gymwys i gael budd-dal tai. Bydd eich budd-dal tai yn seiliedig ar y gyfradd Lwfans Tai Lleol, sy'n berthnasol i chi. Mae hyn yn dibynnu ar nifer yr ystafelloedd gwely a ganiateir i chi. Am wybodaeth bellach cysylltwch â budd-daliadau tai ar 01554 742100.

| | | |
|---|---|---|
| *Llety sy'n cael ei rannu ac o dan 35 oed* | £271.74 fesul mis calendr | £62.71 yr wythnos |
| *Cyfradd 1 Ystafell Wely a thros 35 oed* | £349.05 fesul mis calendr | £80.55 yr wythnos |
| *2 Ystafell Wely* | £423.84 fesul mis calendr | £97.81 yr wythnos |
| *3 Ystafell Wely* | £478.70 fesul mis calendr | £110.47 yr wythnos |
| *4 Ystafell Wely* | £593.36 fesul mis calendr | £136.93 yr wythnos |

## Oes gen i hawl i unrhyw fudd-daliadau eraill?

Gallwch edrych ar y wefan www.entitledto.co.uk

## Ydw i'n gallu cael help gyda bond?

Efallai eich bod yn gymwys am fond drwy gynllun bond Gwalia. Bond papur yw hwn, nid arian parod. Sicrhewch nad ydych yn llofnodi cytundeb tenantiaeth nes eich bod yn trafod eich achos gyda'r cynllun bond yn uniongyrchol neu efallai na fyddant yn gallu helpu.
Cysylltwch â chynllun bond Gwalia ar 01554 899327.

# Opsiynau eraill a chyngor

## Asiantaeth Gosod Tai Cymdeithasol



Mae'r asiantaeth Gosod Tai Cymdeithasol yn wasanaeth mewnol gan Gyngor Sir Gâr ar gyfer gosod tai preifat. Mae gennym amrywiaeth o lety ar draws Sir Gâr rydym yn eu gosod ar ran Landlordiaid preifat. Bydd angen i chi gael eich cyfweld, ac os bydd eiddo ar gael yn yr ardal o'ch dewis chi, byddan nhw'n cysylltu â chi. Ffoniwch yn uniongyrchol ar 01554 899276.

## Ble alla i fynd i gael cyngor ar fy nyledion?

Gall cynghorydd dyled arbenigol Shelter roi cyngor a chefnogaeth i chi ynglŷn â'ch dyledion. Ffoniwch yn uniongyrchol ar 01554 89928

## Ble alla i fynd i gael cyngor ar hyfforddiant neu swyddi?

Gallwch gael mynediad at gefnogaeth a chyngor drwy ein 'Hwb', sydd yng nghanol Llanelli. Mae mynediad am ddim i'r rhyngrwyd ar gael hefyd. Am fwy o wybodaeth, ewch i www.onecarmarthenshire.co.uk

## Ble alla i fynd i gael help gyda chyfryngu?

Os ydych chi'n cael trafferthion gyda'ch landlord, cymydog neu aelod o'ch teulu efallai y gallwch gael cymorth drwy ein tîm cyfryngu. Gallan nhw gefnogi drwy gynnig cyngor cyfryngu diduedd am ddim i bobl sy'n cael problemau gyda pherthnasoedd. Gall hyn gynnwys tenantiaid a landlordiaid hefyd. Gallwch gysylltu â nhw'n uniongyrchol ar 01554 899281

## Ydw i'n gallu cael help gyda fy nghelfi?

Efallai y gallwch gael cymorth ariannol drwy'r gronfa cymorth dewisol. Gallwch gysylltu â nhw'n uniongyrchol ar 0800 859 5924.

Gallwch gael celfi fforddiadwy o Sefydliad Prydeinig y Galon, Caerlas a chelfi wedi'u hai Xcel Caerfyrddin.

Gallwch gael nwyddau gwynion fforddiadwy drwy Gwyn I Wyrdd.

Gallwch ffonio 01269 845685 neu ewch i'w gwefan am gostau pellach: www.gwyniwyrdd.co.uk

www.gwywyrdd.co.uk

## Tai Cymdeithasol

Ar hyn o bryd, mae galw mawr am dai cymdeithasol yn Sir Gâr. Byddem yn argymell nad ydych yn dibynnu'n llwyr ar dai cymdeithasol i ddatrys eich problem dai. Edrychwch ar ein gwefan i weld yr amserlenni o ran sicrhau tai cymdeithasol. Dewiswch Tai ac yna gwnewch gais am dŷ, mae'r gyfrifiannell amser aros ar ochr dde'r dudalen. **www.carmarthenshire.gov.wales**

## Rhifau defnyddiol

**Canolfan Gyswllt Cyngor Sir Gâr:** 01267 234567
**Tai Pobl:** 0800 012 1080
**Tai Bro Myrddin:** 01267 232714
**Tai Teulu:** 01792 460192

**Cynllun Bond**: 01554 899327
**Budd-daliadau Tai:** 01554 742100
**Opsiynau Tai:** 01554 899389
**Treth Gyngor:** 01554 742200

**ATODIAD 7**

## Profiadau byw o 'Cymryd Sylw'

Roedd 'Cymryd Sylw' yn rhoi 4 stori profiad go iawn i fy ymchwiliad, gan roi cipolwg ar deithiau drwy'r broses ddigartrefedd a'r effaith a gafodd ar fywydau pobl.

**Stori Mr A**

1. Dychwelodd Mr A, sy'n ddinesydd y Du, ac yn 68 oed, ar ôl byw a gweithio dramor am flynyddoedd lawer, i'r DU. Dywedodd Mr A na allai ddychwelyd i'r wlad yr oedd wedi'i gadael. Felly dychwelodd i'w dref enedigol yng Nghymru, lle cyflwynodd i'r awdurdod lleol fel un digartref, gan nad oedd ganddo ddim cysylltiadau ariannol, ffrindiau na theulu i'w helpu i ymgartrefu yn y DU.

2. Dywedodd Mr A ei fod wedi siarad â pherson yn y dderbynfa a gymerodd ei wybodaeth, a dweud wrtho am ddod yn ôl ac y gallent ei helpu. Dywedodd Mr A fod y swyddog, pan ddychwelodd, wedi colli ei gofnodion.

3. Oherwydd hanes Mr A, defnyddiodd y Cyngor y prawf cymhwysedd/preswyliaeth yn anghywir a phenderfynodd y byddai'n rhaid iddo aros am 3 mis am gymorth.

4. Dywedodd Mr A na chafodd unrhyw gymorth na'i gyfeirio at sefydliad a allai ei helpu. Dywedodd, pan ofynnodd, "a yw hynny'n golygu fy mod i ar y stryd" y dywedwyd wrtho, "Rwy'n tybio hynny". Dywedodd Mr A na chafodd wybod am ei hawliau na sut y gallai herio'r penderfyniad.

5. Dywedodd Mr A nad oedd wedi gallu cofio ei rif Yswiriant Gwladol, a oedd yn oedi ei fynediad at fudd-daliadau ac ni chafodd unrhyw gymorth i'w adfer.

6. Dywedodd Mr A ei fod yn cysgu allan ar y stryd am 6 wythnos yn ystod y gaeaf nes iddo ddod ar draws rhywun ar hap o'r YMCA[51] a'i rhoddodd mewn cysylltiad â Crisis[52], a roddodd gartref iddo.

[51]Elusen sy'n darparu cefnogaeth i bobl ifanc.
[52]Elusen sy'n darparu cefnogaeth un-i-un i bobl ddigartref yn Ne Cymru.

7. Dywedodd Mr A ei fod wedi'i leoli mewn llety gwarchod ar gyrion ei dref a oedd yn ei gwneud yn anodd iawn mynd i unrhyw le. Dywedodd nad oedd y llety'n addas ac mai ef oedd y person ieuengaf yno. Dywedodd Mr A na chafodd unrhyw opsiynau eraill, er bod y llety'n anaddas. Dywedodd Mr A y dywedwyd wrtho y gallai ofyn am adolygiad ymhen 12 mis.

8. Dywedodd Mr A nad oedd ganddo syniad beth oedd ei gyfrifoldeb digartrefedd ac na chafodd unrhyw ohebiaeth, gan na ddwedwyd wrtho ble i'w chasglu.

9. Dywedodd Mr A fod adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth eraill yn awgrymu bod gwelliannau wedi bod ers hynny yng ngwasanaeth rheng flaen yr awdurdod lleol. Fodd bynnag, yn ei farn ef, nid oedd y bobl yn y dderbynfa wedi'u hyfforddi'n ddigonol i ddelio â materion cymhleth.

10. Dywedodd Mr A y dylid cael mentoriaid ar gyfer pobl ddigartref i'w cefnogi am o leiaf 6 mis.

**Stori Ms B**

11. Roedd Ms B yn berson proffesiynol ac yn rhiant sengl a oedd, ar ôl gweithio dramor am gyfnod, yn dychwelyd i'r DU i fyw. Dywedodd Ms B ei bod wedi aros gyda ffrind wrth iddi geisio trefnu ei llety, gan ei bod wedi cael gwybod gan yr awdurdod lleol na fyddai'n gymwys i gael cymorth, gan nad oedd wedi byw yn yr ardal am flwyddyn.

12. Symudodd Ms B i lety rhent preifat am oddeutu 18 mis, pan gafodd 'hysbysiad terfynu' o 1 mis. Roedd yr hysbysiad yn anghyfreithlon, ond roedd y broses wedi dechrau.

13. Gwnaeth Ms B gais i'r Cyngor am dŷ cymdeithasol ond dywedodd ei bod, yn y pen draw, wedi gorfod defnyddio ei chynilion i rentu eiddo preifat arall. Yn anffodus, bu farw'r landlord a phenderfynodd eu teulu werthu'r eiddo a chollodd Ms B ei chartref.

14. Ar ôl cael ychydig o lwc gyda'r awdurdod lleol gwreiddiol, trodd Ms B at awdurdod lleol gwahanol am gymorth. Roedd Ms B o'r farn y byddai'r symud yn golygu y byddai dod o hyd i waith yn haws, gan ei bod yn ardal fwy gyda gwell cysylltiadau trafnidiaeth. Gwrthododd yr ail awdurdod lleol helpu, gan nad oedd cysylltiad lleol â Ms B.

15. Beth amser yn ddiweddarach, bu’n rhaid i Ms B a’i mab ifanc ffoi rhag cam-drin domestig. Am resymau diogelwch, fe wnaethon nhw adael yr ardal yn gyfan gwbl a throi at awdurdod lleol gwahanol. Dyrannwyd fflat llawr cyntaf ar gyfer tai cymdeithasol i Ms B. Dywedodd Ms B fod ganddi rai pryderon am yr eiddo, ar ôl gweld cyflwr fflat y llawr gwaelod. Dywedodd Ms B ei bod yn dawel ei meddwl nad oedd problem gyda’r cymydog. Dywedodd Ms B ei bod wedi symud i’r fflat llawr cyntaf a’i ailaddurno a’i ddodrefnu, gan ddefnyddio’r hyn a oedd yn weddill o’i chynilion.

16. Dywedodd Ms B ei bod, yn fuan ar ôl symud i mewn, wedi sylweddoli bod ei chymydog yn gaeth i gyffuriau. Dywedodd Ms B y byddai’r cymydog yn dod i’w fflat ac yn tarfu arni hi a’i mab ac y byddai’n chwarae cerddoriaeth yn uchel, yn hwyr i’r nos. Dywedodd Ms B yr aflonyddid arni a’i bod yn cael ei bygwth gan bobl a oedd yn chwilio am ei chymydog, neu a oedd yn ei chamgymryd am ei chymydog. Dywedodd Ms B fod pobl yn cymryd gorddos o gyffuriau yn eiddo ei chymydog ac o’i gwmpas. Dywedodd Ms B ei bod hi a’i mab mewn ofn cyson a nododd fod yna ddynion ar y stryd a oedd yn achosi ofn i’w chymydog. Dywedodd Ms B ei bod wedi siarad â chyn denant ei fflat, a ddywedodd wrthi fod 11 o denantiaid wedi bod yn y fflat dros yr 16 mis diwethaf a bod y Cyngor yn ymwybodol o ymddygiad gwrthgymdeithasol ei chymydog a’i ffrindiau.

17. Dywedodd Ms B, ychydig wythnosau ar ôl symud i mewn, iddi hi a’i mab adael y fflat a throi at y Cyngor fel rhywun digartref, gan nad oeddent yn teimlo’n ddiogel i ddychwelyd. Dywedodd y Cyngor wrth Ms B ei bod yn ‘ddigartref yn fwriadol’, felly nid oedd ganddi hawl i gael cymorth. Dywedodd Ms B ei bod wedi gwrthod gadael nes iddi gael ei rhoi mewn llety diogel. Dywedodd Ms B ei bod hi a’i mab wedi cael eu rhoi mewn llety gwely a brecwast brys. Dywedodd Ms B fod rhywun sy’n gaeth i gyffuriau yno, yn anffodus, wedi torri i mewn i’w hystafell ac wedi dwyn peth o eiddo ei mab. Dywedodd Ms B ei bod yn teimlo ei bod wedi siomi ei mab yn ystod yr holl brofiad hwn, gan ei fod yn teimlo mor ofnus ac agored i niwed yn ei gartref.

18. Dywedodd Ms B fod rhwystrau, yn ei barn hi, yn atal pobl rhag helpu eu hunain. Dywedodd fod troseddwyr rhyw a rhai sy’n gaeth i gyffuriau yn aml yn cael eu cadw gyda’i gilydd, gan ei gwneud yn anodd i rai newid eu ffordd o fyw a chael gafael ar gymorth a chefnogaeth.

19. Dywedodd Ms B fod pobl ddigartref yn ceisio sicrhau llety drwy'r amser ond eu bod yn teimlo ei fod yn llethol. Dywedodd Ms B y byddai gofynion landlord yn dibynnu'n aml ar p'un a oedd yn eich hoffi ai peidio; os oedd yn eich hoffi, nid oedd angen taliad bond ond, os nad oedd, roedd arno eisiau bond a thâl rhent 'ymlaen llaw'.

20. Dywedodd Ms B nad oedd pobl ifanc yn cael digon o gefnogaeth i ddysgu sut i fod yn denantiaid da a gofalu amdanynt eu hunain, a oedd yn effeithio ar eu gallu i symud ymlaen. Hefyd, dywedodd fod prinder llety "Symud Ymlaen"[53], a bod y llety a oedd ar gael yn tueddu i fod ar ben isaf y farchnad dai.

**Stori Mr C**

21. Roedd Mr C yn gyn-filwr a oedd, ar ôl gadael y lluoedd arfog, wedi derbyn " £500 a thocyn unffordd i'w dref enedigol".

22. Dywedodd Mr C wrth yr awdurdod lleol ei fod yn ddigartref a dywedodd, er ei fod yn gyn-filwr ac yn dioddef o anhwylder straen ôl-drawmatig, y dywedwyd wrtho na ellid ei helpu. Hefyd, dywedodd y methwyd â'i gyfeirio at sefydliad a allai helpu. O ganlyniad, dywedodd Mr C ei fod wedi treulio cyfnod mewn 'sgwatiau' ar hyd coridor yr M4 a oedd, ynghyd â'r diffyg cefnogaeth, wedi effeithio ar ei iechyd.

23. Dywedodd Mr C fod dod o hyd i lety yn anodd gan nad oedd ganddo arian ac nad oedd llawer iawn o dai un ystafell wely na landlordiaid a fyddai'n derbyn 'bond papur'[54] ac nad oedd ond yn dod o hyd i lety pan oedd yn ddigon ffodus i ddod o hyd i landlord yn barod i'w dderbyn heb daliad bond.

24. Ar hyn o bryd mae Mr C yn gweithio i'r YMCA, gan ddarparu cefnogaeth i bobl ddigartref eraill. Dywedodd Mr C fod profiadau'r cleient o'r Broses yn aml yn negyddol, gan achosi niwed i'w les corfforol a meddyliol.

[53]Llety i unigolion tra byddant yn derbyn cefnogaeth y gall fod ei hangen arnynt, naill ai drwy wahanol gamau'r ddarpariaeth digartrefedd neu yn eu cartref eu hunain.

[54]Mae'r rhan fwyaf o landlordiaid preifat yn mynnu bod tenantiaid yn talu bond sy'n cyfateb i rent o fis i ddiogelu yn erbyn eiddo'n cael ei ddifrodi neu rhent heb ei dalu ar ddiwedd y denantiaeth. Mae 'bond papur', sy'n cael ei ddarparu gan gynlluniau sy'n cael eu rhedeg gan awdurdodau lleol, cymdeithasau tai neu elusennau, yn helpu pobl sy'n ddigartref i gael gafael ar lety rhent preifat drwy roi gwarant ysgrifenedig i landlord preifat i dalu am unrhyw golledion o ganlyniad i rent heb ei dalu neu ddifrod. Does dim arian yn newid dwylo mewn gwirionedd.

25. Dywedodd Mr C nad oedd yr awdurdodau lleol yn meddwl am yr effaith y byddai “llythyr mewn amlen frown” yn ei chael ar gleient. Dywedodd na fydd llawer yn agor y llythyrau, gan eu bod yn ofni’r cynnwys. O’r herwydd, dywedodd Mr C na ddylai awdurdodau lleol ddisgwyl i bobl agor, darllen a deall gohebiaeth a anfonir atynt. Dywedodd fod y rhai sy’n agor y llythyrau yn eu cael yn ddryslyd a bod yr iaith sy’n cael ei defnyddio’n achosi anhawster; disgrifiodd Mr C hyn fel “chwarae â phŵer”. Holodd Mr C a oedd angen i gleientiaid wybod popeth ac a allai awdurdodau lleol roi esboniad syml ynghylch beth mae’r wybodaeth yn ei olygu. Awgrymodd Mr C hefyd y dylid ystyried a ellid defnyddio negeseuon testun ac e-bost i roi gwybodaeth syml i bobl am yr hyn sy’n digwydd.

**Stori Ms D**

26. Mae Ms D yn mynd drwy’r system ddigartrefedd am yr eildro ar hyn o bryd. Dywedodd Ms D nad oedd wedi gweld unrhyw welliant yn y Broses yr eildro.

27. Roedd Ms D yn rhiant sengl a wahanodd oddi wrth ei gŵr (a oedd wedi’i chael yn euog o drosedd), gan achosi iddi orfod gadael y cartref priodasol. Dywedodd Ms D ei bod wedi cysylltu â’r Ganolfan Opsiynau Tai gan fod ei sefyllfa wedi mynd yn enbyd a’i bod yn teimlo bod y Swyddog yn anghwrtais iawn tuag ati. Dywedodd Ms D ei bod wedi cael gwybod yn ystod y sgwrs bod yn rhaid iddi gael gwared â’i chŵn (er bod Ms D wedi dweud bod ei hanifeiliaid anwes yn rhan o’i rhwydwaith cefnogi ac yn ei helpu gyda’i lles) ac y “dylai hi fod wedi meddwl am ei sefyllfa cyn iddi gael cynifer o blant”. Dywedodd Ms D ei bod hefyd wedi cael ei holi sawl gwaith am ei chyn-ŵr, er nad oedd yn rhan o’r cais.

28. Dywedodd Ms D ei bod yn teimlo “fel sbwriel” ar ddiwedd yr alwad ffôn 2 awr a hanner. Dywedodd bod y Swyddog wedi dweud wrthi na allent ei helpu gan ganslo ei chais am dŷ cymdeithasol, felly collodd yr holl bwyntiau a oedd ganddi a’i safle yn ‘Band A’[55] ar y rhestr. Dywedodd Ms D, pan dderbyniodd ei gohebiaeth yn ei hysbysu na allai’r awdurdod lleol ei helpu, na chafodd wybod am ei hawl i ofyn am adolygiad.

[55] Y lefel flaenoriaeth uchaf o ran anghenion tai.

29. Dywedodd Ms D fod yn rhaid iddi siarad â'r Adran Dai, a ddatrysodd y broblem, ond nad oedd yn gallu adfer y pwyntiau a oedd wedi eu cronni dros y flwyddyn honno, felly cafodd ei rhoi ar waelod y rhestr.

30. Dywedodd Ms D ei bod wedi gofyn am swyddog digartrefedd gwahanol, fodd bynnag, bu i'r person a ddyrannwyd iddi wedyn ei gwthio i lety rhent preifat. Dywedodd Ms D nad oedd neb yn gwrando arni; roedd y cwbl yn teimlo fel ymarfer ticio blychau ac roedd yr holl broses yn dad-ddyneiddio. Dywedodd nad oedd unrhyw gyswllt/emosiwn/ymdeimlo ac nad oedd ei hawliau dynol yn cael eu hystyried.

31. Dywedodd Ms D ei bod yn teimlo ei bod yn cael ei gorfodi i symud i eiddo 2 ystafell wely, ymhell o'i rhwydwaith cefnogi, ei gwaith ac ysgolion y plant. Dywedodd y dywedwyd wrthi hefyd y byddai'n rhaid iddi gael gwared ar ei chŵn. Dywedodd nad oedd yr awdurdod lleol wedi ystyried ei hanghenion ac wedi rhoi opsiynau afrealistig iddi. Dywedodd Ms D fod yr awdurdod lleol wedi methu ag ystyried bod y posibilrwydd o symud i lety o'r fath yn golygu na fyddai'n gallu parhau i weithio a darparu ar gyfer ei theulu.

32. Dywedodd Ms D y cynigiwyd llety addas o'r diwedd iddi ar ôl cael cymorth gan Shelter Cymru a'i AS (Aelod o'r Senedd).

33. Dywedodd Ms D ei bod wedi gobeithio bod y broses ddigartrefedd wedi gwella ers iddi ei defnyddio am y tro cyntaf 13 blynedd ynghynt, ond nid oedd hynny yn wir. Dywedodd fod y sefyllfa i gyd yn ddychrynllyd iawn a'i bod yn teimlo ei bod yn cael ei barnu ar sail euogfarn ei chyn ŵr. Dywedodd ei bod yn teimlo nad oedd yr awdurdod lleol yn credu nad oedd yn ymwybodol o'i weithgareddau.

34. Dywedodd Ms D ei bod wedi canfod bod y broses asesu ar-lein/ffôn a roddwyd ar waith ar ôl COVID-19 yn well. Dywedodd Ms D fod y profiad 'wyneb yn wyneb', y tro cyntaf, yn erchyll. Dywedodd y'i rhoddwyd mewn ystafell fach tebyg i gell yn y carchar, dim ond hi a'i babi, oedd ond wedi ei eni ers ychydig wythnosau. Dywedodd Ms D y dywedwyd wrthi, yn ystod y cyfweliad, am gadw'r babi'n dawel.

35. Dywedodd Ms D fod yr amseru ar gyfer cyfarfodydd yr Opsiwn Tai yn aml yn anodd ac roedd yr holl broses yn teimlo'n ymwthiol, gan na chafodd ddigon o wybodaeth ynghylch pam fod angen gwybodaeth. Dywedodd Ms D nad oedd digon o amser wedi'i neilltuo ar gyfer y cyfarfod a chanfu, yn hytrach na chytuno ar amser cyfarfod arall, fod gwybodaeth yn cael ei hepgor o'r ffurflen asesu.

36. Dywedodd Ms D nad oedd y broses Dewisiadau Tai yn gefnogol a dywedwyd wrthi, "Beth os na allwn ni roi'r hyn rydych chi ei eisiau?" Dywedodd nad oedd yn teimlo eu bod yn ystyried y person wrth ddyrannu llety; roedd yn fwy o achos o gael cartref i'r person yn unig.

37. Dywedodd Ms D fod ei phrofiad o'r cynllun tai personol yn "llipa". Dywedodd na chynigwyd unrhyw gymorth ychwanegol iddi ynghylch materion digartrefedd, megis cymorth iechyd meddwl neu gymorth ymarferol gyda chyllidebu. Hefyd, dywedodd Ms D nad oedd cyfeiriad at yr aflonyddu a brofodd ac adroddiad yr heddlu yr oedd wedi eu darparu fel tystiolaeth. Dywedodd Ms D na chafodd y wybodaeth ei hystyried pan gafodd ei chartrefu 2 funud ar droed oddi wrth ei chamdriniwr.

38. Dywedodd Ms D, er y gallai'r awdurdod lleol fod wedi cynnal yr archwiliadau ei hun, fod disgwyl iddi ddarparu tystiolaeth gan feddyg teulu a'r heddlu. Dywedodd Ms D fod hyn, yn ei barn hi, yn rhwystr i rai pobl ac y byddai'n eu hatal rhag gofyn am help.

39. Dywedodd Ms D ei bod wedi cael addysg hyd at lefel gradd ond bod y ffurflenni yr oedd yn rhaid iddi eu llenwi yn anodd iawn. Dywedodd Ms D bod diffyg cyffyrddiad dynol yn y broses ac nad oedd unrhyw empathi na dealltwriaeth. Dywedodd Ms D nad oedd ei swyddog yn broffesiynol a'i bod yn poeni bod gan y swyddog ragfarn yn ei herbyn.

## Enghreifftiau o dempledi llythrau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

### Adran 68 cynnig llety dros dro

**Dyletswydd dros dro i sicrhau llety i geiswyr digartref y credir eu bod mewn angen blaenoriaethol o dan Adran 68 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014**

Mae’r awdurdod wedi asesu eich cais am lety ac wedi penderfynu eich bod:

i. Yn ddigartref
ii. Yn gymwys am gymorth
iii. Ag angen blaenoriaethol am lety

Felly cynigir llety dros dro i chi o dan adran 68 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn *(ychwanegwch gyfeiriad y llety) …………………….*

Wrth gynnig y llety hwn, mae’r awdurdod wedi ystyried y canlynol wrth asesu addasrwydd:

- Adran 59 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 sy’n darparu, pan fydd awdurdod tai yn cyflawni ei swyddogaethau i sicrhau bod llety ar gael i geisydd, rhaid i'r llety fod yn addas, mewn perthynas â'r ceisydd a phob aelod o'r aelwyd.
- Rhannau 9 a 10 o Ddeddf Tai 1985 (clirio slymiau a gorlenwi), a
- Rhannau 1 i 4 o Ddeddf Tai 2004 (amodau tai)
- Gorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2015 sy'n nodi, wrth benderfynu a fyddai, neu a fyddai wedi bod yn rhesymol i berson feddiannu llety sy'n cael ei ystyried yn addas, rhaid i awdurdod tai ystyried a yw'r llety'n fforddiadwy.
- Rhan 1 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 (rheoleiddio tai rhent preifat).
- Cod Canllawiau Digartrefedd (2016), Pennod 19
- Rwyf wedi ystyried eich amgylchiadau anghenion tai ac unrhyw aelodau eraill o'ch cartref. Mae hyn yn cynnwys unrhyw faterion iechyd ac a fyddech mewn perygl o drais neu fygythiad o drais sy'n debygol o ddigwydd yn y lleoliad lle mae'r eiddo.
- Rwy’n fodlon bod y llety yn fforddiadwy ar ôl ystyried cost y rhent yn llawn ac unrhyw wariant arall sy'n ymwneud â'r eiddo o'i gymharu â'r incwm sydd ar gael i chi ac yn benodol y gwariant sydd ei angen arnoch i fwydo a dilladu eich hun a'ch cartref; i gynhesu a goleuo'r eiddo ac i dalu'r holl gostau byw rhesymol eraill.

Gall dyletswydd yr awdurdod o dan adran 68 i sicrhau llety dros dro i chi a’ch aelwyd ddod i ben yn unol ag adran 69 am y rhesymau canlynol:

- mae’r awdurdod yn penderfynu nad oes dyletswydd yn ddyledus i chi o dan adran 73 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014
- mae’r ddyletswydd i helpu i ddiogelu llety dros dro i geiswyr digartref o dan adran 73 wedi dod i ben ac nad oes dyletswydd yn ddyledus i chi o dan adran 75 o'r ddeddf ac fe'ch hysbyswyd o'r penderfyniad hwn

- rydych wedi dod yn ddigartref yn fwriadol o dan yr amgylchiadau a arweiniodd at eich cais
- rydych eisoes wedi sicrhau cynnig o lety ar unrhyw adeg o fewn y cyfnod o 5 mlynedd cyn y diwrnod y cawsoch eich hysbysu o dan adran 63 bod dyletswydd yn ddyledus i chi
- mae'r awdurdod yn penderfynu bod y llety a ddarperir i chi wedi bod ar gael am gyfnod digonol, gan ddechrau ar y diwrnod y cawsoch eich hysbysu nad oedd dyletswydd yn ddyledus i chi o dan adran 75, i ganiatáu cyfle rhesymol i chi sicrhau llety sy'n isafswm o 56 diwrnod o'r dyddiad y cawsoch eich hysbysu bod dyletswydd yn ddyledus i chi o dan adran 73
- gwnaethoch wrthod cynnig am lety lle roedd yr awdurdod yn fodlon ei fod yn addas i chi fyw ynddo ac wedi'i sicrhau o dan adran 68
- rydych wedi dod yn ddigartref yn anfwriadol o lety dros dro a ddarparwyd i chi o dan adran 68
- rydych wedi rhoi'r gorau yn wirfoddol i feddiannu eich unig lety addas dros dro neu brif lety addas dros dro sydd ar gael i chi fyw ynddo o dan adran 68

Amgylchiadau pellach lle ddaw'r ddyletswydd o dan adran 68 i ben:

- Mae'r awdurdod yn penderfynu nad ydych bellach yn gymwys am gymorth
- Mae'r awdurdod yn penderfynu bod camgymeriad ffeithiol wedi arwain at eich hysbysu o dan adran 63 bod dyletswydd yn ddyledus i chi
- Bod yr awdurdod yn penderfynu eich bod wedi tynnu'ch cais yn ôl
- Mae'r awdurdod yn penderfynu eich bod wedi methu â chydweithredu

Os ydych yn anfodlon â'r llety sy'n cael ei gynnig, mae gennych hawl o dan adran 85 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 i ofyn am adolygu o addasrwydd y llety. Dylid gwneud cais am adolygiad cyn diwedd cyfnod o 21 diwrnod ataf i yn y cyfeiriad uchod.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r llythyr hwn, mae croeso i chi gysylltu â fi ar y rhif uchod.

**<u>Beth mae hyn yn ei olygu?</u> Byddwch yn derbyn llety dros dro tra bod Conwy Housing Solutions yn gweithio gyda chi i ddod o hyd i gartref newydd neu ein bod yn rhoi'r gorau i ddarparu'r llety hwnnw oherwydd un o'r rhesymau uchod.**

## Adran 68 dim dyletswydd i gynnig llety

Annwyl……………………………………….

**Cais am lety dros dro o dan adran 68 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014**

Rydym wedi cwblhau'r asesiad ar eich cais ac wedi derbyn dyletswydd i'ch helpu i sicrhau llety o dan adran 73 o Ddeddf Tai (Cymru) 2016 oherwydd eich bod:

1. Yn gymwys am gymorth
2. Yn ddigartref
3. Bod gennych gysylltiad lleol â Chonwy

Rydym wedi mynd ymlaen i ystyried a oes dyletswydd ar yr awdurdod i ddarparu llety dros dro i chi o dan adran 68. Rwyf wedi penderfynu ar hyn o bryd nad ydych yn un o'r categorïau angen blaenoriaethol fel y nodir yn adran 70 o'r Ddeddf.

Y rhesymau dros fy mhenderfyniad yw:

- *Pan ofynnwyd i chi pa anghenion cymorth sydd gennych, fe wnaethoch chi ymateb eich bod yn cymryd amffetaminau ond nad oeddech wedi bod yn eu cymryd ers 3 diwrnod. Pan fyddech yn eu defnyddio, dywedoch eich bod yn defnyddio gwerth tua £10 o amffetaminau y dydd 5 diwrnod yr wythnos. Rwy'n fodlon bod cymryd cyffuriau o'ch dewis chi i raddau helaeth ac nid yw wedi creu unrhyw gymhlethdodau eilaidd.*
- *Fe wnaethoch chi nodi bod pryderon ynglŷn â'ch iechyd meddwl ond ar hyn o bryd ni chynhaliwyd asesiad ffurfiol. Mae ymholiadau a wnaed gyda'r Tîm Cyswllt Seiciatryddol yn Uned Ablett, Ysbyty Glan Clwyd, wedi cadarnhau, er eich bod yn dangos arwyddion o baranoia, nid yw'n eglur a yw hyn o ganlyniad i'r ffaith eich bod yn cymryd cyffuriau neu oherwydd problem iechyd meddwl isorweddol. Rydych wedi cael eich atgyfeirio at y Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol am asesiad llawn, ac rwy'n fodlon eich bod yn gallu cael mynediad at wasanaethau cymorth ar gyfer y ffaith eich bod yn cymryd cyffuriau ac unrhyw broblemau iechyd meddwl.*
- *Wrth ddod i benderfyniad, rwyf wedi ystyried p'un a ydych chi'n agored i niwed oherwydd eich amser yn y ddalfa. Rwy'n nodi bod y ddedfryd yn gymharol fyr ac na wnaethoch nodi bod y ddedfryd o garchar wedi achosi unrhyw fregusrwydd.*

Rwyf wedi ystyried Dyfarniad y Goruchaf Lys ym mis Mai 2015 o ran achosion *Johnson, Hotak a Kanu* ac rwyf wedi ystyried y dyfarniad newydd hwn yn llawn gan ei fod yn cynnig arweiniad i awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr ar sut i gymhwyso'r prawf.

Rwyf hefyd wedi ystyried yn llawn y canllawiau a nodir yng Nghod Canllawiau Dyrannu Llety a Digartrefedd 2016 a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, gan ei fod yn cynnig cyngor manwl ar sut mae'n rhaid i fi ystyried cwestiwn angen blaenoriaethol a bod yn agored i niwed.

Os ydych yn anfodlon gyda'r penderfyniad hwn, mae gennych hawl i ofyn am adolygiad o dan adran 85 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Dylid gwneud cais am adolygiad cyn diwedd cyfnod o 21 diwrnod ataf i yn y cyfeiriad uchod.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r llythyr hwn, mae croeso i chi gysylltu â fi ar y rhif uchod.

**Beth mae hyn yn ei olygu? Rydym wedi penderfynu nad oes gennym unrhyw ddyletswydd i ddarparu llety argyfwng i chi oherwydd nad ydych mewn angen blaenoriaethol.**

## Adran 75 dyletswydd i ddiogelu llety yn dod i ben

Annwyl……………………………………..

**Cynnig llety er mwyn dod ag adran 75 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 i sicrhau llety i ben**

Fe wnaethoch gais i'r awdurdod am gymorth i sicrhau llety. Derbyniodd yr awdurdod ddyletswydd i'ch cynorthwyo o dan adran 75 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ac fe gawsoch eich hysbysu'n ysgrifenedig.

Mae'r awdurdod yn falch o'ch hysbysu y gwneir cynnig ffurfiol i chi am denantiaeth ………………………….. *(cyfeiriad)* sy'n cael ei gynnig i chi gan ………………………………… *(enw Landlord Cymdeithasol Cofrestredig neu landlord)*

- *Bydd y landlord/ asiant gosod eiddo/ Landlord Cymdeithasol Cofrestredig mewn cysylltiad â chi i drefnu i weld yr eiddo*
- *Gallwch weld yr eiddo ar ……………………………………………..*

Mae'r awdurdod yn fodlon bod hwn yn gynnig rhesymol ac yn debygol o fod ar gael i chi ei feddiannu am gyfnod o 6 mis o leiaf. Mae'n ofynnol i'r awdurdod eich hysbysu o ganlyniad gwrthod neu dderbyn y cynnig:

**Derbyn y cynnig**

Os ydych yn dewis derbyn y cynnig ar y denantiaeth, bydd yr awdurdod yn rhoi'r gorau i fod yn ddarostyngedig i ddyletswydd adran 75 i sicrhau llety i chi oherwydd eich bod yn ddigartref. Byddwch yn derbyn llythyr i ryddhau dyletswydd yr awdurdod a bydd eich achos yn cael ei gau.

**Gwrthod y cynnig**

Os ydych yn dewis gwrthod y cynnig am lety a bod yr awdurdod yn fodlon ei fod yn gynnig rhesymol, bydd yr awdurdod yn ysgrifennu atoch i gyflawni ei ddyletswydd i chi o dan adran 76 (3). Mae hynny'n golygu na fydd dyletswydd bellach ar yr awdurdod i sicrhau llety i chi a bydd eich achos yn cael ei gau.

Bydd gennych yr hawl i ofyn am adolygiad o'r penderfyniad hwn ar addasrwydd y cynnig a gallwch hefyd dderbyn y cynnig a dal gofyn am adolygiad o dan adran 85 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

Os gofynnwch i'r awdurdod eto ar ôl gwrthod y cynnig hwn, efallai na fydd yr awdurdod yn ddarostyngedig i adran 62 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 i asesu eich cais ac efallai na fydd yn cynnig cymorth pellach.

Os ydych yn ansicr ynglŷn â'ch opsiynau, mae croeso i chi gysylltu â fi ar y rhif uchod.

**Beth mae hyn yn ei olygu? Rydych wedi cael cynnig tŷ newydd, sydd yn ein barn ni, yn addas i chi, a bydd hyn yn eich atal rhag bod yn ddigartref.**

## Adran 79 (5) Methu â chydweithio

Annwyl………………………………

**Hysbysiad Adran 84 Deddf Tai (Cymru) 2014 bod dyletswyddau i sicrhau llety ar gyfer ceiswyr digartref wedi dod i ben (Adran 75)**

Fe wnaethoch gais i'r awdurdod am gymorth i sicrhau llety. Derbyniodd yr awdurdod ddyletswydd i'ch cynorthwyo o dan adran 75 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ac fe gawsoch eich hysbysu'n ysgrifenedig. Mae'r awdurdod wedi penderfynu bod y ddyletswydd hon wedi dod i ben.

Mae'r awdurdod wedi penderfynu bod ei ddyletswydd i sicrhau llety i chi oherwydd eich bod yn ddigartref o dan adran 75 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 wedi dod i ben o dan un o'r amgylchiadau a ddisgrifir yn adran 79 o'r Ddeddf.

Y rheswm bod y ddyletswydd hon wedi dod i ben yw:

- Mae'r awdurdod yn fodlon eich bod wedi methu â chydweithredu â'r awdurdod i helpu i sicrhau llety (Adran 79 [5])

Mae hynny'n golygu nad yw'r awdurdod bellach o dan ddyletswydd i sicrhau llety i chi fyw ynddo. Mae'r awdurdod wedi dod i'r penderfyniad hwn oherwydd:

- *Rydych wedi methu â chymryd y camau rhesymol a amlinellir yn eich cynllun asesu tai i sicrhau llety addas*
- *Rydych wedi methu â mynychu nifer o apwyntiadau a drefnwyd i chi yn ein swyddfeydd i adolygu eich cais*
- *Rydych wedi methu â mynychu apwyntiadau gydag asiantau eraill, gan gynnwys **Isallt, Noddfa, Shelter (ychwanegwch neu ddilëwch)** i helpu i atal eich digartrefedd*
- *Mae eich ymddygiad wrth fynychu'r swyddfeydd wedi ei gwneud yn amhosibl cydweithredu â chi i ddatrys eich anawsterau tai*

Os ydych yn anfodlon â'r penderfyniad a wnaed gan yr awdurdod, mae gennych hawl o dan adran 85 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 i ofyn am adolygiad o'r penderfyniad hwnnw. Dylid gwneud cais am adolygiad cyn diwedd cyfnod o 21 diwrnod ataf i yn y cyfeiriad uchod.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â chynnwys y llythyr hwn, mae croeso i chi gysylltu â fi ar y rhif uchod.

**Beth mae hyn yn ei olygu? Oherwydd nad ydych wedi cydweithio â ni i geisio dod o hyd i gartref newydd i chi, ni allwn weithio gyda chi bellach.**

## Adran 76 (a)(b) – Yn ddigartref yn fwriadol o lety dros dro

Annwyl………………………………

**Hysbysiad Adran 84 Deddf Tai (Cymru) 2014 bod dyletswydd wedi dod i ben i sicrhau llety i geiswyr digartref (Adran 75)**

Fe wnaethoch gais i'r awdurdod am gymorth i sicrhau llety. Derbyniodd yr awdurdod ddyletswydd i'ch cynorthwyo o dan adran 75 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ac fe gawsoch eich hysbysu'n ysgrifenedig. Rhoddwyd llety dros dro i chi yn ……………………………………………………… *(cyfeiriad llety dros dro)*. Mae'r awdurdod wedi penderfynu bod y ddyletswydd hon wedi dod i ben.

Mae'r awdurdod yn fodlon bod ei ddyletswydd i helpu i sicrhau llety i chi oherwydd eich bod yn ddigartref o dan adran 75 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 wedi dod i ben o dan adran 76(6)

Y rheswm pam mae'r ddyletswydd hon wedi dod i ben yw:

- Bod yr awdurdod wedi penderfynu eich bod wedi dod yn ddigartref yn fwriadol o'r llety addas dros dro a wnaed ar gael i chi fyw ynddo
- *Darparwyd y llety i chi o dan adran 68 a pharhaodd i fod ar gael o dan adran 75 [adran 76(6)(a)]*
- *Darparwyd y llety o dan adran 75 [adran 76(6)(b)]*

Mae hynny'n golygu nad yw'r awdurdod bellach o dan ddyletswydd i sicrhau llety i chi. Mae'r awdurdod wedi dod i'r penderfyniad hwn oherwydd:

- *Rydych wedi methu â rhoi'r manylion angenrheidiol i'r adran Budd-dal Tai i brosesu eich cais, ac felly mae ganddynt ôl-ddyledion rhent sylweddol.*
- *Mae eich ymddygiad yn y llety wedi bod yn annerbyniol ac rydym wedi derbyn nifer o gwynion am ymddygiad gwrthgymdeithasol (gan gynnwys manylion dyddiadau ac ymddygiad)*

Os ydych yn anfodlon â'r penderfyniad a wnaed gan yr awdurdod, mae gennych hawl o dan adran 85 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 i ofyn am adolygiad o'r penderfyniad hwnnw. Dylid gwneud cais am adolygiad cyn diwedd cyfnod o 21 diwrnod ataf i yn y cyfeiriad uchod.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â chynnwys y llythyr hwn, mae croeso i chi gysylltu â fi ar y rhif uchod.

**<u>Beth mae hyn yn ei olygu?</u> Mae eich ymddygiad wedi arwain at eich troi allan a byddwn yn cau eich achos.**

## Adran 74 (2) Diwedd 56 diwrnod (ddim yn flaenoriaeth a bwriadol)

Annwyl ……………………………………………

**Hysbysiad Adran 84 Deddf Tai (Cymru) 2014 bod dyletswydd adran 73 yn dod i ben i helpu i sicrhau llety i geiswyr digartref o dan adran 74 (2) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014**

Fe wnaethoch gais i'r awdurdod am gymorth i sicrhau llety. Derbyniodd yr awdurdod ddyletswydd i'ch cynorthwyo o dan adran 73 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ac fe gawsoch eich hysbysu'n ysgrifenedig bod y ddyletswydd hon bellach wedi dod i ben am y rheswm canlynol:

- Diwedd cyfnod o 56 diwrnod o ddyddiad yr hysbysiad

Mae'r awdurdod wedi rhoi'r cymorth i chi i sicrhau llety oherwydd eich bod yn ddigartref. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod weithio gyda chi am gyfnod o 56 diwrnod i helpu i sicrhau llety. Mae'r awdurdod wedi cymryd camau rhesymol i'ch helpu i sicrhau llety ac fe welwch gofnod o'r camau a gymerwyd i sicrhau llety yn amgaeedig.

*Isod ceir hysbysiad pan nad yw dyletswydd adran 75 yn ddyledus (ddim yn flaenoriaeth). Dilëwch/addaswch yn ôl yr angen.*

Rwyf wedi mynd ymlaen i ystyried a oes dyletswydd yn ddyledus i chi o dan unrhyw ddarpariaeth arall o fewn y Ddeddf yn enwedig o dan Adran 70 (Angen blaenoriaethol am lety) ac Adran 75 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Rwyf wedi penderfynu nad oes unrhyw ddyletswydd bellach yn ddyledus i chi am y rhesymau canlynol:

- Rwyf wedi ystyried os ydych yn agored i niwed ar ôl treulio amser yn y ddalfa. Eich dedfryd ddiweddaraf oedd cyfnod o ……. diwrnod ac fe dreulioch gyfnod pellach yn y ddalfa yn ystod ……….. Fe wnaethoch chi sicrhau llety rhent preifat yn y cyfnod yn y canol sy'n awgrymu nad oedd dedfryd o garchar wedi rhwystro eich gallu i sicrhau llety
- Fe wnaethoch chi nodi eich bod yn dioddef o ……………..a'ch bod o dan ofal ………………………………….. Ar ôl gwneud ymholiadau gyda ………………..gallaf gadarnhau bod eich achos wedi cau gyda'r ddau ac nad ydych yn derbyn eu gwasanaethau.
- Rydych wedi cael presgripsiwn am ……………………….i leddfu symptomau eich ………………………… y gallwch ei gael drwy fferyllfa ac nid ydych yn cael unrhyw anhawster i gymryd y feddyginiaeth neu reoli eich dos.
- Rwyf wedi ystyried y gyfraith achosion ganlynol: *Hotak (Apelydd) v Bwrdeistref Southwark, Llundain (Ymatebydd) Kanu (Apelydd) v Bwrdeistref Southwark, Llundain (Ymatebydd) Johnson (Apelydd) v Cyngor Bwrdeistref Fetropolitanaidd Solihull (Ymatebydd)* ac rwy'n fodlon nad ydych yn agored i niwed fel y diffinnir gan 71 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014

*Isod ceir hysbysiad lle nad yw adran 75 yn ddyledus (bwriadoldeb). Dilëwch/addaswch yn ôl yr angen.*

Rwyf wedi mynd ymlaen i ystyried a oes dyletswydd yn ddyledus i chi o dan unrhyw ddarpariaeth arall o fewn y Ddeddf yn enwedig o dan adran 75 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Rwyf wedi penderfynu eich bod:

- Yn gymwys
- Yn ddigartref
- Ag angen blaenoriaethol am lety
- Cysylltiad lleol â'r sir
- <u>Eich bod yn ddigartref yn fwriadol</u>

Y rhesymau dros y penderfyniad hwn yw:

Nodwch resymau fan hyn, e.e:

- Cyflwynwyd hysbysiad adran… arnoch wrth eich landlord oherwydd ôl-ddyledion rhent o £ ……… ..
- Fe fethoch â thalu eich rhent er eich bod wedi derbyn Budd-dal Tai. Eich rhent oedd £ ………. fesul mis calendr ac roeddech yn derbyn y Lwfans Tai lleol o £ ………… yr wythnos sy'n cyfateb i £ ………… fesul mis calendr gan adael ychwanegiad misol o £ ……… ....... .
- Ar ôl cwblhau datganiad ariannol gyda chi i bennu fforddiadwyedd yr eiddo, mae'n amlwg bod gennych incwm gwario o £ ……… y mis ar ôl talu'ch rhent yn llawn.
- Pan ofynnwyd i chi pam nad oeddech wedi talu'r rhent, fe wnaethoch ddweud bod angen yr arian arnoch i dalu am ………… ...
- Wrth ddod i'r penderfyniad hwn, rwyf wedi ystyried a oedd yr eiddo'n addas ac yn fforddiadwy. Rwyf wedi ystyried y canlynol:

(a) Rhan 9 o Ddeddf Tai 1985 (clirio slymiau);
(b) Rhan 10 o Ddeddf Tai 1985 (gorlenwi);
(c) Rhan 1 o Ddeddf Tai 2004 (amodau tai);
(d) Rhan 2 o Ddeddf Tai 2004 (trwyddedu tai amlfeddiannaeth);
(e) Rhan 3 o Ddeddf Tai 2004 (trwyddedu dethol llety preswyl eraill);
(f) Rhan 4 o Ddeddf Tai 2004 (darpariaethau rheoli ychwanegol mewn perthynas â llety preswyl);
(g) Rhan 1 o'r Ddeddf hon (rheoleiddio tai rhent preifat).

Os ydych yn anfodlon â'r penderfyniad a wnaed gan yr awdurdod, mae gennych hawl o dan adran 85 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 i ofyn am adolygiad o'r penderfyniad hwnnw. Dylid gwneud cais am adolygiad cyn diwedd cyfnod o 21 diwrnod ataf i yn y cyfeiriad uchod.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â chynnwys y llythyr hwn, mae croeso i chi gysylltu â fi ar y rhif uchod.

**<u>Beth mae hyn yn ei olygu?</u> Er gwaethaf ein hymdrechion gorau, nid ydym wedi gallu sicrhau cartref newydd i chi ac nid oes unrhyw gymorth pellach ar gael i chi.**

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf - Canllaw cam wrth gam

## Canllaw cam wrth gam

I'r broses ymgeisio digartrefedd gyda Chyngor Rhondda Cynon Taf

RHONDDA CYNON TAF

## Y broses

Er y bydd siwrnai pob person yn dechrau gyda chais ac asesiad, efallai na fyddwch chi'n mynd drwy bob cam o'r broses hon.

Ym mhob cam yr ewch drwyddo, bydd y cyngor yn ysgrifennu atoch.

Cadwch lygad am y symbolau ar y daflen hon neu'r llythyrau rydyn ni'n eu hanfon atoch i'ch helpu i ddeall ym mha gam o'r broses rydych chi.

### Cam 1: Cais

Os ydych yn ddigartref neu mewn perygl o ddod yn ddigartref o fewn 56 diwrnod, byddwn yn eich helpu. Byddwn yn rhoi gwybodaeth a chyngor am ddim i chi ac, os ydych chi'n gymwys i gael cymorth pellach, byddwn yn cynnal asesiad.

### Cam 2: Asesiad

Rydyn ni eisiau deall beth gallwn ei wneud gyda'n gilydd i ddatrys eich problem dai. Byddwn ni'n gofyn i chi pam bod angen help arnoch chi a beth rydych chi eisiau gweld yn digwydd. Byddwn yn gofyn i chi am anghenion neu gymorth tai penodol sydd gennych. Byddwn yn creu cynllun tai personol gyda chi a fydd yn nodi'r camau y mae'n rhaid i ni eu cymryd wrth i ni weithio gyda'n gilydd.

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf**

Rydym yn cynnig gweithwyr allweddol i roi cefnogaeth benodol yn seiliedig ar eich amgylchiadau personol. Os ydych chi'n ddigartref neu mewn perygl o ddod yn ddigartref, gall gweithiwr allweddol eich helpu i ddod o hyd i gartref neu eich helpu gydag unrhyw gamau y bydd angen i chi eu cymryd i'ch atal rhag colli'ch llety.

RHONDDA CYNON TAF

**Rydyn ni yma i helpu – peidiwch ag oedi, cysylltwch â ni am gyngor diduedd a chyfeillgar.**

**Ffôn**
01443 495188

**Tu allan i oriau**
01443 425011

**E-bost**
homelessness@rhondda-cynon-taf.gov.uk

### Cam 3: Atal

Os ydych mewn perygl o ddod yn ddigartref o fewn 56 diwrnod, byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i'ch atal rhag dodyn ddigartref. Byddwn yn ystyried gwahanol gamau gweithredu a allai eich helpu - gall hyn gynnwys ceisio eich helpu i gadw eich tŷ presennol.

### Cam 4: Llety Dros Dro

Os ydych yn ddigartref yn barod, a'n bod yn credu bod gennych angen blaenoriaethol, byddwn yn rhoi llety dros dro i chi, wrth i ni benderfynu pa help pellach sydd angen arnoch. Gall weithiau fod yn hostel, lloches neu wely a brecwast.

### Cam 5: Cynorthwyo i sicrhau llety

Os na allwn eich atal rhag bod yn ddigartref, neu eich bod eisoes yn ddigartref, mae'n rhaid i ni ganfod cartref addas. Gall yr help bara am56 diwrnod yn unig. Os nad ydym wedi llwyddo i ganfod cartref i chi yn ystod y cyfnod hwnnw, efallai na fydd angen i ni eich helpu ymhellach, oni bai bod gennych angen blaenoriaethol ac nad ydych yn ddigartref yn fwriadol.

### Cam 6: Dyletswydd terfynol i sicrhau llety

Os nad ydym wedi gallu helpu i ddod o hyd i gartref mewn 56 diwrnod a bod gennych angen blaenoriaethol ac nad ydych yn ddigartref yn fwriadol, mae'n rhaid i ni ganfod a chynnig cartref addas i chi.

### Cam 7: Hawl i Adolygiad

Os nad ydych yn cytuno â'r penderfyniadau a wneir yn ystod unrhyw gam o'r broses, gallwch ofyn am adolygiad. Gallwch ofyn am adolygiad dros y ffôn, yn bersonol neu'n ysgrifenedig ond rhaid ei wneud o fewn 21 diwrnod ar ôl i chi dderbyn ein penderfyniad. Mae gennych hawl hefyd i ofyn am wrandawiad adolygu lle gallwch egluro'n bersonol pam eich bod yn anghytuno â'n penderfyniad.

### Beth mae 'digartref' yn fwriadol' yn ei olygu?

Mae bod yn 'ddigartref yn fwriadol' yn golygu bod eich digartrefedd wedi'i achosi gan rywbeth a wnaethoch yn fwriadol neu wedi methu â gwneud. Mae rhai teuluoedd dal yn gymwys am gymorth hyd yn oed os gwelir eu bod yn ddigartref yn fwriadol.

### Beth yw cysylltiad lleol?

Efallai y byddwn yn gwirio a oes gennych gysylltiad lleol â'r ardal. Er enghraifft, os ydych chi'n gweithio yma, eisoes yn byw yma neu os oes gennych deulu agos yn byw yma. Gallai fod rhesymau arbennig eraill pam y gallai fod gennych gysylltiad â'r ardal felly mae'n bwysig iawn eich bod yn dweud wrthym unrhyw beth a allai olygu bod gennych gysylltiad lleol.

I gael cyngor annibynnol am ddim am eich sefyllfa dai, cysylltwch â:

Shelter Cymru

www.sheltercymru.org.uk

08000 495 495

**Shelter Cymru**

Elusen gofrestredig rhif. 515902

**ATODIAD 10**

## Cynghorion Talu Sylw

### Ysgrifennu at ddefnyddwyr gwasanaethau – ambell gyngor da

Yn ystod y 4 blynedd ddiwethaf, mae Prosiect Talu Sylw gan Shelter Cymru wedi cynnal pedwar ymarfer gwahanol a oedd yn cynnwys adolygu llythyrau penderfyniadau digartrefedd ymhlith sefydliadau ac awdurdodau lleol gwahanol. Mae'r cynghorion canlynol yn seiliedig ar adborth defnyddwyr gwasanaethau sy'n ymwneud â'r prosiect, y mae pob un ohonynt wedi cael profiad personol o ddigartrefedd.

### Dylai'r cyfathrebu fod yn gryno ac yn berthnasol

Gwnewch yn siŵr fod y llythyr yn bersonol ac yn benodol i amgylchiadau'r unigolyn. Os nad yw'r wybodaeth yn berthnasol, peidiwch â'i chynnwys "rhag ofn".

### Cadwch ddiwyg y dogfennau yn syml ac yn hawdd i'w dilyn

Gallai hyn gynnwys defnyddio pwyntiau bwled, ffont trwm neu danlinellu fel bod prif negeseuon y llythyr i'w gweld yn glir.

Mae torri'r testun gyda phenawdau a phwyntiau bwled yn gwneud y wybodaeth yn haws i'r darllenydd.

Ysgrifennwch frawddegau a pharagraffau byrion – dyw pobl ddim yn gallu goddef llawer o wybodaeth i gyd ar yr un pryd, felly ystyriwch y defnydd o "ofod gwyn".

### Defnyddiwch iaith syml sy'n hawdd i'w deall

Peidiwch â defnyddio jargon, acronymau ac ymadroddion cyfreithiol, neu os oes rhaid eu defnyddio, gwnewch yn siŵr eich bod yn egluro eu hystyr.

Nid yw'r ffaith eich bod chi'n gyfarwydd â'r cynnwys a'r derminoleg yn y llythyr yn golygu y bydd y darllenydd. Gallai ffordd o siarad sy'n gyffredin i chi fod yn gymhleth ac yn ddryslyd i'r person cyffredin, yn enwedig rhywun mewn argyfwng.

Defnyddiwch amserau presennol a gweithredol lle bo'n bosib.  Er enghraifft, 'mae eich apwyntiad am…' yn hytrach na 'trefnwyd apwyntiad i chi ar gyfer …'

**Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n gwneud unrhyw benderfyniadau'n glir**

Dywedwch wrth bobl beth maen nhw eisiau ei wybod - beth fydd yn cael ei wneud i'w helpu, ac os na allwch helpu, eglurwch pam yn glir.

Gwnewch yn siŵr bod y penderfyniad, sef rhan bwysicaf y llythyr i'r rhan fwyaf o bobl, yn cael ei amlygu neu ei leoli'n amlwg (defnyddio print trwm neu danlinellu).

Mae'r hawl i gael adolygiad o'r penderfyniad yr un mor bwysig. Gwnewch hynny'n amlwg ac yn glir i bobl ei weld ac ni ddylech ei guddio ym mharagraff olaf y testun.

**Atebwch y cwestiwn, "beth sy'n digwydd nesaf", neu "beth ddylwn i wneud nesaf"?**

Ceisiwch gael rhestr wirio o gamau gweithredu ar gyfer y defnyddiwr a darparwr y gwasanaeth os oes angen.

**Gwnewch yn siŵr bod eich gwybodaeth gyswllt ar gael yn hawdd**

Rhan o'r broses o bersonoli'r llythyr yw rhoi gwybod i'r derbynnydd sut gallan nhw gael gafael arnoch chi os oes angen. Dylai hyn gynnwys eich manylion cyswllt personol gan gynnwys unrhyw rifau deialu neu estyniad uniongyrchol, ac nid rhif ffôn cyffredinol y swyddfa yn unig a allai arwain at bobl yn aros am amser hir ac yn methu â chael gafael ar y swyddfa dai y mae angen iddyn nhw gysylltu â hi.

Os ydych chi'n gweithio'n rhan amser yn unig, dylech gynnwys y wybodaeth hon hefyd, a gall fod yn rhwystredig i bobl sy'n ceisio cysylltu pan na fyddwch ar gael.

Ystyriwch hefyd gynnwys gwybodaeth y tu allan i oriau rhag ofn y bydd argyfwng.

**Ystyriwch ddefnyddio atodiadau neu daflenni ffeithiau**

Os oes angen i chi gynnwys gwybodaeth hirach, bydd atodiadau y gellir cyfeirio atyn nhw yn y llythyr yn helpu i gadw corff y testun yn fyrrach ac yn haws i'w ddarllen.

Gellir darllen y rhain ar wahân neu nes ymlaen neu gellir eu cadw ar gyfer y dyfodol, er gwybodaeth.

Gallai atodiadau gynnwys ffyrdd o gyfeirio gwybodaeth at sefydliadau eraill sy'n cynnig cymorth a chefnogaeth neu wybodaeth gyfreithiol fwy cymhleth.